Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru

# Adroddiad ar Bolisi Trethi Cymru 2019

## Rhagfyr 2019

llyw.cymru

OGL © Hawlfraint y Goron 2019, Llywodraeth Cymru 39314, ISBN digidol 978-1-83933-603-4

# Cynnwys

| | Tudalen |
|---|---|
| Rhagair | 4 |
| Cefndir | 5 |
| Rhoi trethi Cymru ar waith | 7 |
| Cynllun gwaith polisi trethi 2019 | 11 |
| A. Datblygu polisi trethi sy'n codi refeniw i dalu am wasanaethau cyhoeddus mor deg â phosibl, yn unol â blaenoriaeth polisi Llywodraeth Cymru | 14 |
| A1. Y sylfaen drethu yng Nghymru | 14 |
| A2. Trethiant tir ac eiddo amhreswyl | 23 |
| A3. Trethiant eiddo preswyl | 25 |
| A4. Polisi trethu teg | 28 |
| A5. Trefnu trethi Cymru yn unol ag uchelgeisiau polisi eraill | 32 |
| B. Datblygu dull gweithredu mwy effeithiol a chydlynol ar gyfer treth ar draws trethi presennol Cymru ac ar draws y cyd-destun trethi ehangach | 36 |
| B1. Rhoi trethi datganoledig Cymru ar waith | 36 |
| B2. Systemau trethu yng Nghymru | 40 |
| B3. Gwybodaeth am drethi | 42 |
| B4. Gweinyddu Cyfraddau Treth Incwm Cymru | 45 |
| C. Ymgysylltu, cyfathrebu a meithrin gallu | 47 |
| C1. Dylunio trethi Cymru | 47 |
| C2. Ymgysylltu â'r cyhoedd | 50 |
| C3. Meithrin gallu yng nghyswllt treth yng Nghymru | 55 |
| C4. Ymateb i newidiadau yng Nghyllideb Llywodraeth y DU | 57 |
| C5. Rhannu arferion da yng nghyswllt trethi | 60 |
| Atodiad un: Gwerthuso rhagolygon Treth Trafodiadau Tir a Threth Gwarediadau Tirlenwi | 62 |
| Atodiad dau: Manylion cyswllt i gael rhagor o wybodaeth | 72 |

## Siartiau a thablau


| | | Tudalen |
|---|---|---|
| Ffigur un: | Treth Incwm yng Nghymru, 2019-20 | 9 |
| Ffigur dau: | Amcanestyniadau poblogaeth ar gyfer Cymru | 15 |
| Ffigur tri: | Cyfradd anweithgarwch economaidd, heb gynnwys myfyrwyr a phobl wedi ymddeol | 16 |
| Ffigur pedwar: | Gwerth Ychwanegol Gros (Cytbwys) yr awr a weithiwyd yng Nghymru a'r DU | 16 |
| Ffigur pump: | Dosbarthiad enillion yr awr yng Nghymru a Lloegr, 2017 | 17 |
| Ffigur chwech: | Dosbarthiad Trethdalwyr Incwm unigol yn ôl y gyfradd ymylol yng Nghymru a Lloegr | 18 |
| Ffigur saith: | Dadelfennu rhagolygon 2018-19 Rhagfyr 2017 | 64 |
| Ffigur wyth: | Refeniw cyfraddau eiddo preswyl ychwanegol, fesul mis 2018–19 | 66 |
| Ffigur naw: | Alldro Treth Trafodiadau Tir a Threth Dir y Dreth Stamp y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn ôl y gwahaniaeth yn y rhagolwg, 2018-19 | 67 |
| Ffigur deg: | Rhagolygon ac alldro Treth Gwarediadau Tirlenwi ar gyfer 2018-19 | 68 |

| | | |
|---|---|---|
| Tabl un: | Prif gyfraddau preswyl y Dreth Trafodiadau Tir | 9 |
| Tabl dau: | Prif gyfraddau amhreswyl y Dreth Trafodiadau Tir | 10 |
| Tabl tri: | Cyfraddau rhent les amhreswyl y Dreth Trafodiadau Tir | 10 |
| Tabl pedwar: | Cyfraddau'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi, £ y dunnell | 10 |
| Tabl pump: | Alldro 2018-19 a rhagolwg Rhagfyr 2017 | 63 |
| Tabl chwech: | Alldro 2018-19 a rhagolwg Rhagfyr 2018 | 65 |

# Rhagair



Deddf Cymru 2014 ddechreuodd y broses o ddatganoli trethi a chwblhawyd y broses ym mis Ebrill. Mae dwy dreth wedi'u datganoli'n llawn (Treth Trafodiadau Tir a Threth Gwarediadau Tirlenwi), Awdurdod Cyllid Cymru sy'n eu casglu ac mae gennym ni'r pŵer i bennu'r cyfraddau dros Dreth Incwm Llywodraeth y DU. Ynghyd ag ardrethi annomestig a'r dreth gyngor, mae tua £5bn o wariant ar wasanaethau cyhoeddus Cymru bellach yn cael ei ariannu gan refeniw sy'n cael ei gasglu a'i reoli gan lywodraeth ganolog neu leol yng Nghymru.

Mae'r trefniadau newydd ar waith, ac mae Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio fwyfwy ar sut gallwn ni weithredu trethi'n fwy effeithiol ac effeithlon, gyda'r nod o ddod yn batrwm rhyngwladol ar gyfer datblygu a gweinyddu polisi trethi.

Ym mis Chwefror, cyhoeddais fy nghynllun gwaith ar gyfer trethi yn 2019, a oedd yn nodi'r materion a fyddai'n cael eu datblygu yn ystod y flwyddyn. Mae'r gwahanol bynciau'n edrych ar sut gall trethi gefnogi nodau polisi ac ariannu gwasanaeth cyhoeddus hanfodol, sut gellir gwella'r broses o weinyddu trethi, a sut gellir gwella gwybodaeth a dealltwriaeth o drethiant i bawb, yn unol â'u hanghenion - o drethdalwyr i gynghorwyr, gweinyddwyr ac arbenigwyr treth.

Mae nifer o heriau i'r agenda hon, ac mae'n amlwg mai datblygiadau tymor hwy fydd nifer o'n huchelgeisiau. Dim ond gyda chymorth rhanddeiliaid o bob rhan o Gymru y byddwn yn eu cyflawni hefyd. Hyd yma, mae Llywodraeth Cymru wedi elwa'n fawr ar gymorth anhepgor nifer o unigolion a sefydliadau sydd wedi cyfrannu syniadau ac arbenigedd, ac sydd wedi cynrychioli safbwyntiau a phrofiadau sectorau cymdeithas yng Nghymru mewn amryw o fforymau, gan gynnwys y Grŵp Cynghorol Trethi, y Grwpiau Arbenigol a Chyfeirio ar gyfer Treth a chynhadledd trethi Cymru.

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r cynnydd hyd yma. Rydym wedi dechrau'n dda, ond mae llawer mwy i'w wneud. Yn y flwyddyn newydd, byddaf yn cyhoeddi fy nghynlluniau gwaith ar gyfer trethi yn 2020, yn seiliedig ar yr hyn rydym wedi'i ddysgu hyd yma. Os oes gennych chi unrhyw syniadau ynghylch y materion y dylem fod yn edrych arnynt, mae croeso i chi gysylltu â Thrysorlys Cymru - mae'r manylion cyswllt ar ddiwedd yr adroddiad hwn.



Rebecca Evans AC
Y Gweinidog Cyllid a Threfnydd

# Y Cefndir

## Trethi Cymru

1. Mae'r ffordd y mae gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu hariannu yng Nghymru wedi newid yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae hyn yn dilyn cyflwyno trethi Cymru - Treth Trafodiadau Tir, Treth Gwarediadau Tirlenwi a Chyfraddau Treth Incwm Cymru[1].

2. Cyflwynwyd Treth Trafodiadau Tir a Threth Gwarediadau Tirlenwi ar 1 Ebrill 2018, yn lle trethi'r DU yng Nghymru, sef Treth Dir y Dreth Stamp a'r Dreth Dirlenwi. Maent yn drethi sydd wedi'u datganoli'n llawn, sy'n golygu bod gan Lywodraeth Cymru reolaeth lwyr dros eu dyluniad. Sefydlwyd Awdurdod Cyllid Cymru ym mis Hydref 2017 i gasglu'r trethi hyn.

3. Cyflwynwyd Cyfraddau Treth Incwm Cymru ar 6 Ebrill 2019, ac maent wedi'u datganoli'n rhannol i Gymru. Maent yn galluogi Gweinidogion Cymru i amrywio'r ardrethi y mae trethdalwyr cyfradd sylfaenol, uwch ac ychwanegol yn eu talu[2]. Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi sy'n dal i fod yn gyfrifol am y rhan fwyaf o'r agweddau sy'n ymwneud â threth, gan gynnwys y prosesau casglu a gweinyddu, pennu'r lwfans personol a'r trothwyon incwm, a threthu incwm o gynilion a difidendau.

4. Yn gyfnewid am y refeniw treth a gynhyrchir gan drethi Cymru, mae Llywodraeth y DU wedi lleihau'r cyllid grant bloc mae'n ei roi i Gymru, o swm cyfatebol. Mae'n hanfodol fod trethi Cymru yn cael eu rhoi ar waith yn effeithlon ac yn effeithiol, er mwyn cynhyrchu'r refeniw sydd ei angen i ariannu gwasanaethau cyhoeddus hanfodol Cymru - fel iechyd, gwasanaethau cymdeithasol, addysg a'r seilwaith trafnidiaeth.

## Polisi trethi Cymru

5. Mae datganoli pwerau trethi yn caniatáu i Lywodraeth Cymru ddatblygu dull gweithredu mwy strategol ar gyfer trethiant canolog a lleol yng Nghymru, gan sicrhau ei fod yn gallu mynd i'r afael ag anghenion a blaenoriaethau dinasyddion a busnesau yn well. Cyflwynodd Llywodraeth Cymru ei ddull gweithredu yn 2017, yn y Fframwaith Polisi Trethi[3]. Mae'n cynnwys pum egwyddor i siapio trethi Cymru:

   Dylai trethi Cymru wneud y canlynol:
   - Codi refeniw i ariannu gwasanaethau cyhoeddus mewn modd mor deg â phosibl;
   - Cyflawni amcanion polisi Llywodraeth Cymru, yn arbennig o ran cefnogi swyddi a thwf;
   - Bod yn eglur, yn sefydlog ac yn syml;
   - Cael eu datblygu drwy gydweithrediad a chyfranogiad;
   - Cyfrannu'n uniongyrchol at nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol o greu Cymru fwy cyfartal.

---

[1] Datganolwyd y pwerau treth drwy Ddeddf Cymru 2014:
http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2014/29/contents/enacted
Roedd Deddf Cymru 2017 yn dileu'r gofyn am refferendwm ynghylch datganoli Treth Incwm:
http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2017/4/contents/enacted

[2] Yn y rhan fwyaf o achosion, diffinnir trethdalwyr Cymru yn ôl eu prif fan preswylio, ond mae rhai eithriadau. Mae diffiniad llawn ar gael yn Neddf Cymru 2014:
http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2014/29/section/8/enacted

[3] Fframwaith polisi trethi (Mehefin 2017):
https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-10/fframwaith-polisi-trethi.pdf

6. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno cylch blynyddol polisi treth, sy'n cynnwys cyhoeddi cynllun gwaith, yna gwaith ymchwil, dadansoddi ac ymgysylltu, cyn adrodd ar y canfyddiadau a'r casgliadau sy'n dod i'r amlwg, fel rhan o broses y Gyllideb ddrafft.

7. Rydym yn gobeithio y bydd cyhoeddi'r cynllun gwaith yn codi ymwybyddiaeth ymhlith rhanddeiliaid a phobl a sefydliadau eraill sydd â diddordeb, o'r hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ymchwilio iddo, ac y bydd yn eu galluogi i ofyn cwestiynau a chyfrannu safbwyntiau, gwybodaeth a phrofiadau. Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal cynadleddau trethi undydd yn ystod haf 2018 a 2019 i gefnogi hyn, gan roi cyfle i drafod rhai o'r ffrydiau gwaith a materion eraill sy'n ymwneud â threthi yn fwy manwl.

8. Bydd y cynllun gwaith polisi trethi nesaf yn cael ei gyhoeddi yn gynnar yn 2020.

# Rhoi trethi Cymru ar waith

## Cefndir

9. Cafodd y Dreth Trafodiadau Tir a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi eu cyflwyno am y tro cyntaf ar 1 Ebrill 2018 ac maent yn cael eu casglu a'u rheoli gan Awdurdod Cyllid Cymru. Cyflwynwyd Cyfraddau Treth Incwm Cymru ar 6 Ebrill 2019, ac maent yn cael eu casglu a'u rheoli gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi.

10. Mae cyfraddau'r Dreth Trafodiadau Tir yn dal i fod yr un fath â'r cyfraddau ym mis Ebrill 2018. Mae'r cyfraddau a'r bandiau'n cael eu hadolygu, ond mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal yr un cyfraddau er mwyn creu sefydlogrwydd i drethdalwyr, yn unol â'n hegwyddorion treth. Anaml iawn y bydd cyfradd neu fandiau'r ddwy dreth trafodiadau tir yn y DU yn cael eu newid chwaith. Y tro diwethaf i gyfraddau a bandiau preswyl Treth Dir y Dreth Stamp yn y DU gael eu newid oedd yn 2014, ac ar gyfer trafodiadau amhreswyl yn 2016. Yn yr Alban, nid yw prif gyfraddau a bandiau'r Dreth Trafodiadau Tir ac Adeiladau ar gyfer trafodiadau preswyl wedi newid ers i'r dreth ddod ar waith yn 2015, ond gwnaed newidiadau i gyfraddau a bandiau amhreswyl ym mis Ionawr 2019.

11. Ar gyfer Treth Gwarediadau Tirlenwi, roedd Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau cysondeb â dull gweithredu Llywodraeth y DU yng nghyswllt cyfraddau Treth Dirlenwi ar gyfer y cyfraddau treth is a safonol yn 2018-19 a 2019-20. Roedd hyn er mwyn cefnogi amcan polisi Treth Gwarediadau Tirlenwi o leihau'r gwastraff sy'n cael ei dirlenwi yng Nghymru, ac er mwyn amddiffyn rhag y risg o wastraff yn cael ei yrru ar draws y ffin rhwng Cymru a Lloegr er mwyn manteisio ar gyfraddau is mewn un wlad neu'r llall. Cafodd y cyfraddau cychwynnol, a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2018, eu codi ar 1 Ebrill 2019, yn unol â chwyddiant, yn gyson â'r Dreth Dirlenwi yn Lloegr.

12. Mae Cyfraddau Treth Incwm Cymru yn 2019-2020 wedi'u pennu er mwyn i gyfradd y dreth sy'n cael ei thalu gan drethdalwyr yng Nghymru fod yr un fath â'r hyn y mae trethdalwyr yn Lloegr a Gogledd Iwerddon yn ei thalu. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i beidio â chodi cyfraddau Treth Incwm yn ystod tymor y Cynulliad Cenedlaethol hwn.

## Tystiolaeth a dadansoddiad

13. Mae Awdurdod Cyllid Cymru wedi cyhoeddi data ar gyfer 2018-2019 ac ar gyfer misoedd cyntaf 2019-2020 ar gyfer y ddwy dreth sydd wedi'u datganoli'n llawn[4].

14. Mae Awdurdod Cyllid Cymru wedi cyhoeddi datganiad ystadegol blynyddol 2018-2019 ar gyfer Treth Trafodiadau Tir hefyd[5]. Mae'r cyhoeddiad yn rhoi cyfrif mwy manwl am y Dreth Trafodiadau Tir yn ystod ei blwyddyn gyntaf, ac yn dadansoddi yn ôl awdurdod lleol a thueddiadau dros y flwyddyn.

15. Bydd Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn cyhoeddi'r data alldro cyntaf ar gyfer Cyfraddau Treth Incwm Cymru, a hynny ar gyfer 2019-20, yn ystod haf 2021.

---

[4] Ystadegau - Treth Trafodiadau Tir a Threth Gwarediadau Tirlenwi:
https://llyw.cymru/ystadegaur-dreth-trafodiadau-tir
https://llyw.cymru/ystadegaur-dreth-gwarediadau-tirlenwi
[5] *Ystadegau - Treth Trafodiadau Tir: Ebrill 2018 - Mawrth 2019*:
https://llyw.cymru/ystadegaur-dreth-trafodiadau-tir-ebrill-2018-mawrth-2019-html

16. Dyma'r rhagolygon refeniw ar gyfer 2020-21 gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol:

| | |
|---|---|
| Cyfraddau Treth Incwm Cymru | £2,206m |
| Treth Trafodiadau Tir | £245m |
| Treth Gwarediadau Tirlenwi | £36m |

17. Mae rhagolygon Llywodraeth Cymru o ran Treth Gwarediadau Tirlenwi a Threth Trafodiadau Tir ar gyfer 2018-19, a sicrhawyd gan Brifysgol Bangor, wedi cael eu gwerthuso (gweler Atodiad un).

**Y canlyniadau a'r camau nesaf**


18. Os bydd Llywodraeth nesaf y DU yn newid polisïau Treth Incwm, Treth Dir y Dreth Stamp neu'r Dreth Dirlenwi mewn ffordd a fydd yn effeithio ar refeniw trethi Cymru ac yn effeithio ar adnoddau net Llywodraeth Cymru, bydd Llywodraeth Cymru yn adolygu a yw ei chynlluniau trethi yn dal i fod yn briodol i Gymru.

*Cyfraddau Treth Incwm Cymru*

19. Ar gyfer 2020-21, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu pennu Cyfraddau Treth Incwm Cymru yn 10c. Felly, bydd cyfraddau Treth Incwm y bydd trethdalwyr Cymru yn eu talu yn dal i fod yr un fath â chyfraddau trethdalwyr yn Lloegr a Gogledd Iwerddon. Bydd angen i'r Cynulliad Cenedlaethol gadarnhau'r cynnig hwn drwy gyflwyno cynnig cyn y Gyllideb derfynol. Bydd y cynnig yn cael ei roi gerbron cyn y drafodaeth ar y Gyllideb derfynol, er mwyn gallu pleidleisio ar gyfraddau Cymru cyn dechrau trafod y Gyllideb derfynol. Mae ffigur un yn dangos y cyfraddau a'r trothwyon, yn seiliedig ar drothwyon a lwfansau personol Treth Incwm 2019-20[6].

[6] Llywodraeth newydd y DU fydd yn pennu trothwyon a lwfansau personol Treth Incwm ar gyfer 2020-21.

**Ffigur un: Treth Incwm yng Nghymru, 2019-20**




Yn 2019-20, nid oes rhaid talu Treth Incwm ar incwm hyd at £12,500 oherwydd y lwfans personol.

*Treth Trafodiadau Tir*

20. Ni fydd cyfraddau Treth Trafodiadau Tir yn newid yn 2020-21, ac maent yn cael eu nodi isod. Mae hyn er mwyn cynnal cysondeb a sefydlogrwydd yn y marchnadoedd eiddo yng Nghymru. Gan nad oes unrhyw newid i'r cyfraddau, nid oes angen i'r Cynulliad Cenedlaethol gymeradwyo'r cyfraddau hyn.

**Tabl un: Prif gyfraddau preswyl y Dreth Trafodiadau Tir**

| Trothwy prisiau | Cyfradd y Dreth Trafodiadau Tir |
|---|---|
| £0 i £180,000 | 0% |
| Mwy na £180,000 i £250,000 | 3.5% |
| Mwy na £250,000 i £400,000 | 5% |
| Mwy na £400,000 i £750,000 | 7.5% |
| Mwy na £750,000 i £1,500,000 | 10% |
| £1.5m a mwy | 12% |

Ar gyfer trafodiadau eiddo preswyl cyfradd uwch, bydd 3% yn ychwanegol yn daladwy ar ben y brif gyfradd breswyl ymhob band.

**Tabl dau: Prif gyfraddau amhreswyl y Dreth Trafodiadau Tir**

| Trothwy Prisiau | Cyfradd y Dreth Trafodiadau Tir |
|---|---|
| £0 i £150,000 | 0% |
| Mwy na £150,000 i £250,000 | 1% |
| Mwy na £250,000 i £1,000,000 | 5% |
| £1m neu fwy | 6% |

**Tabl tri: Cyfraddau rhent les amhreswyl y Dreth Trafodiadau Tir**

| Trothwy Prisiau | Cyfradd y Dreth Trafodiadau Tir |
|---|---|
| £0 i £150,000 | 0% |
| Mwy na £150,000 i £2,000,000 | 1% |
| £2m neu fwy | 2% |

*Treth Gwarediadau Tirlenwi*

21. Ar gyfer 2020-21, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu codi cyfraddau'r trethi yn unol â chwyddiant o 1 Ebrill 2020, ar yr amod y ceir cadarnhad gan y Cynulliad Cenedlaethol, gan barhau gyda'r polisi o fod yn gyson â dull gweithredu Llywodraeth y DU yng nghyswllt cyfraddau'r Dreth Dirlenwi. Felly bydd y cyfraddau arfaethedig, sy'n amodol ar gymeradwyaeth y Cynulliad Cenedlaethol, yn codi yn unol â'r hyn a nodir yn y tabl isod.

**Tabl pedwar: Cyfraddau'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi, £ y dunnell**

| Trothwy Prisiau | 2019-20 | 2020-21 |
|---|---|---|
| Cyfradd safonol | £91.35 | £94.15 |
| Cyfradd is | £2.90 | £3 |
| Cyfradd gwarediadau anawdurdodedig | £137.00 | £141.20 |

# Cynllun gwaith polisi trethi 2019

## A) Datblygu polisi trethi sy'n codi refeniw i dalu am wasanaethau cyhoeddus mor deg â phosibl, yn unol â blaenoriaethau polisi Llywodraeth Cymru

Yn 2017, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i gomisiynu gwaith ymchwil i gydnerthedd y sylfaen drethu yng Nghymru, yng nghyd-destun datganoli pwerau trethu. Cyhoeddodd Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru ei ddadansoddiad ym mis Mai 2018, gan dynnu sylw at risgiau tymor hwy y sylfaen drethu yng Nghymru a chyflwyno rhai meysydd posibl i'w hystyried. Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio gyda'r awduron i feithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o'r heriau hyn, yn fewnol ac yn allanol, yn ystod 2018.

1) Byddwn yn datblygu ac yn rhannu ein cynigion i adeiladu'r sylfaen drethu yng Nghymru yn y tymor canolig i'r tymor hwy.

2) Byddwn yn datblygu fframwaith polisi ehangach er mwyn ystyried trethiant tir ac eiddo amhreswyl, yn seiliedig ar dystiolaeth sydd wedi'i chyhoeddi'n barod (gan gynnwys adroddiad Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru[7]), ymchwil i drethi lleol eraill, a hyn i gyd yn gydnaws â'r cynnydd rydym yn ei wneud i ddatganoli pwerau dros Dreth ar Dir Gwag i Gymru.

3) Byddwn yn dal i ystyried y dystiolaeth ynghylch trethu eiddo preswyl, gan gynnwys eiddo nad ydynt yn brif breswylfeydd. Bydd Awdurdod Cyllid Cymru yn cyhoeddi data'r flwyddyn gyntaf ar gyfraddau uwch y Dreth Trafodiadau Tir mewn gwahanol ardaloedd awdurdod lleol, a byddwn yn parhau i fonitro effeithiolrwydd y ddeddfwriaeth yn y maes hwn (y ddau o gynllun gwaith 2017).

4) Ar ôl i Gyfraddau Treth Incwm Cymru ddod ar waith ar 6 Ebrill 2019, byddwn yn parhau i weithio gyda Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi i sicrhau eu bod yn cael eu rheoli'n effeithiol. Byddwn yn ceisio hybu tegwch mewn polisi trethi ar gyfer yr holl drethi yng Nghymru, gan barhau i weithio ar ddewisiadau cyllido ar gyfer gofal cymdeithasol yn y dyfodol, cyflawni ein hagenda trethu yn lleol a hyrwyddo dull gweithredu ystyriol a blaengar yng nghyswllt trethi personol.

5) Byddwn yn parhau i sicrhau bod polisi trethi a meysydd polisi eraill yn datblygu mewn modd sy'n gydnaws â'i gilydd. Byddwn yn parhau i wneud y canlynol: paratoi achos ar gyfer datganoli Toll Teithwyr Awyr i Gymru; bwrw ymlaen â'r Dreth ar Dwristiaeth a'r agenda drethu lleol; a gweithio gyda Llywodraeth y DU ar drethi ar blastigion untro a threthi amgylcheddol eraill.

## B) Datblygu dull gweithredu mwy effeithiol a chydlynol ar gyfer treth ar draws trethi presennol Cymru ac ar draws y cyd-destun trethi ehangach

1) Rydym wedi gwneud nifer o welliannau i'r system dreth yng Nghymru yn 2018, gan gynnwys addasu deddfwriaeth, gwella canllawiau a gwasanaethau Awdurdod Cyllid Cymru, er enghraifft, y ffurflen Treth Trafodiadau Tir. Byddwn yn parhau i fonitro a yw trethi Cymru yn gweithredu fel y bwriedir, gan wneud newidiadau fel y bo'n briodol.

---

[7] *Y Sylfaen Drethu Gymreig: Risgiau a Chyfleoedd ar ôl Datganoli Cyllidol* (Gorffennaf 2018): https://www.wcpp.org.uk/cy/cyhoeddi/y-sylfaen-drethu-gymreig-risgiau-a-chyfleoedd-ar-ol-datganoli-cyllidol/

2) Byddwn yn datblygu'r sylfaen dystiolaeth er mwyn ystyried a allai'r system dreth yng Nghymru fod yn fwy effeithlon a chymesur, gan gyflawni mwy ar gyfer busnesau, cymunedau, dinasyddion, mudiadau yn y sector cyhoeddus yn ehangach a threthdalwyr yng Nghymru. Bydd y gwaith yn ceisio edrych ar yr holl drethi yng Nghymru, a bydd yn cynnwys:
   i) Cyhoeddi amcanion ar weinyddu trethi yn lleol;
   ii) Ymgysylltu â busnesau, trethdalwyr a grwpiau cynrychioliadol ledled Cymru, gan gyfleu newidiadau i'r system dreth a fydd yn cael effaith uniongyrchol ar eu busnesau;
   iii) Ystyried yr achos dros ddilyn dull gweithredu mwy strategol a chydgysylltiedig ar gyfer blaenoriaethau gweinyddu trethi yn ystod y tymor canolig.

3) Byddwn yn ystyried opsiynau ar gyfer datblygu adnoddau gwybodaeth, gan gynnwys rhannu a dadansoddi data, i gryfhau'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer penderfyniadau polisi trethi a gwella'r broses o weinyddu trethi yng Nghymru. Bydd Awdurdod Cyllid Cymru yn ymhelaethu ynghylch ei rôl a'i flaenoriaethau yng nghyswllt hyn yn ei gynllun corfforaethol 2019-22.

4) Byddwn yn sefydlu systemau rheoli y cytunir arnynt â Llywodraeth y DU ar gyfer gweinyddu Cyfraddau Treth Incwm Cymru ar ôl iddynt gael eu rhoi ar waith ym mis Ebrill 2019, yn arbennig cyhoeddi cytundeb lefel gwasanaeth Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi ac ymrwymo i'r cytundeb hwnnw.

## C) Ymgysylltu, cyfathrebu a meithrin gallu

1) Rydym yn anelu at ddull gweithredu sy'n seiliedig ar arferion gorau ar gyfer ein pwerau threthu, er enghraifft, ein proses dryloyw, sy'n canolbwyntio ar yr hyn sy'n digwydd o'n hamgylch, o ran llunio polisïau trethi. Yn 2019, byddwn yn adeiladu ar hyn er mwyn gwella sut mae trethi Cymru'n cael eu dylunio a'u rhoi ar waith, gan gyfuno polisïau a gweithredu, a'r cysylltiad rhwng polisi trethi a pholisi nad yw'n ymwneud â threthi, hyd y gellir. Mae Awdurdod Cyllid Cymru mewn sefyllfa dda i gefnogi hyn, a bydd yn ymhelaethu ar ei rôl yn ei gynllun corfforaethol 2019-22.

2) Byddwn yn ehangu'r gynulleidfa er mwyn ymgysylltu ar faterion trethu, gan hyrwyddo achos cadarnhaol dros drethu drwy dynnu sylw at y cysylltiad rhwng trethi a'r gwariant ar wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.
   i) Ymgysylltu â rhanddeiliaid a chyfathrebu â nhw er mwyn gwella dealltwriaeth o'n dull gweithredu yng nghyswllt trethu yng Nghymru, ac er mwyn ein galluogi ni i ddatblygu polisi trethi drwy gydweithio a chymryd rhan;
   ii) Datblygu naratif yng nghyswllt trethi a gwariant, sy'n taro tant â rhanddeiliaid a dinasyddion yn ehangach, er mwyn i ni allu meithrin gwybodaeth ac ymwybyddiaeth o drethi Cymru ledled y wlad drwy hyn.

3) Byddwn yn datblygu cynllun tymor hir i feithrin gallu a chapasiti yng Nghymru yng nghyswllt polisi a gweinyddu trethi ar draws y sectorau cyhoeddus a phreifat, gan ganolbwyntio ar ddatblygu cysylltiadau a thrafodaethau sy'n seiliedig ar wybodaeth.

4) Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth y DU a'r Cynulliad Cenedlaethol i sicrhau bod polisi trethi yn y DU, a phenderfyniadau treth ynghylch yr hyn sy'n cyfateb i drethi datganoledig, yn ddealladwy a'u rheoli'n effeithiol yng Nghymru.

5) Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth y DU a gweinyddiaethau datganoledig eraill, yn ogystal â phartneriaid rhyngwladol, i rannu arferion da, i gydweithio i roi sylw i heriau a rennir ac i hyrwyddo ein hegwyddorion ar gyfer polisi trethi a'n dull gweithredu strategol o ddatblygu polisi trethi.

# A. Datblygu polisi trethi sy'n codi refeniw i dalu am wasanaethau cyhoeddus mor deg â phosibl, yn gydnaws â blaenoriaethau polisi Llywodraeth Cymru

## A1. Y sylfaen drethu yng Nghymru

"Byddwn yn datblygu ac yn rhannu ein cynigion i adeiladu'r sylfaen drethu yng Nghymru yn y tymor canolig i'r tymor hwy."

**Cefndir**

22. Mae'r Strategaeth Genedlaethol: Ffyniant i Bawb yn nodi uchelgais Llywodraeth Cymru i gael economi yng Nghymru sy'n cynnig ffyniant i'r unigolyn ac yn genedlaethol, wrth ledaenu cyfleoedd a mynd i'r afael â diffyg cydraddoldeb. Mae'r strategaeth yn cydnabod pwysigrwydd twf economaidd er mwyn cynhyrchu refeniw treth sy'n arwain at allu darparu gwasanaethau cyhoeddus o safon uchel.

**Tystiolaeth a dadansoddiad**

23. Mae'r sylfaen drethu ddatganoledig yn wynebu rhai risgiau ond mae hefyd yn cyflwyno cyfleoedd i Lywodraeth Cymru ddylunio polisïau i ddatblygu'r sylfaen drethu, gan arwain at fwy o refeniw treth o ganlyniad.

*1. Poblogaeth oed gweithio sy'n gostwng a chymhareb dibynyddion sy'n codi*

24. Mae ffigur dau yn dangos y rhagwelir y bydd nifer y bobl 16 - 64 oed yn gostwng o 1,921,371 yn 2019 i 1,813,517 yn 2043[8]. Yn ystod yr un cyfnod, rhagwelir y bydd nifer y plant o dan 16 a'r bobl 65 oed neu hŷn yn codi o 1,223,659 yn 2019 i 1,296,321. O ganlyniad, rhagwelir y bydd nifer y dibynyddion i bob 1,000 o bobl oed gweithio yn codi o 637 yn 2019 i 715 yn 2043[9]. Rhagwelir y bydd y gymhareb gyfatebol yn y DU yn codi hefyd, ond o lefel is - o 600 yn 2019 i 696 yn 2043[10].


---

[8] Ffynhonnell: Amcanestyniadau poblogaeth i Gymru yn seiliedig ar ffigurau cenedlaethol 2018, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol: https://cy.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/populationandmigration/populationprojections/bulletins/nationalpopulationprojections/2018based

[9] https://cy.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/populationandmigration/populationprojections/datasets/tablea15principalprojectionwalessummary

[10] https://cy.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/populationandmigration/populationprojections/datasets/tablea11principalprojectionuksummary

**Ffigur dau: Amcanestyniadau poblogaeth ar gyfer Cymru**




Ffynhonnell: amcanestyniadau gwladol poblogaeth Cymru sy'n seiliedig ar 2018, y Swyddfa Ystadegau Gwladol[11]

*2. Cyfran uwch o'r boblogaeth y tu allan i'r gweithlu*

25. Mae cyfraddau anweithgarwch wedi bod yn uwch yn gyson yng Nghymru nag yn y DU ers degawdau. Ond disgynnodd y ffigur yn sylweddol yn ddiweddar, yn nes at gyfradd y DU. Mae ffigur tri yn dangos mai 16.5 y cant oedd y gyfradd anweithgarwch economaidd (heb gynnwys myfyrwyr a phobl wedi ymddeol) ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Rhagfyr 2018 Ar gyfer yr un cyfnod, 15.1 y cant oedd cyfradd y DU. Mae hwn yn fwlch o 1.4 pwynt canran rhwng Cymru a'r DU.


*3. Cynhyrchiant llafur is*

26. Yn y tymor hir, gwell cynhyrchiant, sef pa mor effeithiol y mae mewnbwn yn cynhyrchu allbwn, yw prif ysgogwr safonau byw sylweddol uwch. Mae gwell cynhyrchiant yn arwain at gwmpas i gynyddu cyflogau go iawn ac yn arwain at ffynonellau refeniw treth posibl. Mae ffigur pedwar yn dangos bod cynhyrchiant llafur, yn ôl dull seiliedig ar werth ychwanegol gros a elwir yn ddull cytbwys[12], yng Nghymru dros y 15 mlynedd diwethaf wedi bod tua 80 i 85 y cant o gyfartaledd y DU.

[11]Amcanestyniadau poblogaeth i Gymru yn seiliedig ar ffigurau cenedlaethol 2018, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol:
https://cy.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/populationandmigration/populationprojections/datasets/tablea15principalprojectionwalessummary


[12] Mae rhagor o wybodaeth am werth ychwanegol gros (cytbwys) ar gael yn:
https://cy.ons.gov.uk/economy/grossvalueaddedgva/bulletins/regionalgrossvalueaddedbalanceduk/1998to2017

**Ffigur tri: Cyfradd anweithgarwch economaidd, heb gynnwys myfyrwyr a phobl wedi ymddeol**




Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, y Swyddfa Ystadegau Gwladol

**Ffigur pedwar: Gwerth Ychwanegol Gros (Cytbwys) yr awr a weithiwyd yng Nghymru a'r DU**




Ffynhonnell: Cynhyrchiant is-ranbarthol, y Swyddfa Ystadegau Gwladol [13]


---

[13] https://cy.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/labourproductivity/datasets/subregionalproductivitylabourproductivitygvaperhourworkedandgvaperfilledjobindicesbyuknuts2andnuts3subregions

*4. Enillion cyfartalog is*

27. Mae cynhyrchiant is yng Nghymru'n cael ei adlewyrchu mewn enillion cyfartalog is yn y wlad hefyd (ffigur pump). Mae dosbarthiad enillion yr awr yng Nghymru a Lloegr yn dilyn yr un dosbarthiad eang, ond mae llai o swyddi yn ennill y cyflogau uchaf fesul awr.

**Ffigur pump: Dosbarthiad enillion yr awr yng Nghymru a Lloegr, 2017**




Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion


Nodiadau

1. Mae data 2017 yn amodol.
2. Mae pob pwynt ar yr echelin x yn cynrychioli swm treigl o ddwysedd y swyddi sy'n derbyn swm mwy na / cyfartal i 20 ceiniog yn is na'r enillion fesul awr a nodwyd, ac yn bendant lai na 20 ceiniog yn uwch na hwy.

*5. Llai o drethdalwyr cyfradd Uwch ac Ychwanegol*

28. Adlewyrchir enillion cyfartalog is a llai o bobl sy'n ennill cyflogau uchel iawn, yn y dosbarthiad o Drethdalwyr Incwm unigol, yn ôl cyfradd ymylol (ffigur chwech). Mae tua chwe mil o unigolion yng Nghymru yn talu Treth Incwm ar y gyfradd ychwanegol - llai na hanner un y cant o'r holl bobl sy'n talu Treth Incwm - sydd oddeutu traean o'r ganran yn Lloegr, lle mae dros 1.5 y cant o'r bobl sy'n talu Treth Incwm yn talu'r gyfradd ychwanegol.

**Ffigur chwech: Dosbarthiad Trethdalwyr Incwm unigol yn ôl y gyfradd ymylol yng Nghymru a Lloegr**




Ffynhonnell: Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi, nifer y talwyr treth incwm fesul gwlad, 2019-20[14]

**Y canlyniadau a'r camau nesaf**

29. Byddwn yn rhoi sylw i'r materion hyn gan ddefnyddio ysgogiadau polisi ar draws Llywodraeth Cymru.

*Polisi mudo*

30. Rydym yn dathlu'r ffaith fod dinasyddion o'r tu allan i'r DU wedi dod i Gymru, fel cymdogion, cydweithwyr, ffrindiau a theulu ers sawl blwyddyn. Mae ganddynt gyfraniad pwysig i'w wneud i'n ffyniant economaidd a'n sylfaen drethu. Drwy gydnabod hyn a'r rhyngysylltiad rhwng mudo a'n cyfrifoldebau datganoledig dros wasanaethau cyhoeddus fel addysg, iechyd a llywodraeth leol, byddwn yn parhau i bwyso ar Lywodraeth y DU i sicrhau y byddwn yn cael y cyfle i gyfrannu ein safbwyntiau, ac y bydd y safbwyntiau hyn yn cael eu hystyried, cyn i Lywodraeth y DU gyflwyno ei pholisi mudo yn y dyfodol.

*Cefnogi dinasyddion yr UE i aros yng Nghymru*

31. Rydym yn cydnabod fod yr amgylchiadau a'r ansicrwydd sydd yna ar hyn o bryd o ran y DU yn gadael yr UE, a bod hyn yn arwain at amodau ansefydlog iawn. Byddwn yn manteisio ar bob cyfle i sicrhau bod hawliau a statws dinasyddion yr UE yng Nghymru

---

[14] https://www.gov.uk/government/statistics/number-of-individual-income-taxpayers-by-marginal-rate-gender-and-age-by-country

yn cael eu gwarchod. Yn benodol, rydym yn awyddus i gefnogi gwladolion o'r UE sy'n gwneud cais am y Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE er mwyn sicrhau eu hawliau ar ôl mis Rhagfyr 2020. Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi arian i Gyngor ar Bopeth Cymru a Newfields Law i ddarparu cyngor cyfreithiol annibynnol ac am ddim i ddinasyddion yr UE sy'n gwneud cais o dan y cynllun. Er mwyn sicrhau bod y rhai sydd â hawl i gael cymorth yn gwybod sut mae cael gafael arno, rydym yn gweithio gyda rhwydwaith o wirfoddolwyr drwy'r Tîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig ac Ieuenctid a Settled i ymestyn allan i gymunedau yng Nghymru.

32. Yn ogystal â'r cymorth rydym yn ei ariannu, rydym hefyd yn cydlynu gwasanaethau cyngor a chymorth gan y Swyddfa Gartref a Llywodraeth Cymru i sicrhau bod y gwasanaethau hyn wedi'u cysylltu mewn ffordd gydlynol ac yn darparu pecyn cymorth cynhwysfawr i ddinasyddion yr UE yng Nghymru.

*Y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol*

33. Bydd y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn cefnogi twf yn y sylfaen drethu drwy nodi lle bydd tai a chyflogaeth, a'r gwasanaethau a'r seilwaith i'w cefnogi, yn cael eu lleoli.

34. Bydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol i'r Cynulliad Cenedlaethol ym mis Ebrill 2020, a'r nod yw cyhoeddi fersiwn terfynol ym mis Medi 2020. Bydd y Fframwaith hwn yn cwmpasu'r cyfnod o 20 mlynedd hyd at 2040 a bydd yn cael ei adolygu bob pum mlynedd.

35. Mae'r Fframwaith yn nodi tair ardal ar gyfer twf cenedlaethol - Wrecsam a Glannau Dyfrdwy, Bae Abertawe a Llanelli, a Chaerdydd, Casnewydd a'r Cymoedd. Mae Llywodraeth Cymru yn dymuno gweld twf cenedlaethol yn y tair ardal hon dros yr 20 mlynedd nesaf. Bydd y Fframwaith yn sail i benderfyniadau Llywodraeth Cymru ar wariant a buddsoddiadau i gefnogi twf yn yr ardaloedd hyn.

36. Mae'r Fframwaith yn nodi bod angen 114,000 o gartrefi newydd yng Nghymru erbyn 2038 a bydd y rhain yn ymestyn y sylfaen drethu ar gyfer eiddo preswyl. Rydym wedi ymrwymo i ddarparu 20,000 o gartrefi fforddiadwy yn ystod tymor y llywodraeth hon. Rydym yn gwneud cynnydd da o ran cyflawni'r targed. Rydym yn hyderus y gallwn gyflawni'r ymrwymiad hwn, yn bennaf diolch i'n buddsoddiad uwch nag erioed, o £1.7bn mewn tai yn ystod tymor y Cynulliad Cenedlaethol hwn,

*Gwaith Teg*

37. Ar ddechrau 2017, dywedodd y Prif Weinidog ar y pryd, fod ganddo uchelgais i Gymru ddod yn wlad o Waith Teg. Cyhoeddodd y Comisiwn Gwaith Teg ei adroddiad ym mis Mai 2019, a oedd yn adeiladu ar waith y Bwrdd Gwaith Teg. Mae *Gwaith Teg yng Nghymru* yn cyflwyno canlyniadau gwaith y Comisiwn yn diffinio gwaith teg ac yn nodi ysgogiadau ar gyfer hyrwyddo hynny yng Nghymru.

38. Mae gweithwyr yn cael cydnabyddiaeth deg yn elfen allweddol o'r diffiniad o Waith Teg sy'n cael ei argymell gan y Comisiwn:
"Ystyr gwaith teg yw bod gweithwyr yn cael eu gwobrwyo, yn cael eu clywed ac yn cael eu cynrychioli'n deg, bod ganddynt sicrwydd a'u bod yn gallu dod yn eu blaen mewn amgylchedd iach a chynhwysol, lle mae hawliau'n cael eu parchu."

39. Mae Llywodraeth Cymru wedi derbyn y diffiniad hwn ar unwaith ac yn ddigamsyniol, a bydd yn cael ei fabwysiadu a'i ddefnyddio ar draws Llywodraeth Cymru ac wrth hyrwyddo gwaith teg.

40. Bydd canfyddiadau'r Comisiwn yn cael eu defnyddio fel sail i ddatblygu'r Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol arfaethedig. Y bwriad yw cyflwyno deddfwriaeth erbyn mis Gorffennaf 2020 a phasio'r ddeddfwriaeth erbyn mis Mai 2021.

*Y Cynllun Gweithredu ar yr Economi a'r Cynllun Cyflogadwyedd*

41. Mae tystiolaeth yn dangos mai gwella sgiliau yw'r ffordd fwyaf uniongyrchol o helpu mwy o bobl i gael gwaith ac arwain at fwy o enillion i'r rhai sydd mewn gwaith. Felly, mae gwella sgiliau pobl Cymru yn rhan greiddiol o wella'r sylfaen drethu yng Nghymru.

42. Mae Cynllun Gweithredu ar yr Economi[15] Llywodraeth Cymru yn dweud y bydd disgwyl i fusnesau sy'n gofyn am gymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru gyfrannu at o leiaf un o'n pum Galwad i Weithredu, gan gynnwys cyflogaeth o ansawdd uchel, datblygu sgiliau a gwaith teg[16].

43. Roedd y Cynllun Gweithredu ar yr Economi hefyd yn awgrymu newid tuag at fodel rhanbarthol o ddatblygu'r economi er mwyn helpu i ysgogi cyfleoedd ym mhob rhan o Gymru. Byddwn yn defnyddio'r broses o ddatblygu'r Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol i gryfhau'r sylfaen drethu yng Nghymru eto fyth.

44. Mae Cynllun Cyflogadwyedd[17] Llywodraeth Cymru yn cyflwyno ein huchelgeisiau i gefnogi pobl i fyd gwaith heddiw, gan baratoi'r gweithlu ar gyfer heriau'r dyfodol hefyd. Pennwyd targedau deng mlynedd i gau'r bwlch â gweddill y DU er mwyn lleihau diweithdra, anweithgarwch economaidd, gwella lefelau cymwysterau a chyflogi rhagor o bobl anabl.

45. Mae sawl cydran o'r cynllun wedi'u rhoi ar waith yn barod. Lansiwyd Cymru'n Gweithio, y gwasanaeth newydd i roi cyngor ar gyflogadwyedd yng Nghymru, ym mis Mai 2019. Y nod yw lleihau cymhlethdodau ein model cyflenwi cyflogadwyedd presennol i bobl ifanc ac oedolion, ac ategu'r hyn sy'n cael ei gyflawni ar lefelau rhanbarthol a chymunedol.

46. Cyflenwir darpariaethau pwrpasol o wahanol lefelau i gefnogi pobl i fyd gwaith: Mae'r buddsoddiad o £31m wrth galon y gymuned; £426m drwy Addysg Bellach, Dysgu yn y Gymuned a Dysgu Seiliedig ar Waith. Rydym yn buddsoddi bron £7m yn 2019-20 i gyflawni rhaglen cymorth cyflogaeth sy’n canolbwyntio ar iechyd. Mae’r rhaglen yn cynnwys y Gwasanaeth Mentora Cymheiriaid i’r Di-waith, sy’n helpu pobl sy’n gwella ar ôl camddefnyddio sylweddau a chyflyrau iechyd meddwl i gael gwaith, a’r Gwasanaeth Cymorth yn y Gwaith, sydd yn rhoi mynediad cyflym ac am ddim i gymorth therapiwtig i atal pobl rhag cwympo allan o gyflogaeth oherwydd iechyd gwael.

47. Rydym yn rhagori ar y proffil perfformiad saith y cant ar Brentisiaethau, ac mae'r rhaglen flaenllaw hon sy'n werth £120m yn parhau i godi proffil hyfforddiant ‘yn y

[15] https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-02/ffyniant-i-bawb-y-cynllun-gweithredu-ar-yr-economi.pdf
[16] https://tradeandinvest.wales/our-services/calls-action
[17] https://llyw.cymru/cynllun-cyflogadwyedd

gwaith' yng Nghymru. Mae 69,645 o brentisiaid wedi cychwyn ers cyflwyno'r targed o 100,000.

48. Rydym wedi gwella'r cymorth ariannol i fyfyrwyr addysg uwch a dysgwyr rhan amser drwy becyn newydd o fenthyciadau a grantiau cynhaliaeth er mwyn galluogi myfyrwyr i gael mynediad at addysg uwch, beth bynnag fo'u hoedran, ble bynnag maent yn byw neu beth bynnag yw incwm y teulu.

49. Rydym yn buddsoddi £2m mewn cynlluniau peilot Cyfrif Dysgu Personol o fis Medi 2019 i gefnogi tua 1,000 o oedolion sy'n cael eu cyflogi mewn swyddi gyda thâl isel a sgiliau isel, i newid gyrfa neu gael mynediad at waith ar lefel uwch mewn sectorau â blaenoriaeth.

50. Rydym yn profi dulliau gweithredu newydd i helpu pobl â chyflyrau iechyd meddwl i aros neu ganfod gwaith drwy fuddsoddiad gwerth £1.5m gan Lywodraeth y DU mewn prosiect ymchwil Cymorth a Lleoliad i Unigolion.

51. Mae'r grant Plant a Chymunedau newydd gwerth £139m wedi cyfuno cyfres o saith o grantiau i alluogi awdurdodau lleol i gynnig mwy o hyblygrwydd wrth ddyrannu adnoddau i fodloni blaenoriaethau lleol a chreu arbedion effeithlonrwydd.

52. Rydym yn gwella ansawdd prentisiaethau er mwyn cael mwy o elw ar fuddsoddiad drwy annog dysgu at lefel tri o leiaf, a chael mwy o bobl i ymgymryd â'r lefelau uwch a'r sectorau â blaenoriaeth. Mae cymorth lefel uwch yn cynnal hyfforddiant lefel dau i bobl ifanc, pobl anabl a'r rhai sy'n chwilio am fframwaith Iechyd a Gofal Cymdeithasol neu Ofal Plant.

53. Mae grant dysgu gweithredol o £300,000 yn cefnogi sefydliadau Addysg Bellach i gyflwyno dysgu hyblyg i oedolion mewn cymunedau er mwyn lleihau rhwystrau fel ymrwymiadau gwaith, cludiant, gofal plant a chyfrifoldebau gofalu.

54. Mae manylion a gwybodaeth am y farchnad lafur yn siapio'r broses o ddefnyddio'r ddarpariaeth Dysgu Seiliedig ar Waith ac Addysg Bellach drwy gyfrwng buddsoddiad o £495,000 mewn tair Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol.

55. Mae rhagor o weithgareddau eisoes wedi'u cynllunio i fanteisio i'r eithaf ar adnoddau i gefnogi unigolion i gyflawni gwell canlyniadau. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar draws y llywodraeth i gael rhagor o bobl anabl i fod yn rhan o'r farchnad lafur, gan ddefnyddio cyllidebau sy'n bodoli'n barod ac ail-ganolbwyntio ein rhaglenni presennol i sicrhau gwell canlyniadau i bobl anabl.

56. Mae Busnes Cymru wedi ymrwymo i gefnogi Cwmnïau Cymdeithasol newydd a rhai sy'n bodoli'n barod i ffynnu, ac i gefnogi rhagor o bobl anabl drwy roi cyngor ar ddechrau busnes ac mae wedi ymrwymo i greu mentrau newydd.

57. Bydd Cymorth Swyddi Cymru yn lansio ym mis Ebrill 2020, i symleiddio buddsoddiadau ac ail-lunio cymorth cyflogadwyedd er mwyn cael un ymyrraeth hyblyg, a fydd yn cefnogi pobl i fyd gwaith drwy roi sylw i'r rhwystrau at waith. Bydd Cymorth Swyddi Cymru yn disodli Twf Swyddi Cymru, ReAct, Hyfforddeiaethau, Mynediad a'r Rhaglen Sgiliau Cyflogadwyedd.

58. Rydym yn diwygio Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol dros y pum mlynedd nesaf drwy sefydlu Comisiwn ar gyfer Addysg, Hyfforddiant ac Ymchwil er mwyn creu system addysg a hyfforddiant ôl-orfodol gydlynol yng Nghymru, sy'n cyfuno Addysg Bellach (gan gynnwys y chweched dosbarth), Dysgu Oedolion yn y Gymuned, Dysgu Seiliedig ar waith a Phrifysgolion.

59. Rydym yn ystyried y posibilrwydd o adeiladu ar ymyriadau fel rhaglen Cymru Iach ar Waith, sy'n werth £741,000, i gynyddu lefel a chyfran y cyflogwyr sy'n cael eu cefnogi a chanolbwyntio ar hyrwyddo recriwtio a chadw pobl ag anableddau a/neu gyflyrau iechyd sy'n effeithio ar eu gallu i weithio, naill ai'n uniongyrchol neu drwy atgyfeirio.

60. Mae Cronfa Ddysgu Undebau Cymru sy'n werth £1.653m yn cael ei haddasu i ymateb i heriau yn y gweithle sy'n gysylltiedig â'r DU yn gadael yr UE, ac i helpu cyflogwyr i fanteisio i'r eithaf ar dechnolegau digidol newydd.

61. Drwy gydweithio'n barhaus â'r Adran Gwaith a Phensiynau, rydym yn ceisio sicrhau'r adnoddau a'r ffrydiau cyllido gorau posibl ar gyfer yr Adran Gwaith a Phensiynau/Canolfannau Gwaith (fel Mynediad i Waith) i gefnogi unigolion ag anableddau neu gyflwr iechyd meddwl neu gorfforol i gael a chadw gwaith a gwella iechyd yn y gweithle.

*Strategaeth Ryngwladol*

62. Mae Strategaeth Ryngwladol Llywodraeth Cymru yn cael ei datblygu a bydd yn cael ei chyhoeddi yn y man. Mae'n cyflwyno tri nod strategol i gefnogi uchelgeisiau rhyngwladol Cymru:
- Cynyddu ein hallforion ac annog mewnfuddsoddiad;
- Tyfu ein heconomi;
- Creu swyddi a chyfleoedd newydd i bobl yng Nghymru.

63. Er mwyn cyflawni'r nod hwn, mae Llywodraeth Cymru wedi nodi tri diwydiant i'w hamlygu fel canolfannau rhagoriaeth ac er mwyn tynnu sylw at y cyfleoedd buddsoddi. Bydd y diwydiannau hyn yn creu cyfleoedd cyflogaeth newydd yng Nghymru, yn ogystal ag annog arloesi, ymchwil a datblygu. Bydd y sectorau hyn yn tynnu sylw'r byd yn ehangach at y sgiliau sydd ar gael yng Nghymru ac amrywiaeth ei sectorau gweithgynhyrchu a chreadigol. Dyma'r sectorau:
- Seiberddiogelwch;
- Lled-ddargludyddion cyfansawdd;
- Y diwydiannau creadigol - teledu a ffilm.

64. Dyma'r diwydiannau lle mae arbenigedd eisoes ar gael yng Nghymru, a lle mae cwmnïau eisoes ar flaen y gad o ran cynhyrchu a datblygu. Gall Cymru ddatblygu rhagoriaeth ar sylfaen gadarn, yn wyneb yr heriau sy'n ein hwynebu wrth i'r DU adael yr UE. Nid yw canolbwyntio ar y sectorau hyn yn golygu na fydd Cymru'n chwilio am fuddsoddiadau gan ddiwydiannau eraill. Yn hytrach, mae'r gwaith canolbwyntio'n ymwneud â chyflwyno Cymru fel economi ffyniannus a modern, a symud i ffwrdd oddi wrth y ddelwedd draddodiadol o ddiwydiannau trwm.

## A2. Trethiant tir ac eiddo amhreswyl

"Byddwn yn datblygu fframwaith polisi ehangach er mwyn ystyried trethiant tir ac eiddo amhreswyl, yn seiliedig ar dystiolaeth sydd wedi'i chyhoeddi'n barod (gan gynnwys adroddiad Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru), ymchwil i drethi lleol eraill, a hyn i gyd yn gydnaws â'r cynnydd rydym yn ei wneud i ddatganoli pwerau dros Dreth ar Dir Gwag i Gymru."

**Cefndir**

65. Mae nifer o feysydd lle mae Llywodraeth Cymru wrthi'n gweithio yng nghyswllt trethiant tir ac eiddo amhreswyl. Er bod darnau amlwg o waith sy'n canolbwyntio ar faterion penodol, rydym yn dilyn dull gweithredu cydgysylltiedig yng nghyswllt trethu eiddo amhreswyl. Rydym yn manteisio ar dystiolaeth a'r hyn sy'n cael ei ddysgu gan waith sy'n cael ei wneud mewn gwahanol ardaloedd, yn ystyried datblygu polisi yn ei holl agweddau, gan ystyried unrhyw effeithiau cronnol y gallai newidiadau i drethiant amhreswyl eu cael.

66. Fel y cyhoeddwyd yn 2018, mae Llywodraeth Cymru yn ceisio cael pwerau trethu newydd ar gyfer Treth posibl ar Dir Gwag. Byddai hyn yn cefnogi'r amcan polisi o ddefnyddio tir segur yn gynhyrchiol unwaith eto, gan gynnwys tir sydd â chaniatâd yn barod, neu dir sydd o fewn y cynllun datblygu lleol, ond nad yw'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd[18]. Wrth fynd ar drywydd y pwerau treth newydd hyn, rydym yn ceisio cael pwerau a allai roi ysgogiad ychwanegol i ni gyflawni ein huchelgeisiau tai ac adfywio ar gyfer Cymru, yn ogystal â phrofi mecanwaith Deddf Cymru y byddwn yn gallu ei defnyddio i ddatganoli pwerau treth newydd.

67. Nid yw'r broses o ddatganoli pwerau treth newydd yn un syml, sy'n deg iawn, ac mae'n bwysig ein bod ni'n cymryd amser, gan weithio gyda Llywodraeth y DU i sicrhau bod y broses a'r pwerau'n iawn. Ond, mae'r broses wedi cymryd mwy o amser i sicrhau'r cytundebau angenrheidiol gan Lywodraeth y DU na'r hyn a ragwelwyd i ddechrau, cyn cyflwyno cynigion ar gyfer datganoli pwerau treth newydd i Lywodraeth y DU ac i'r Cynulliad Cenedlaethol.

68. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i'r egwyddor ei bod hi'n angenrheidiol sicrhau pwerau cyn mynd ati i ddatblygu polisi manwl. Ond, mae'n defnyddio'r amser yma, lle mae trafodaethau'n parhau â Llywodraeth y DU, i sefydlu'r ystyriaethau polisi angenrheidiol, ac er mwyn datblygu'r sylfaen dystiolaeth ymhellach.

69. Mae rhaglen waith wedi bod ar y gweill ers 2016 i adolygu a diwygio'r system cyllid llywodraeth leol, gan gynnwys un o'i phrif gydrannau - ardrethi annomestig. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno nifer o welliannau i ardrethi annomestig ers dechrau tymor y llywodraeth hon, yn unol ag ymrwymiadau penodol, ac rydym bellach yn canolbwyntio ar ddarparu gwaith ymchwil manwl i ddulliau gweithredu amgen. Cyhoeddwyd yr adroddiad diweddaraf ar y rhaglen, *Diwygio Cyllid Llywodraeth Leol: Diweddariad*, ar 5 Tachwedd 2019[19].

---

[18] Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn yr *Adroddiad ar Bolisi Trethi Cymru 2018*, tudalennau 17-19: https://llyw.cymru/adroddiad-ar-bolisi-trethi-cymru-2018

[19] *Diwygio Cyllid Llywodraeth Leol yng Nghymru: Diweddariad 2019*, a gyhoeddwyd ar 5 Tachwedd 2019: https://llyw.cymru/diwygio-cyllid-llywodraeth-leol-diweddariadau-blynyddol

70. Un o'r dulliau gweithredu amgen sy'n cael eu hystyried yw'r syniad o gael treth ar werth tir lleol yn lle'r dreth gyngor ac ardrethi annomestig. Nod polisi cyffredinol edrych ar drefniadau amgen fyddai er mwyn codi refeniw sefydlog a rheolaidd ar gyfer gwasanaethau lleol, yn hytrach na threth drafodiadau neu fecanwaith newid ymddygiad. Ond, gall dyluniad penodol unrhyw drefniadau newydd ar gyfer trethi lleol arwain at gyfleoedd i fod yn gydnaws â nodau polisi ehangach, er enghraifft, sicrhau bod y tir sydd ar gael yng Nghymru'n cael ei ddefnyddio'n well.

**Tystiolaeth a dadansoddiad**

71. Mae astudiaethau ar gael yn barod sy'n rhoi syniad ynghylch y broblem o dir gwag yng Nghymru. Ond, yn hytrach na chymryd golwg eang ar raddfa a natur datblygiad segur yng Nghymru, roedd yr astudiaethau hyn wedi'u targedu at faterion penodol, felly efallai na fyddant yn cyfleu darlun llawn o safleoedd segur. Mae ymchwil blaenorol, a gynhaliwyd yn 2015, wedi dyddio erbyn hyn hefyd.

72. Felly, comisiynodd Llywodraeth Cymru ragor o ymchwil i raddfa a natur safleoedd segur yng Nghymru er mwyn diweddaru ac adeiladu ar waith ymchwil blaenorol. Tîm traws-bolisi wnaeth baratoi'r fanyleb ar gyfer y gwaith ymchwil hwn, gan gynnwys Trysorlys Cymru, a'r adrannau sy'n arwain ar gynllunio, tai, adfywio, yr economi a llywodraeth leol, yn ogystal ag Awdurdod Cyllid Cymru. Rydym hefyd wedi gweithio gyda rhanddeiliaid allanol, gan gynnwys adeiladwyr tai, datblygwyr masnachol, tirfeddianwyr, awdurdodau cynllunio, arolygwyr, cymdeithasau tai a'r trydydd sector. Mae defnyddio'r arbenigedd helaeth yma wedi ein helpu ni i ganfod y bylchau yn y dystiolaeth ar hyn o bryd, a datblygu manyleb ar gyfer gwaith ymchwil cychwynnol, a fydd yn dechrau datblygu sylfaen dystiolaeth fwy cadarn er mwyn gallu gwneud penderfyniadau polisi yn y dyfodol.

73. Cyhoeddwyd rhagor o fanylion am ein gwaith ymchwil i dreth ar werth tir lleol ar 5 Tachwedd 2019[20].

**Y canlyniadau a'r camau nesaf**

74. Byddwn yn parhau i geisio sicrhau pwerau ar gyfer Treth ar Dir Gwag. Unwaith y bydd y pwerau wedi'u datganoli, byddwn yn bwrw ymlaen â rhaglen waith sylweddol i ddatblygu polisi manwl, ymgysylltu â busnesau a'r cyhoedd yn ehangach, yn ogystal â chyhoeddi ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol.

75. Bydd camau cynnar ein gwaith ymchwil i dreth ar werth tir lleol yn lle'r dreth gyngor ac ardrethi annomestig o bosibl, ar gael tuag at ddiwedd y flwyddyn. Y bwriad yw asesu'r goblygiadau ymarferol er mwyn gallu cael trafodaeth ar sail gwybodaeth cyn etholiadau nesaf y Cynulliad Cenedlaethol ac ar ôl hynny.

[20] *Diwygio Cyllid Llywodraeth Leol yng Nghymru: Diweddariad 2019*, a gyhoeddwyd ar 5 Tachwedd 2019: https://llyw.cymru/diwygio-cyllid-llywodraeth-leol-diweddariadau-blynyddol

## A3. Trethiant eiddo preswyl

"Byddwn yn dal i ystyried y dystiolaeth ynghylch trethu eiddo preswyl, gan gynnwys eiddo nad ydynt yn brif breswylfeydd. Bydd Awdurdod Cyllid Cymru yn cyhoeddi data'r flwyddyn gyntaf ar gyfraddau uwch y Dreth Trafodiadau Tir mewn gwahanol ardaloedd awdurdod lleol, a byddwn yn parhau i fonitro effeithiolrwydd y ddeddfwriaeth yn y maes hwn (y ddau o gynllun gwaith 2017)."

### Cefndir

76. Mae gofyn talu Treth Trafodiadau Tir ar eiddo preswyl sy'n cael ei brynu yng Nghymru, a'r dreth gyngor dro ar ôl tro hefyd, yn gyffredinol (codir ardrethi annomestig mewn rhai achosion). Mae'r Dreth Trafodiadau Tir a'r dreth gyngor yn defnyddio gwahanol ddiffiniadau ar gyfer eiddo nad ydynt yn brif breswylfeydd.

77. Codir cyfradd uwch y Dreth Trafodiadau Tir ar eiddo preswyl ychwanegol y mae unigolion sydd eisoes yn berchen ar eiddo yn ei brynu - er enghraifft, ail gartrefi, eiddo prynu-i-osod - ac wrth brynu unrhyw eiddo preswyl os nad yw'r prynwr yn unigolyn, er enghraifft, cwmni.

78. Cyflwynwyd treth ar gyfradd uwch ar eiddo ychwanegol ar gyfer Treth Dir y Dreth Stamp ym mis Ebrill 2016. Wrth gyflwyno Treth Trafodiadau Tir yn lle Treth Dir y Dreth Stamp yng Nghymru, roedd y cyfraddau uwch yn cael eu hailadrodd oherwydd bod rhanddeiliaid yn pwysleisio pwysigrwydd cysondeb ar draws y trethi ac oherwydd y swm sylweddol o refeniw a godir gan yr elfen hon o'r dreth. Pe na fyddai'r cyfraddau uwch wedi cael eu hailadrodd, byddai wedi bod yn ofynnol codi'r refeniw yma gan drethdalwyr eraill er mwyn cynnal y cyllid sydd ar gael i wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

79. Wrth graffu ar Ddeddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017, awgrymwyd y dylai awdurdodau lleol allu cyflwyno sylwadau i Weinidogion Cymru ynghylch gordal cyfraddau uwch, er mwyn helpu i fodloni anghenion gwahanol gymunedau yng Nghymru. Gall awdurdodau lleol gyflwyno sylwadau i Weinidogion Cymru ac ysgrifennodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol ar y pryd at arweinwyr pob awdurdod lleol yng Nghymru yn eu gwahodd i ymgysylltu ynghylch rhoi gordal ar gyfradd uwch ar waith yn eu hardal unwaith y byddai digon o ddata ar gael yn sail i'r trafodaethau hyn.

80. Mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am bennu a chasglu'r dreth gyngor fel cyfraniad tuag at ariannu gwasanaethau lleol. Ers 1 Ebrill 2017, mae cynghorau wedi gallu defnyddio premiwm treth gyngor o hyd at 100 y cant ar dai sy'n wag yn y tymor hir (heb ddodrefn ac wedi bod yn wag ers dros 12 mis) ac ail gartrefi (anheddau nad ydynt yn unig gartref nac yn brif gartref i unigolyn, ac sy'n cynnwys cryn dipyn o ddodrefn). Mae rhai mathau o eiddo wedi'u heithrio o'r premiymau.

81. Pwerau disgresiwn yw'r rhain, a mater i bob awdurdod lleol yw penderfynu a yw am roi unrhyw bremiwm ar waith, ac ar ba lefel. Cyflwynwyd y pwerau i helpu awdurdodau lleol i fynd i'r afael â phroblemau cyflenwad tai lleol, nid fel mesur i godi refeniw.

## Tystiolaeth a dadansoddiad

82. Ar ddiwedd mis Mehefin, cyhoeddodd Awdurdod Cyllid Cymru ei ystadegau blynyddol cyntaf ar gyfer Treth Trafodiadau Tir, ar gyfer blwyddyn gyntaf y gweithredu, gan ddarparu gwybodaeth amrywiol am drafodiadau eiddo preswyl[21].

83. Fel yr ymrwymwyd iddo yn flaenorol yng nghynllun gwaith 2017, gan fod gan Awdurdod Cyllid Cymru ddigon o ddata erbyn hyn, mae wedi dadansoddi data Treth Trafodiadau Tir yng nghyswllt y cyfraddau uwch ar gyfer eiddo ychwanegol ar sail awdurdod lleol. Mae'r data yn dangos amrywiaeth helaeth rhwng awdurdodau lleol o ran lefel y trafodiadau preswyl cyfradd uwch fel canran o'r holl drafodiadau preswyl.

84. Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi data manwl ar y sylfaen drethu ar gyfer y dreth gyngor bob blwyddyn. Mae'r ffigurau yn cynnwys dadansoddiadau, yn ôl awdurdod, o nifer yr anheddau ym mhob band y dreth gyngor a'r nifer sy'n cael esemptiad a disgownt. Ers 2017-18, mae'r ffigurau wedi cynnwys gwybodaeth ynghylch pa awdurdodau sy'n codi taliadau premiwm ar gartrefi sy'n wag yn y tymor hir ac ail gartrefi, ac ar ba lefel, a sawl annedd sy'n dod o dan y premiymau[22].

85. Mae cyfres o waith ymchwil sydd wedi'i gomisiynu yn ategu'r cyhoeddiadau data rheolaidd, fel y nodir yn y rhaglen rydym wedi'i chyhoeddi[23]. Mae'r rhain yn cynnwys prosiectau gan y Sefydliad Astudiaethau Cyllid a Phrifysgol Sheffield i fodelu effaith ailbrisio sylfaen drethu'r dreth gyngor yng Nghymru. Disgwylir y bydd y canfyddiadau'n cael eu cyhoeddi ddechrau 2020.

## Y canlyniadau a'r camau nesaf

86. Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio data Treth Trafodiadau Tir i asesu natur ac effaith trethi eiddo preswyl, yn arbennig ar eiddo nad ydynt yn brif breswylfeydd. Bydd Trysorlys Cymru yn ymgysylltu ag awdurdodau lleol i ddeall beth yw eu profiadau a'u safbwyntiau ynghylch effaith Treth Trafodiadau Tir yn eu hardaloedd. Mae trafodaethau eisoes wedi cychwyn rhwng Awdurdod Cyllid Cymru a Thrysorlys Cymru ynghylch rhywfaint o ryngweithio o fewn y ddeddfwriaeth yng nghyswllt eiddo nad ydynt yn brif breswylfeydd.

87. Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn monitro sut mae awdurdodau lleol wedi bod yn arfer eu pwerau disgresiwn i gyflwyno premiymau treth gyngor ar eiddo sy'n wag yn y tymor hir a/neu ail gartrefi. Oherwydd mai yn weddol ddiweddar mae'r pwerau wedi'u cyflwyno, nid oes llawer o wybodaeth ar gael. Ond, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio gyda llywodraeth leol ac Asiantaeth y Swyddfa Brisio i asesu rhai o'r pwerau, canfod patrymau a sicrhau bod awdurdodau yn rhannu arferion da. Bydd y gwaith hwn yn parhau wrth i ragor o awdurdodau ystyried rhoi premiymau ar waith.

88. Fel y nodir yn y diweddariad ar ein gwaith yn edrych ar opsiynau ar gyfer datblygu system cyllid llywodraeth leol yng Nghymru, rydym yn bwriadu dod â chanfyddiadau

---

[21] Ystadegau Treth Trafodiadau Tir Ebrill 2018 - Mawrth 2019:
https://llyw.cymru/ystadegaur-dreth-trafodiadau-tir-ebrill-2018-mawrth-2019-html
[22] Anheddau'r Dreth Gyngor: Ebrill 2019 - Mawrth 2020:
https://llyw.cymru/anheddaur-dreth-gyngor-ebrill-2019-i-mawrth-2020
[23] *Diwygio Cyllid Llywodraeth Leol yng Nghymru: Diweddariad 2019*, a gyhoeddwyd ar 5 Tachwedd 2019:
https://llyw.cymru/diwygio-cyllid-llywodraeth-leol-diweddariadau-blynyddol

ein gwaith ymchwil ynghyd fel sail i'r drafodaeth a fydd yn arwain at dymor nesaf y Cynulliad Cenedlaethol.

## A4. Polisi trethu teg

"Ar ôl i Gyfraddau Treth Incwm Cymru ddod ar waith ar 6 Ebrill 2019, byddwn yn parhau i weithio gyda Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi i sicrhau eu bod yn cael eu rheoli'n effeithiol. Byddwn yn ceisio hybu tegwch mewn polisi trethi ar gyfer yr holl drethi yng Nghymru, gan barhau i weithio ar ddewisiadau cyllido ar gyfer gofal cymdeithasol yn y dyfodol, cyflawni ein hagenda trethu yn lleol a hyrwyddo dull gweithredu ystyriol a blaengar yng nghyswllt trethi personol."

### Cefndir

89. Mae datganoli pwerau treth yn rhoi cyfle i Lywodraeth Cymru weithio gyda'i rhanddeiliaid i ddylunio a gweithredu trethi mewn ffordd sy'n bodloni anghenion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol Cymru yn well, ac sy'n cefnogi uchelgeisiau polisi ehangach Llywodraeth Cymru. Tegwch, sefydlogrwydd a sicrwydd yw'r egwyddorion sy'n sail i ddull gweithredu Llywodraeth Cymru yng nghyswllt trethi, fel y nodir yn y Fframwaith Polisi Trethi[24], ynghyd a'r nod o gyfrannu at nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol o greu Cymru sy'n fwy cyfartal.

90. Mae trethi'n codi refeniw i gefnogi gwasanaethau cyhoeddus, a'r rhai sy'n elwa fwyaf ar wasanaethau cyhoeddus yw'r rhai ar incwm sy'n is na'r cyfartaledd. Gan fod Llywodraeth Cymru yn gwario fwyaf ar addysg a gwasanaethau iechyd, naill ai'n uniongyrchol, neu drwy lywodraeth leol, mae pobl ifanc a phobl hŷn yn derbyn cyfran uwch o wariant Llywodraeth Cymru.

*Cyfraddau Treth Incwm Cymru*

91. Cyflwynodd Llywodraeth Cymru Gyfraddau Treth Incwm Cymru ar 6 Ebrill 2019. Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn pennu'r cyfraddau bob blwyddyn drwy gynnig cyllidebol, a chyflwynwyd y cyntaf o'r rhain ym mis Ionawr 2019. Pennwyd y cyfraddau cyntaf yng Nghymru yn 10c, gan sicrhau parhad a chysondeb â'r cyfraddau y mae trethdalwyr yn eu talu yn Lloegr a Gogledd Iwerddon. Mae cyfraddau 2019-20 yn helpu i gyflawni'r ymrwymiad o beidio â chynyddu Treth Incwm yn ystod tymor y Cynulliad Cenedlaethol hwn.

92. Drwy gyflwyno Cyfraddau Treth Incwm Cymru, bydd tua £5bn o wariant datganoledig yng Nghymru yn cael ei ariannu drwy drethi datganoledig a lleol. Bydd hyn yn ein galluogi ni i deilwra trethi ymhellach i fodloni anghenion ac amgylchiadau yng Nghymru.

*Treth Trafodiadau Tir*

93. Mae Llywodraeth Cymru wedi sicrhau bod Treth Trafodiadau Tir yn fwy blaengar na Threth Dir y Dreth Stamp yn y DU. Cyfraddau preswyl y Dreth Trafodiadau Tir, sef £180,000, sydd â'r trothwy cychwynnol uchaf ar gyfer cyfraddau preswyl yn y DU. Mae gan Gymru gyfradd gychwynnol is na Threth Dir y Dreth Stamp ar gyfer treth wrth brynu eiddo busnes hefyd, sef un y cant. Ni fydd unrhyw fusnes sy'n prynu eiddo gwerth hyd at £1.1m yng Nghymru yn talu treth neu bydd yn talu hyd at £1,000 yn llai o dreth nag o dan Dreth Dir y Dreth Stamp. Bydd hyn o fantais i fusnesau bach a chanolig.

[24] Fframwaith Polisi Trethi (Mehefin 2017): https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-10/fframwaith-polisi-trethi.pdf

*Talu am Ofal Cymdeithasol*

94. Mae Grŵp Rhyngweinidogol Llywodraeth Cymru ar gyfer Talu am Ofal Cymdeithasol yn cyflwyno dull gweithredu trawslywodraethol ar gyfer yr agenda hon. Mae gwaith cynnar a gyflawnwyd o dan nawdd y Grŵp Rhyngweinidogol wedi atgyfnerthu'r ymrwymiad i'n hegwyddorion treth. Yn benodol, mae Gweinidogion wedi pwysleisio pwysigrwydd sicrhau bod gofyn i unrhyw ateb neu fodel cyllido sy'n cynnwys opsiwn yn ymwneud â threth, fod yn flaengar ac yn deg i drethdalwyr.

*Trethi lleol*

95. Yn y ddogfen *Symud Cymru Ymlaen* ymrwymodd Llywodraeth Cymru i weithio gyda llywodraeth leol i adolygu'r dreth gyngor er mwyn ei gwneud yn decach. Hefyd, mae cyflwyno diwygiadau lles Llywodraeth y DU yn cael effaith ar gyllid aelwydydd, lefelau dyledion a chymhwysedd am gymorth i dalu'r dreth gyngor. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno nifer o welliannau i'r dreth gyngor ers dechrau tymor y llywodraeth, gan gynnwys dileu'r gosb o garcharu am beidio â thalu a chefnogi mwy ar grwpiau agored i niwed fel y rhai sy'n gadael gofal a phobl â nam meddyliol difrifol. Cyhoeddwyd rhagor o fanylion am y rhaglen waith y cytunwyd arni ar 5 Tachwedd 2019[25].

**Tystiolaeth a dadansoddiad**

*Cyfraddau Treth Incwm Cymru*

96. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi, Trysorlys Ei Mawrhydi a Llywodraeth yr Alban i sicrhau bod polisi Treth Incwm yn gwasanaethu'r holl drethdalwyr mewn ffordd sy'n gydnaws ag egwyddorion y polisi treth. Byddwn yn defnyddio data gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi a'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol i ddylanwadau ar benderfyniadau ynghylch pennu cyfraddau yn y dyfodol.

*Treth Trafodiadau Tir*

97. Mae Llywodraeth Cymru yn asesu effaith cyfraddau preswyl ac amhreswyl. Mae cyfraddau preswyl y Dreth Trafodiadau Tir wedi lleddfu'r baich treth ar gyfer tua 20,000 o bobl sy'n prynu cartrefi, ac mae prynwr tŷ cyffredin yng Nghymru wedi cael gostyngiad o tua £800 yn y dreth o gymharu â Threth Dir y Dreth Stamp. Ar gyfer trafodiadau amhreswyl, mae'r anwadalrwydd bob mis a dros sawl blwyddyn yn ei gwneud hi'n anodd dod i gasgliad ynghylch pa effaith y mae'r cyfraddau treth newydd yn ei chael ar y sector masnachol, os ydynt yn cael unrhyw effaith o gwbl. Ond, roedd refeniw amhreswyl yng Nghymru yn 2018-19 yn uwch na'r alldro mewn pedair allan o'r pum mlynedd flaenorol.

*Talu am Ofal Cymdeithasol*

98. Mae talu am ofal cymdeithasol yn her amlochrog a chymhleth sy'n ceisio dwyn ynghyd yr angen i drawsnewid gwasanaethau ag atebion cynaliadwy, hyblyg a theg o ran ariannu, sy'n ystyried fframwaith presennol y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu, y cyllid a'r dull darparu ynghyd â'r rhyngddibyniaethau ehangach â'r system fudd-daliadau a threth yn y DU.

[25] *Diwygio Cyllid Llywodraeth Leol yng Nghymru: Diweddariad 2019*, a gyhoeddwyd ar 5 Tachwedd 2019: https://llyw.cymru/diwygio-cyllid-llywodraeth-leol-diweddariadau-blynyddol

99. Mae'r Grŵp Rhyngweinidogol wedi llunio ei ddull gweithredu ar gyfer archwilio'r opsiynau o fewn cyd-destun yr ymrwymiad i wasanaethau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac atal a sefydlwyd yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae hefyd yn parhau â chynllun tymor hir Llywodraeth Cymru ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol, *Cymru Iachach,* a'r weledigaeth o gael gwasanaeth di-dor i ddinasyddion.

100. Mae'r Grŵp Rhyngweinidogol wedi defnyddio syniad yr Athro Holtham o gael gwell system yswiriant cymdeithasol a'i fodel Ardoll Gofal Cymdeithasol a gyhoeddwyd yn ei adroddiad annibynnol, Paying for Social Care (Mehefin 2018) i lunio'r dull gweithredu ar gyfer ystyried modelau ariannu. Er bod model yr Athro Holtham wedi'i ddylunio i roi sylw i gostau cynyddol gofalu am bobl hŷn yn unig, mae ei fframwaith gwerthuso cysyniadol yn amlinellu pedair egwyddor allweddol sydd wedi bod yn sail i drafodaethau cynnar y Grŵp Rhyngweinidogol. Mae egwyddorion yr Athro Holtham yn edrych ar bwysigrwydd neilltuo yng nghyd-destun derbyn unrhyw gynnig newydd yn gyhoeddus; pwysigrwydd blaengaredd a thegwch rhwng y cenedlaethau; a ddylai budd-daliadau fod yn gysylltiedig â chyfraniadau ariannol; ac a ddylai'r dull gweithredu o gynhyrchu adnoddau ddilyn y patrwm traddodiadol ‘talu-wrth-ddefnyddio' i fodloni'r costau uniongyrchol neu'n seiliedig ar ddull gweithredu ‘wedi'i ariannu' fel bod o leiaf rhywfaint o'r adnoddau a gynhyrchir yn cael eu buddsoddi er mwyn talu costau gofal yn y dyfodol. Mae'r cwestiynau cysyniadol hyn wedi cyfrannu at ddatblygu meini prawf gwerthuso i gefnogi'r gwaith o asesu unrhyw fodel cyllido er mwyn bodloni costau gofal cymdeithasol yn y dyfodol.

**Y canlyniadau a'r camau nesaf**

*Cyfraddau Treth Incwm Cymru*

101. Mae cytundebau lefel gwasanaeth ar gael rhwng Llywodraeth Cymru a Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi. Mae'r cytundeb yn cyflwyno'r trefniadau rheoli ar gyfer Cyfraddau Treth Incwm Cymru, gan gynnwys y perthnasoedd o ddydd i ddydd, darparu gwybodaeth am fusnesau, datrys anghydfodau a chostau rhedeg.

102. Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi er mwyn parhau i roi Cyfraddau Treth Incwm Cymru ar waith yn llwyddiannus, a byddwn yn sicrhau bod yr ymrwymiadau a gyflwynir yn y cytundeb lefel gwasanaeth yn cael eu cyflawni.

103. Mae Llywodraeth Cymru wedi addo peidio â chynyddu cyfraddau Treth Incwm yn ystod tymor y Cynulliad Cenedlaethol hwn, ac mae'n parhau i edrych ar ba mor ymarferol fyddai defnyddio ei bwerau trethu newydd i gynhyrchu adnoddau ar gyfer anghenion gofal cymdeithasol yn y dyfodol. Ond, cydnabyddir fod cynyddu Cyfraddau Treth Incwm Cymru yn opsiwn sydd ar gael i Lywodraethau Cymru yn y dyfodol i gynhyrchu adnoddau ychwanegol ar gyfer gofal cymdeithasol.

104. Byddai angen ystyried unrhyw benderfyniad i newid cyfraddau Treth Incwm yn y dyfodol yn ofalus iawn. Ynghyd â'r grant bloc, bydd trethi Cymru yn ariannu'r gwasanaeth cyhoeddus hanfodol y mae nifer o bobl yn ein cymdeithas yn dibynnu arnynt. Byddai angen i Lywodraeth Cymru yn y dyfodol ystyried effaith ffactorau economaidd ehangach yn ogystal â'n hangen i warchod gwasanaethau cyhoeddus Cymru a phennu cyfraddau treth yn unol â hynny. Mae cael yr hyblygrwydd hwn yn adnodd ychwanegol pwysig i sicrhau ein bod ni'n parhau i gydbwyso tegwch â

threthdalwyr â'r angen i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus o safon uchel i bob dinesydd.

*Treth Trafodiadau Tir*

105. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i edrych ar effaith cyfraddau Treth Trafodiadau Tir preswyl ac amhreswyl.

*Talu am Ofal Cymdeithasol*

106. Fel rhan o raglen y Grŵp Rhyngweinidogol ar Dalu am Ofal Cymdeithasol, mae gwaith yn mynd rhagddo i sefydlu sylfaen dystiolaeth y gall Gweinidogion ei defnyddio i bennu union natur pwysau cyllido uniongyrchol a thymor hwy ar draws y gwasanaethau cymdeithasol. Mae rhagor o waith ar y gweill i ganfod y pwysau gweithredol ac o ran costau sy'n wynebu gofal cymdeithasol yn y tymor byr i'r tymor canolig.

## A5. Trefnu trethi Cymru yn unol ag uchelgeisiau polisi eraill

"Byddwn yn parhau i sicrhau bod polisi trethi a meysydd polisi eraill yn cael eu datblygu mewn modd sy'n gydnaws â'i gilydd. Byddwn yn parhau i wneud y canlynol: paratoi achos ar gyfer datganoli Toll Teithwyr Awyr i Gymru; bwrw ymlaen â'r Dreth ar Dwristiaeth a'r agenda drethu lleol; a gweithio gyda Llywodraeth y DU ar drethi ar blastigion untro a threthi amgylcheddol eraill."

### Cefndir

107. Gall trethu fod yn ysgogiad pwerus ar gyfer newid ymddygiad. Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried sut gall gefnogi'r broses o gyflawni amcanion polisi drwy ddefnyddio trethi newydd a rhai sy'n bodoli'n barod. Mae adrannau cynharach wedi cyfeirio at Dreth ar Dir Gwag, a fyddai'n helpu i gyflawni uchelgeisiau tai ac adfywio i Gymru (A2 Trethiant tir ac eiddo amhreswyl, tudalen 23) a sut gallai treth helpu i dalu am ofal cymdeithasol (A4 Polisi tegwch mewn trethi, tudalen 28).

*Toll Teithwyr Awyr*

108. Mae Toll Teithwyr Awyr yn doll gartref a godir ar gludo teithwyr trethadwy, ar awyren drethadwy, o faes awyr yn y DU. Mae'r Doll Teithwyr Awyr wedi'i datganoli'n llawn yn yr Alban, ac mae Toll Teithwyr Awyr ar deithiau hir uniongyrchol wedi'i datganoli yng Ngogledd Iwerddon.

109. Ym mis Medi 2018, cyhoeddodd y Pwyllgor Materion Cymreig ymchwiliad i ddatganoli'r Doll Teithwyr Awyr yng Nghymru, a chyflwynodd Llywodraeth Cymru dystiolaeth gadarn i'r ymchwiliad hwnnw. Roedd adroddiad terfynol y Pwyllgor yn argymell yn unfrydol fod Llywodraeth y DU yn datganoli'r Doll Teithwyr Awyr yn llwyr i Gymru erbyn 2021[26]. Roedd y Pwyllgor yn nodi bod parodrwydd Llywodraeth y DU i ddatganoli'r Doll Teithwyr Awyr yn rhannol yng Ngogledd Iwerddon ac yn llawn yn yr Alban, ond nid yng Nghymru, yn codi cwestiwn ynghylch tegwch datganoli.

110. Ymatebodd Llywodraeth y DU i argymhelliad unfrydol y Pwyllgor drwy ailadrodd nad oedd ganddi unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd i ddatganoli'r Doll Teithiau Awyr i Gymru.

*Treth ar Dwristiaeth*

111. Gall trethi ar dwristiaeth fod ar sawl ffurf, ond treth ar lety dros nos yw un o'r rhai mwyaf cyffredin. Gan fod treth ar lety i dwristiaid yn cael ei hystyried mewn nifer o ddinasoedd ledled y DU a gan fod rhai wedi cyflwyno'r dreth mewn dinasoedd a gwledydd yn rhyngwladol, mae'n bosibl y bydd rhyw fath o Dreth ar Dwristiaeth yn cael ei chyflwyno gan weinyddiaeth yn y DU yn y dyfodol.

112. Oherwydd y diddordeb cynyddol mewn trethi ar dwristiaeth, mae Llywodraeth Cymru wedi dechrau gweithio gyda'r sector twristiaeth a llywodraeth leol i ddechrau edrych ar natur ac effaith bosibl Treth ar Dwristiaeth a'r manteision a'r pryderon y mae'r sector twristiaeth wedi'u mynegi am y syniad.

---

[26]Pwyllgor Materion Cymreig Tŷ'r Cyffredin *Devolution of Air Passenger Duty to Wales* (Mehefin 2019): https://www.parliament.uk/business/committees/committees-a-z/commons-select/welsh-affairs-committee/inquiries/parliament-2017/air-passenger-duty-wales-17-19/

*Treth ar Blastigion Untro*

113. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ystyried y posibilrwydd o gael Treth ar Blastigion Untro yng Nghymru. Gan gydnabod manteision dull gweithredu cyson ar draws y DU yn y maes hwn, rydym yn rhan o weithgareddau helaeth ledled y DU ar hyn o bryd, yn edrych ar opsiynau i fynd i'r afael â defnydd diangen o blastig, a'r gwastraff sy'n gysylltiedig â hynny. Yn ystod y 12-18 mis diwethaf, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio gyda Llywodraeth y DU yn cefnogi ymgynghoriadau ar Dreth ar Ddeunydd Pacio Plastig, Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr ar gyfer deunydd pacio a Chynllun Dychwelyd Ernes ar gyfer cynwysyddion diodydd.

*Trethi lleol*

114. Mae'r ddwy dreth leol - y dreth gyngor ac ardrethi annomestig - yn cyfrannu bron i £3bn tuag at yr arian sydd ar gael i wasanaethau lleol bob blwyddyn. Mae'r gwasanaethau hyn yn cefnogi'r broses o gyflawni amcanion polisi ar draws holl bortffolios Llywodraeth Cymru. Pwrpas craidd y ddwy dreth yw darparu ffrwd gyllido sefydlog i ariannu'r gwasanaethau hyn. Mae'r pwrpas hwn yn sail i'n gwaith o edrych ar ddiwygio system cyllid llywodraeth leol yn y tymor hwy ac yn rheoli'r broses o ddatblygu'r ddwy dreth sydd eisoes yn bodoli.

115. Wrth ddatblygu'r trethi hyn, mae'r prif gyfleoedd ar gyfer sicrhau bod hyn yn fwy cydnaws â nodau polisi ehangach yn ymwneud â dyluniad cynlluniau disgownt, esemptiadau, gostyngiadau a rhyddhad. Mae ein gwaith yng nghyswllt y dreth gyngor yn canolbwyntio ar wneud y system yn decach, yn arbennig ar gyfer aelwydydd incwm isel, agored i niwed. Er enghraifft, codi ymwybyddiaeth o'r cymorth sydd ar gael a darparu cymorth wedi'i dargedu i grwpiau penodol, fel y rhai sydd wedi gadael gofal. Yng nghyswllt ardrethi annomestig, rydym wedi bod yn datblygu rhai o'n cynlluniau rhyddhad i dargedu cymorth tuag at sectorau sy'n gwneud cyfraniad penodol tuag at amcanion ehangach Llywodraeth Cymru, er enghraifft, darparwyr gofal plant.

**Tystiolaeth a dadansoddiad**

*Toll Teithwyr Awyr*

116. Mae Llywodraeth y DU wedi dweud ei fod yn "parhau i fod yn bryderus ynghylch effaith gystadleuol cyflwyno cystadleuaeth dreth mewn un farchnad awyrennau. Rydym yn credu bod meysydd awyr Caerdydd a Bryste yn gwasanaethu'r un farchnad."

117. Ym mis Tachwedd 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganfyddiadau gwaith ymchwil a gwblhawyd gan Northpoint Consultants i oblygiadau posibl datganoli'r Doll Teithwyr Awyr i Gymru ar y farchnad, ar gystadleuaeth ac ar yr economi. Roedd y dadansoddiad a adolygwyd gan gymheiriaid yn dangos bod meysydd awyr Caerdydd a Bryste yn gweithredu mewn dalgylchoedd penodol iawn. Yn ei adroddiad terfynol, ar ôl ystyried y dystiolaeth yn ofalus, daeth y Pwyllgor Materion Cymreig i'r casgliad canlynol: "Rydym yn deall dadleuon Maes Awyr Bryste, ond gan ei fod eisoes yn perfformio'n dda, ac mae ganddo lawer mwy o deithwyr na Maes Awyr Caerdydd, nid ydym wedi ein hargyhoeddi y byddai ei fusnes llwyddiannus yn dioddef niwed sylweddol a pharhaol, hyd yn oed pe byddai'r Doll Teithwyr Awyr yn cael ei dileu'n gyfan gwbl."

118. Mae'r sectorau awyrennau, twristiaeth a busnes yng Nghymru yn cefnogi datganoli'r Doll Teithwyr Awyr i Gymru yn unfrydol, ac mae tystiolaeth gref ynghylch y manteision economaidd y gallai ei chyflwyno, gan alluogi twf yn y sector awyrennau a'r economi ehangach.

*Treth ar Dwristiaeth*

119. Rydym wedi parhau i fonitro cynnydd ac ystyried enghreifftiau, yn rhyngwladol ac yn y DU, o ran sut mae trethi twristiaeth yn gweithio ar lefel ymarferol. Mae nifer o faterion polisi wedi'u nodi, sy'n gofyn am ystyriaeth a sylw pellach, gan gynnwys cyfraddau Treth ar Werth ar lety i dwristiaid, a sut byddai trethi ar dwristiaeth yn lleol yn croestorri meysydd polisi allweddol eraill, fel trethi lleol a phwysau rheoleiddiol presennol, a'r angen posibl am gofrestru statudol.

120. Rydym yn parhau i fonitro ystadegau twristiaeth manwl, a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru bob chwarter a bob blwyddyn.

*Treth ar Blastigion Untro*

121. Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn casglu tystiolaeth gan randdeiliaid allweddol yng Nghymru yng nghyswllt yr ymgynghoriadau. Ym mis Ebrill 2019, arweiniodd Llywodraeth Cymru, yn ogystal â WRAP Cymru a Thrysorlys ei Mawrhydi, gyfres o ddigwyddiadau ymgysylltu ledled Cymru i annog rhanddeiliaid yng Nghymru i gyflwyno eu safbwyntiau. Ym mis Gorffennaf 2019, yng nghynhadledd dreth flynyddol Llywodraeth Cymru, cyfrannodd rhanddeiliaid masnach, gweithgynhyrchu a chyrff anllywodraethol at weithdy a oedd yn casglu syniadau er mwyn rhoi sylw i ddefnyddio cwpanau plastig untro yng Nghymru.

122. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn edrych ar lle gall trethi neu ffioedd roi hwb i'n nod polisi o leihau faint o eitemau untro sy'n cael eu defnyddio, fel cwpanau diodydd, er mwyn annog newidiadau cynaliadwy a hirdymor i ymddygiad defnyddwyr a chynhyrchwyr. Oherwydd y bwriedir i gyfres o fesurau Llywodraeth y DU arwain at welliant graddol o ran lleihau defnyddio plastigion (a'r gwastraff sy'n gysylltiedig â hynny) yn y tymor canolig i'r tymor hir, bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn parhau i ddatblygu syniadau ar ymyriadau a allai arwain at effaith cyflymach.

123. Cydnabyddir bod angen cryfhau'r sylfaen dystiolaeth hon i roi sylw i effaith defnyddio cwpanau untro. Hefyd, rhaid dysgu mwy o dystiolaeth er mwyn cael sail i ddatblygu polisi a hyrwyddo newid ymddygiad, yn arbennig wrth ddatblygu ysgogiadau defnyddio'n gyfrifol.

*Trethi lleol*

124. Mae Llywodraeth Cymru yn casglu ac yn cyhoeddi amrywiaeth eang o ystadegau am ardrethi annomestig a'r dreth gyngor, gan gynnwys data helaeth ar y sylfaen dreth a chynlluniau disgownt, esemptiadau, gostyngiadau a rhyddhad. Cyhoeddir adroddiad ar Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor bob blwyddyn, sy'n cynnwys dadansoddiad manwl o aelwydydd a faint o gymorth sy'n cael ei ddarparu[27]. Fel y soniwyd yn gynharach, mae gwaith ymchwil pwrpasol wedi'i gomisiynu i gefnogi'r gwaith o ddatblygu'r trethi presennol ac ymchwilio i ddewisiadau amgen.

[27] Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor: Adroddiadau Blynyddol: https://llyw.cymru/cynllun-gostyngiadaur-dreth-gyngor-adroddiadau-blynyddol

**Y canlyniadau a'r camau nesaf**

*Toll Teithwyr Awyr*

125. Mae Llywodraeth y DU yn dal i fod yn amharod i dderbyn y dystiolaeth gynyddol y dylid datganoli'r Doll Teithwyr Awyr i Gymru. Byddwn yn parhau i godi'r mater â Gweinidogion y DU, ac yn pwyso ar Lywodraeth y DU i adolygu ei safbwynt annaliadwy. Hefyd, rydym yn parhau i ddatblygu'r sylfaen dystiolaeth ynghylch y manteision y byddai datganoli'r Doll Teithwyr Awyr yn eu cyflwyno i Gymru, er enghraifft drwy alluogi twf yn y sector awyrennau ac yn yr economi ehangach.

*Treth ar Dwristiaeth*

126. Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi cais am dystiolaeth yn 2020, er mwyn ceisio deall cyfleoedd, heriau a goblygiadau treth bosibl. Byddwn yn canolbwyntio ar asesu'r effaith debygol ar y sector cyfan, ar y gymuned fusnes ehangach, ac ar y lleoliadau y mae twristiaeth yn effeithio fwyaf arnynt.

127. Mae'r cais am dystiolaeth yn gydnaws ag ymrwymiad Llywodraeth Cymru i fod yn dryloyw wrth ddatblygu polisi trethi yng Nghymru, a chodi ymwybyddiaeth a chynnwys ein rhanddeiliaid yn y broses. Byddwn yn edrych yn fanwl ar y materion hyn yn eu tro, mewn partneriaeth â'r sector twristiaeth a llywodraeth leol, dros y tymor hwy.

128. Byddwn hefyd yn dechrau cael darlun o'r sylfaen drethu bosibl ar gyfer y Dreth ar Dwristiaeth, gan ddefnyddio ystadegau twristiaeth Llywodraeth Cymru, a gyhoeddir yn rheolaidd.

*Treth ar Blastigion Untro*

129. Wrth gydnabod yr ymateb gan y diwydiant yng Nghymru y dylai unrhyw ymyriadau polisi gael eu rhoi ar waith mewn modd cyson ledled y DU, bydd yn bwysig cynnal dull cydweithredol o weithio yng nghyswllt unrhyw drethi ar ddeunydd pacio plastig yn y dyfodol. Bydd Trysorlys Cymru yn parhau i weithio gyda Llywodraeth y DU ar gyd-ddylunio a rhoi trefniadau'r cynigion ymgynghori ar waith. Byddwn hefyd yn gweithio i sicrhau bod rhanddeiliaid Cymru yn cael eu cynnwys yn llawn yn yr ymgynghoriad technegol manylach, y disgwylir y bydd yn cael ei gynnal yn gynnar y flwyddyn nesaf.

130. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i edrych yn fanwl ar opsiynau i godi ffioedd a threthi ar eitemau untro sy'n achosi problemau. Hefyd, byddai gofyn i unrhyw fesur codi ffi neu dreth bosibl ar gynwysyddion diodydd untro gael ei gydlynu'n ofalus â'r cynlluniau priodol ar gyfer Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr, Cynllun Dychwelyd Ernes a gwaharddiadau ar eitemau plastig untro penodol. Bydd gofyn sicrhau bod y camau cywir yn cael eu cymryd i wella'r agenda flaengar sydd gan Gymru o ran gwastraff wrth weithio ar hyn.

*Trethi lleol*

131. Rydym yn bwriadu cyfuno ein gwaith o ddadansoddi'r systemau presennol a chanfyddiadau ein gwaith ymchwil i fod yn sail i ddatblygu'r cynigion yn ystod tymor y Cynulliad Cenedlaethol nesaf. Bydd hyn yn cynnwys archwilio a oes cyfleoedd i fod yn fwy cydnaws ag amcanion polisi allweddol.

# B. Datblygu dull gweithredu mwy effeithiol a chydlynol ar gyfer treth ar draws trethi presennol Cymru ac ar draws y cyd-destun trethi ehangach

## B1. Rhoi trethi datganoledig Cymru ar waith

"Rydym wedi gwneud nifer o welliannau i'r system dreth yng Nghymru yn 2018, gan gynnwys addasu deddfwriaeth a gwella canllawiau a gwasanaethau Awdurdod Cyllid Cymru, er enghraifft, y ffurflen Treth Trafodiadau Tir. Byddwn yn parhau i fonitro a yw trethi Cymru yn gweithredu fel y bwriedir, gan wneud newidiadau fel y bo'n briodol."

**Cefndir**

132. Dechreuwyd gweithredu'r Dreth Trafodiadau Tir a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi yng Nghymru ar 1 Ebrill 2018. Awdurdod Cyllid Cymru sy'n gyfrifol am gasglu a rheoli'r trethi ac am ymgysylltu â threthdalwyr ynghylch eu busnes. Mae'r refeniw o'r ddwy dreth yn cyfrannu'n uniongyrchol at wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, yn lle rhywfaint o'r cyllid y mae Llywodraeth Cymru yn ei gael gan Lywodraeth y DU.

133. Y Cynulliad Cenedlaethol sy'n pennu cyfraddau'r ddwy dreth, drwy gyfrwng rheoliadau. Nid yw cyfraddau'r Dreth Trafodiadau Tir wedi newid o'r cyfraddau cychwynnol a'r bandiau a gymeradwywyd gan y Cynulliad Cenedlaethol ym mis Ionawr 2018 ers iddi ddod ar waith yng Nghymru. Cymeradwywyd cyfraddau cychwynnol y Dreth Gwarediadau Tirlenwi ar gyfer 2018-19 ym mis Ionawr 2018 hefyd. Maent wedi codi yn unol â chwyddiant ar gyfer 2019-20, ac mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi cymeradwyo'r rheoliadau angenrheidiol ym mis Ionawr 2019. Mae'r newidiadau i gyfradd y Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn sicrhau bod y cyfraddau yn cyd-fynd â'r rhai a godir o dan y Dreth Dirlenwi yn y DU. Mae hyn yn unol ag ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gadw cyfradd is a safonol y dreth yn gyson â Llywodraeth y DU yn ystod 2018-19 a 2019-20, er mwyn cael sicrwydd i fusnesau ac i helpu i atal twristiaeth gwastraff.

134. Drwy ei waith bob dydd, bydd Awdurdod Cyllid Cymru yn gallu nodi pwyntiau lle bydd gofyn newid y ddeddfwriaeth neu'r canllawiau i sicrhau bod y trethi'n gweithredu fel y bwriedir. Bydd y gwaith yn nodi newidiadau a fydd yn gofyn am ymateb cyflym a'r rhai lle gellid cyfiawnhau cyfnod adolygu hwy.

135. Gall newidiadau i Gyllideb y DU gael effeithiau arwyddocaol ar weithrediad trethi cyfatebol yn y DU a'r refeniw y maent yn ei godi. Gall hyn gynnwys newidiadau i gyfraddau a bandiau, cyflwyno rhyddhad newydd, cyfraddau newydd ar gyfer rhai mathau o drafodiadau, neu newidiadau i strwythur y dreth. Gall newidiadau i drethi cyfatebol yn y DU arwain at effeithiau arwyddocaol i Gymru, a bydd yn rhaid ystyried y rhain wrth fonitro gweithrediad trethi datganoledig.

136. Mae gofyn statudol i gynnal adolygiad annibynnol o'r Dreth Trafodiadau Tir cyn diwedd Mai 2023. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gynnal adolygiad tebyg ar gyfer y Dreth Gwarediadau Tirlenwi hefyd. Rhaid adolygu Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi cyn pen pedair blynedd i ddechrau gweithredu'r cynllun. Ym mhob achos, mae'n bwysig cael adolygiad ar ôl gweithredu'r trethi a'r cynllun am gyfnod priodol o amser er mwyn sicrhau eu bod yn bodloni'r amcanion polisi y cawsant eu sefydlu ar eu cyfer i ddechrau.

137. Byddai gofyn gwneud newidiadau i Ddeddf Trethi Cymru ar ôl i'r DU adael yr UE, er mwyn sicrhau bod y ddeddfwriaeth yn dal i weithredu'n briodol.

**Tystiolaeth a dadansoddiad**

138. Gan fod y ddwy dreth wedi cael eu rhoi ar waith dros y 18 mis diwethaf, mae Awdurdod Cyllid Cymru wedi cael adborth ac wedi dilyn dull rhagweithiol o weithredu wrth ganfod meysydd lle byddai modd gwella'r canllawiau sydd wedi'u cyhoeddi. Hefyd, drwy adolygu ffurflenni treth a ddaeth i law ac ymgysylltu â threthdalwyr a'u hasiantwyr, tynnwyd sylw at y meysydd lle'r oedd camgymeriadau'n cael eu gwneud neu lle gallent gael eu gwneud ar y ffurflenni.

139. Daeth Awdurdod Cyllid Cymru yn ymwybodol o faterion a oedd yn ymwneud â rhyddhad sy'n ymwneud â'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi ar gyfer adfer safleoedd ac ail-lenwi mwyngloddiau brig a chwareli drwy ymgysylltu â'u trethdalwyr a chael dadansoddiad gan Gyfoeth Naturiol Cymru.

140. Dadansoddodd Trysorlys Cymru y gwaith i ganfod meysydd lle'r oedd y DU yn gadael yr UE yn effeithio ar drethi datganoledig, gan weithio ar y cyd â Llywodraeth y DU a Llywodraeth yr Alban.

141. Mae Awdurdod Cyllid Cymru yn perfformio'n dda yn unol â'i fesurau, fel yr adroddwyd yn ei Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon[28] cyntaf. Yn benodol ym meysydd proses awtomatiaeth, ffurflenni a thaliadau electronig, ac adborth defnyddwyr. Mae mesurau perfformiad presennol Awdurdod Cyllid Cymru wedi'u cynnwys yn ei gynllun corfforaethol 2019-22[29], a bydd adroddiad ar hyn yn yr adroddiad blynyddol 2019-20 yn 2020. Mae Awdurdod Cyllid Cymru wedi cyhoeddi ystadegau ynghylch ffurflenni'r Dreth Trafodiadau Tir a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi, sy'n cynnwys manylion trafodiadau tir a gwarediadau gwastraff a'r refeniw a gasglwyd[30].

**Y canlyniadau a'r camau nesaf**

142. Mae Awdurdod Cyllid Cymru wedi gwneud dros 100 o newidiadau i'r canllawiau er mwyn rhoi rhagor o gymorth i drethdalwyr sicrhau bod eu hatebolrwydd treth yn iawn y tro cyntaf. Mae'r newidiadau hyn yn amrywio o fân ddiwygiadau i helpu pobl i ddeall, i egluro polisi Awdurdod Cyllid Cymru neu ddehongli cyfraith trethi yn fwy manwl. Er enghraifft, mae Awdurdod Cyllid Cymru wedi gwella ei ganllawiau ar is-anheddau ac eiddo preswyl yn y Dreth Trafodiadau Tir yn ddiweddar, gan dreialu defnyddio diagramau mewn canllawiau technegol am y tro cyntaf. Wrth ymateb i anghenion trethdalwyr, mae Awdurdod Cyllid Cymru wedi paratoi cyfres o ganllawiau symlach ar feysydd o ddiddordeb cyffredin, gan gynnwys cosbau, ymholiadau ac adolygiadau ac apeliadau. Cafwyd adborth cadarnhaol i'r rhain i gyd.

143. Mae Trysorlys Cymru ac Awdurdod Cyllid Cymru wedi cydweithio ar reoliadau (a wnaed ym mis Hydref 2018 ac ym mis Gorffennaf 2019) i sicrhau bod deddfwriaeth y

---

[28] *Awdurdod Cyllid Cymru, Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon, 2017-19*: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-07/awdurdod-cyllid-cymru-adroddiad-blynyddol-chyfrifon-2017-2019-cy.pdf

[29] *Cynllun Corfforaethol 2019-2022, Awdurdod Cyllid Cymru*: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-05/cynllun-corfforaethol-awdurdod-cyllid-cymru-2019-2022.pdf

[30]Ystadegau'r Dreth Trafodiadau Tir: Ebrill 2018 - Mawrth 2019: https://llyw.cymru/ystadegaur-dreth-trafodiadau-tir-ebrill-2018-mawrth-2019-html

Dreth Gwarediadau Tirlenwi'n gweithredu'n well a sicrhau bod bwriad polisi'r rhyddhad ar gyfer adfer safleoedd ac ail-lenwi mwyngloddiau brig a chwareli yn cael ei gyflawni'n llwyr.

144. Mae Awdurdod Cyllid Cymru yn gofyn am adborth gan randdeiliaid i wella ei ganllawiau, gan gynnwys drwy flychau adborth ar y rhan fwyaf o'i ganllawiau. Mae Awdurdod Cyllid Cymru wedi cynnal nifer o gyflwyniadau a digwyddiadau, ar-lein ac mewn gwahanol leoliadau ledled Cymru, er mwyn codi ymwybyddiaeth trethdalwyr a'u hasiantwyr a'u helpu gydag unrhyw feysydd yn y gyfundrefn dreth sy'n ymddangos yn gymhleth neu a allai arwain at dalu'r dreth anghywir.

145. Mae Awdurdod Cyllid Cymru wedi diweddaru ei wasanaethau ar-lein i wella'r swyddogaeth i ddefnyddwyr sy'n ffeilio ffurflenni Treth Trafodiadau Tir, a bwriedir gwella gwasanaethau'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn y dyfodol hefyd. Mae diweddariadau i'r ffurflen Dreth Trafodiadau Tirlenwi ar-lein yn cynnwys newidiadau i godau rhyddhad treth a chyfrifiadau ar gyfer treth ar lesoedd. Mae'r rhain i gyd wedi'u dylunio i gefnogi defnyddwyr i dalu'r dreth gywir y tro cyntaf.

146. Mae Awdurdod Cyllid Cymru yn gweithio'n agos gyda Chyfoeth Naturiol Cymru i ddatblygu ei ddull o godi Treth Gwarediadau Tirlenwi ar wastraff a waredir heb ganiatâd. Mae'r pwerau hyn yn adnodd ychwanegol i fynd i'r afael â throseddau gwastraff, ac mae Awdurdod Cyllid Cymru yn bwriadu eu defnyddio i gefnogi gweithgareddau gorfodi ehangach Cyfoeth Naturiol Cymru, gan ganolbwyntio'n benodol ar fynd i'r afael â chanlyniadau amgylcheddol niweidiol troseddau gwastraff, ac effaith annheg hynny ar y diwydiant gwastraff dilys. Mae Awdurdod Cyllid Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru wedi datblygu perthynas waith agos, sy'n golygu bod modd creu strategaeth gynaliadwy a thymor hwy ar gyfer y Dreth Gwarediadau Tirlenwi.

147. Mae cyfraddau'r Dreth Trafodiadau Tir wedi'u cadw yr un fath ar gyfer Cyllideb 2019-20, a dyma'r cyfraddau sydd wedi bod yn berthnasol ers Ebrill 2018. Mae hyn yn cydnabod yr angen am sefydlogrwydd, eglurder a sicrwydd i bobl sy'n prynu a gwerthu eiddo. Nid yw Llywodraeth Cymru yn cynnig gwneud unrhyw newidiadau i'r cyfraddau hynny ar hyn o bryd.

148. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau gyda'i pholisi presennol o godi cyfraddau'r Dreth Trafodiadau Tir bob blwyddyn yn unol â chwyddiant a bydd cyfres o reoliadau'n cael eu cyflwyno gerbron y Cynulliad Cenedlaethol yn y man. Mae hyn yn adlewyrchu amcan polisi'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi o leihau'r gwastraff sy'n cael ei dirlenwi yng Nghymru, ac mae'n gwarchod rhag y risg o wastraff yn cael ei anfon dros y ffin rhwng Cymru a Lloegr.

149. Mae Llywodraeth Cymru yn adolygu Cyllidebau Llywodraeth y DU er mwyn canfod effeithiau posibl ar drethi datganoledig. Os bydd Llywodraeth y DU yn gwneud newidiadau a fydd yn cael effaith ar refeniw treth ddatganoledig, a fydd yn effeithio ar adnoddau net Llywodraeth Cymru, bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried ei ymateb (trafodir hyn ymhellach yn adran C4).

150. Yn dilyn gwaith ar faterion treth a oedd yn codi yn sgil y DU yn gadael yr UE, crëwyd Rheoliadau Deddfau Trethi Cymru (Diwygiadau Amrywio) (Ymadael â'r UE) 2019, ym mis Ebrill 2019 ar ôl cael cymeradwyaeth y Cynulliad Cenedlaethol.

151. Mae'r gwaith cynllunio angenrheidiol wedi cychwyn ar gyfer adolygiadau annibynnol y trethi datganoledig a bydd adolygiad Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn parhau i'r flwyddyn nesaf a'r tu hwnt.

152. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i adolygu'r holl dystiolaeth sydd ar gael ynghylch effeithiau trethi datganoledig.

## B2. Systemau trethu yng Nghymru

"Byddwn yn datblygu'r sylfaen dystiolaeth er mwyn ystyried a allai'r system dreth yng Nghymru fod yn fwy effeithlon a chymesur, gan gyflawni mwy ar gyfer busnesau, cymunedau, dinasyddion, mudiadau yn y sector cyhoeddus yn ehangach a threthdalwyr yng Nghymru. Bydd y gwaith yn ceisio edrych ar yr holl drethi yng Nghymru, a bydd yn cynnwys:

i. Cyhoeddi amcanion ar weinyddu trethi yn lleol;
ii. Ymgysylltu â busnesau, trethdalwyr a grwpiau cynrychioliadol ledled Cymru, gan gyfleu newidiadau i'r system dreth a fydd yn cael effaith uniongyrchol ar eu busnesau;
iii. Ystyried yr achos dros ddilyn dull gweithredu mwy strategol a chydgysylltiedig ar gyfer blaenoriaethau gweinyddu trethi yn ystod y tymor canolig."

**Cefndir**

153. Roedd Fframwaith Polisi Trethi Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2017 yn tynnu sylw at bwysigrwydd cael system drethu syml, glir a sefydlog. Mae'n egluro sut mae datganoli cyllidol yn arwain at amryw o gyfleoedd i ddatblygu ymagwedd benodol tuag at drethu yng Nghymru. Felly, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn edrych yn ofalus ar sut gallai gyflwyno ei disgwyliadau a'i huchelgeisiau ar gyfer gweinyddu trethi yng Nghymru er mwyn darparu gwasanaethau cyhoeddus o safon uchel yn y pen draw.

**Tystiolaeth a dadansoddiad**

154. Mae amryw o drefniadau ar waith yng nghyswllt gweinyddu trethi yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi dechrau ystyried rhai egwyddorion cyffredin i gefnogi'r broses o weinyddu trethi Cymru yn effeithiol:

- Cyfraddau Treth Incwm Cymru, sy'n cael eu casglu gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi, a'r refeniw priodol yn cael ei gyfeirio i Lywodraeth Cymru;

- Y ddwy dreth ddatganoledig – Treth Trafodiadau Tir a Threth Gwarediadau Tirlenwi, sy'n cael eu casglu a'u rheoli gan Awdurdod Cyllid Cymru;

- Y ddwy dreth leol - y dreth gyngor ac ardrethi annomestig, sy'n cael eu casglu a'u rheoli gan awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru.

155. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i baratoi'r achos dros ddatganoli'r Doll Teithwyr Awyr, ac mae'n edrych yn fwy manwl ar ddatblygu Treth bosibl ar Dir Gwag a threthi amgylcheddol sy'n ymwneud â phlastigion.

156. Mae rhaglen waith ddiffiniedig yn cael ei darparu i wella'r dreth gyngor ac ardrethi annomestig yn y tymor byr i'r tymor canolig, ac mae syniadau mwy radical yn cael eu hystyried dros y tymor hwy. Mae'r rhaglen sydd wedi'i chyhoeddi yn cynnwys blaenoriaethau ar gyfer gwella'r broses o reoli a gweinyddu'r trethi lleol. Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio'n agos gyda llywodraeth leol dros y flwyddyn ddiwethaf er mwyn cytuno ar y ddogfen *Protocol Treth Cyngor Cymru: Arfer Dda wrth Gasglu Treth y Cyngor*. Mae'r 22 awdurdod bilio wedi mabwysiadu'r protocol newydd hwn. Mae darpariaethau i wella'r broses o weinyddu ardrethi annomestig wedi'u cynnwys ym Mil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru).

157. Ystyrir sicrhau dull gweithredu sy'n fwy strategol a chydgysylltiedig ar gyfer blaenoriaethau gweinyddu trethi yng nghyswllt unrhyw ddatganoli cyllidol pellach, yn ogystal â threthi lleol diwygiedig.

158. Mae Llywodraeth Cymru yn gobeithio cynnig pwynt cyfeirio i awdurdodau treth, yn ogystal â chyflwyno egwyddorion i lunwyr polisïau er mwyn llywio unrhyw newidiadau i drethi sy'n bodoli'n barod a'r gwaith o ddylunio a sefydlu trethi newydd.

159. Trafodwyd gweinyddu trethi â'r Grŵp Cynghori ar Drethi ym mis Mawrth, ac mewn gweithdy yng Nghynhadledd Llywodraeth Cymru ar Drethi yng Nghymru ym mis Gorffennaf.

**Y canlyniadau a'r camau nesaf**

160. Bydd Trysorlys Cymru yn ceisio ymgysylltu â'r holl awdurdodau treth yng Nghymru ac â rhanddeiliaid yn fwy eang er mwyn cyd-baratoi dull gweithredu sy'n fwy strategol a chydgysylltiedig ar gyfer blaenoriaethau gweinyddu trethi.

161. Ni ddisgwylir y bydd canllawiau technegol yn cael eu datblygu, ond y bydd Llywodraeth Cymru yn egluro'r dull gweithredu y dylai awdurdodau treth ei ddilyn o safbwynt y trethdalwyr mewn cytundeb wedi'i gyd-baratoi.

162. Ni ddisgwylir y bydd yr egwyddorion a'r blaenoriaethau hyn yn ddadleuol, a bydd nifer yn cael eu cydnabod fel arferion da. Ond, bydd yn gam cyntaf pwysig o ran meithrin y broses o ddatblygu dull strategol o weithredu ar gyfer gweinyddu trethi yng Nghymru.

## B3. Gwybodaeth am drethi

"Byddwn yn ystyried opsiynau ar gyfer datblygu adnoddau gwybodaeth, gan gynnwys rhannu a dadansoddi data, i gryfhau'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer penderfyniadau polisi trethi a gwella'r broses o weinyddu trethi yng Nghymru. Bydd Awdurdod Cyllid Cymru yn ymhelaethu ynghylch ei rôl a'i flaenoriaethau yng nghyswllt hyn yn ei gynllun corfforaethol 2019-22.

- Datblygu cynllun er mwyn cytuno ar gyfres o amcanion tymor hwy o ran rhannu data a dadansoddi, sy'n cefnogi ac yn hyrwyddo anghenion dadansoddi a pholisi;
- Ystyried ac egluro amcanion canolfan ddata;
- Datblygu cynllun i roi hyn ar waith."

**Cefndir, tystiolaeth a dadansoddiad**

*Cyfraddau Treth Incwm Cymru*

163. Daeth Cyfraddau Treth Incwm Cymru i rym ym mis Ebrill 2019. Gan fod gan bobl tan ddiwedd mis Ionawr 2021 i gyflwyno eu ffurflenni treth Hunanasesiad i Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi ar gyfer y flwyddyn dreth 2019-20, ni ddisgwylir alldro cyntaf Cyfraddau Treth Incwm Cymru tan haf 2021. Bydd y rhain yn darparu gwybodaeth sylfaenol bwysig at ddibenion dadansoddi a rhagolygu.

164. Yn ogystal â data alldro, mae arolwg Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi o incwm personol yn ffynhonnell ddata fwy manwl. Mae hon yn sampl drawstoriadol o dalwyr Treth Incwm y Deyrnas Unedig, ac yn cynnwys trethdalwyr hunanasesiad a thalu wrth ennill. Mae yna gyfnod aros hir amdano hefyd. Er enghraifft, mae'r arolwg o incwm personol diweddaraf yn seiliedig ar ddata 2016-17.

165. Er gwaethaf yr amseroedd arwain hir yng nghyswllt data alldro allweddol ynghylch Cyfraddau Treth Incwm Cymru, mae Llywodraeth Cymru eisoes yn gweithio ar wella cwmpas a phrydlondeb data am Dreth Incwm sydd ar gael i'w dadansoddi. Yn benodol, mae swyddogion yn cymryd rhan mewn gweithgor o dan arweiniad Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi yng nghyswllt data am Dreth Incwm, ynghyd â'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, Llywodraeth yr Alban a'r Scottish Fiscal Commission.

*Trethi lleol*

166. Mae trethiant lleol yn rhan hanfodol o'r system o ariannu llywodraeth leol yng Nghymru, gyda thua 1.4m o eiddo domestig a thua 120,000 o eiddo annomestig yng Nghymru. Mae'r dreth gyngor ac ardrethi annomestig yn cyfrannu tua £1.7bn ac £1.0bn yn y drefn honno (heb gynnwys gostyngiadau a rhyddhad) tuag at gyllid blynyddol gwasanaethau lleol. Mae Llywodraeth Cymru yn darparu dros £230m o ryddhad i drethdalwyr annomestig yng Nghymru eleni, ac mae'n ariannu amrywiaeth o wahanol gymorth i dalwyr y dreth gyngor, gan gynnwys Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor, sy'n darparu cymorth gwerth dros £250m.

167. Mae angen llawer iawn o wybodaeth i reoli'r system drethiant yn lleol, gan gynnwys dylunio cynlluniau rhyddhad, datblygu a chynnal a chadw polisïau twyll ac osgoi, a mynd ar drywydd newidiadau sylfaenol i'r system drethiant leol yn ei chyfanrwydd.

168. Mae tri o randdeiliaid allweddol yn casglu gwybodaeth at ddibenion trethu yn lleol, sef: Llywodraeth Cymru, Asiantaeth y Swyddfa Brisio ac awdurdodau lleol. Mae gan bob

rhanddeiliad rôl hollbwysig o ran rhoi ardrethi annomestig a'r dreth gyngor ar waith. Mae'n bwysig fod y tri chorff yn rhannu gwybodaeth, er mwyn sicrhau polisi trethi sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac er mwyn sicrhau bod egwyddorion sylfaenol trethu'n cael eu cyflawni.

*Trethi sydd wedi'u datganoli'n llawn*

169. Mae Awdurdod Cyllid Cymru wedi datblygu ystadegau ar gyfer y Dreth Trafodiadau Tir a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi[31]. Mae hyn yn cynnwys cyfansymiau manwl sy'n ymwneud â data ynghylch y Dreth Trafodiadau Tir, gan gynnwys data am yr ardal leol, a chyfansymiau lefel uchel sy'n ymwneud â'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi, sy'n dangos pwysau a gwerth gwarediadau trethadwy, a'r disgowntiau a'r rhyddhad sydd ar gael.

**Y canlyniadau a'r camau nesaf**

*Cyfraddau Treth Incwm Cymru*

170. O ganlyniad i ymdrechion y gweithgor Treth Incwm, mae'r fersiwn o'r arolwg incwm personol sydd at ddefnydd y cyhoedd (ar gyfer defnyddwyr y tu allan i Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi) wedi gwella o ran prydlondeb ac ansawdd. Mae hyn wedi darparu sylfaen dystiolaeth fwy cadarn, diweddar a dealladwy ar gyfer dadansoddi'r sylfaen Treth Incwm yng Nghymru.

171. Hefyd, mae'r gweithgor wedi chwarae rhan weithredol wrth ddatblygu cyhoeddiad newydd Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi, sef Ystadegau am Alldro Treth Incwm yn yr Alban[32]. Bydd hyn yn cael effaith bwysig ar gynnwys tebygol cyhoeddiad alldro Cyfraddau Treth Incwm Cymru yn y dyfodol, a bydd yn golygu y bydd yn fwy tebygol o adlewyrchu gofynion Llywodraeth Cymru.

172. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi i wella'r adnoddau gwybodaeth a'r dadansoddiad i helpu gyda Chyfraddau Treth Incwm Cymru.

*Trethi lleol*

173. Mae Llywodraeth Cymru, Asiantaeth y Swyddfa Brisio ac awdurdodau lleol wedi datblygu ac wedi cytuno ar drefniadau rhannu data. Mae'r rhain wedi caniatáu casglu gwybodaeth ychwanegol ar y dreth gyngor a'r ardrethi annomestig er mwyn cael sail ar gyfer polisi trethi lleol newydd ac er mwyn adolygu pa mor effeithiol yw cynlluniau a pholisïau presennol. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i edrych yn fwy manwl ar gyfleoedd i rannu data er mwyn cefnogi'r broses o gyflawni trethi lleol.

174. Mae gwybodaeth fanwl am drethiant lleol yn parhau i gael ei chyhoeddi ar wefan StatsCymru Llywodraeth Cymru. Yn ogystal â'r wybodaeth ystadegol fanwl ynghylch y sylfeini trethu lleol a chasglu'r ddwy dreth, mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi adroddiad blynyddol cynhwysfawr ar y Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor. Mae Asiantaeth y Swyddfa Brisio yn ategu'r wybodaeth hon â chyfres o ddatganiadau

[31] Ystadegau ar y Dreth Trafodiadau Tir a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi
https://llyw.cymru/ystadegaur-dreth-trafodiadau-tir
https://llyw.cymru/ystadegaur-dreth-gwarediadau-tirlenwi
[32] Rhagor o fanylion:
https://www.gov.uk/government/statistics/scottish-income-tax-outturn-statistics

ystadegol ar dueddiadau eiddo, sy'n dod o restrau'r dreth gyngor ac ardrethu annomestig.

175. Mae gwaith yn parhau o ran edrych yn fanwl ar adnoddau gweledol er mwyn sicrhau bod yr wybodaeth hon yn haws cael gafael arni ac yn haws ei rheoli ar gyfer rhanddeiliaid allanol sydd â diddordeb.

*Trethi sydd wedi'u datganoli'n llawn*

176. Yn ystod haf 2019, cyhoeddodd Awdurdod Cyllid Cymru yr ystadegau blynyddol cyntaf ar gyfer y Dreth Trafodiadau Tir a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi. Er mwyn codi proffil a datblygu dealltwriaeth ynghylch yr ystadegau hyn, cynhaliodd Awdurdod Cyllid Cymru sesiwn briffio i'r wasg ynghylch ystadegau'r Dreth Trafodiadau Tir, gan baratoi datganiad i'r wasg i gyd-fynd â hynny hefyd[33].

177. Roedd ystadegau blynyddol y Dreth Trafodiadau Tir yn cynnwys dadansoddiadau newydd ar gyfer y dreth hon yn ôl Awdurdod Lleol, Etholaeth y Cynulliad Cenedlaethol, yn ogystal â dadansoddiad yn ôl amddifadedd gan ddefnyddio Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru. Cyhoeddodd Awdurdod Cyllid Cymru ddata manwl am gyfwng prisiau'r Dreth Trafodiadau Tir, y mae Trysorlys Cymru yn gofyn amdanynt er mwyn rhagweld refeniw Treth Trafodiadau Tir, ac a fydd yn golygu bod modd dadansoddi'r sylfaen drethu ar gyfer y Dreth Trafodiadau Tir yn gynhwysfawr yn allanol.

178. Mae'r rhan fwyaf o'r data'n cael eu cyhoeddi ar fformat data agored ar ffurf y gall peiriant ei darllen ochr yn ochr â metadata, ar wasanaeth StatsCymru[34] Llywodraeth Cymru. Bydd cyfansymiau'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn cael eu hychwanegu at StatsCymru yn nes ymlaen eleni.

179. Bydd Awdurdod Cyllid Cymru yn parhau i gyhoeddi ystadegau'r Dreth Trafodiadau Tir bob mis a bob chwarter ac ystadegau'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi bob chwarter, gan adeiladu ar newid diweddar o ddefnyddio cyfres o dudalennau gwe sy'n cynnwys dolenni (yn hytrach na dogfennau PDF), sy'n golygu ei bod hi'n haws i amryw o ddefnyddwyr gael gafael ar yr ystadegau.

180. Yn ystod y misoedd nesaf, bydd Awdurdod Cyllid Cymru yn rhoi blaenoriaeth i ymgysylltu â phobl eraill ynghylch y data sydd ganddo am drethdalwyr yng Nghymru, y cyfyngiadau cyfreithiol ar sut a beth y gall ei rannu a sut gallai'r data hyn helpu awdurdodau lleol ac adrannau eraill y llywodraeth i gyflawni eu swyddogaethau.

[33] Data’r Dreth Trafodiadau Tir ar gyfer awdurdodau lleol Cymru: https://llyw.cymru/rhyddhau-data-cyntaf-y-dreth-trafodiadau-tir-ar-gyfer-holl-awdurdodau-lleol-cymru
[34] Data’r Dreth Trafodiadau Tir ar wefan StatsCymru: https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Taxes-devolved-to-Wales/Land-Transaction-Tax

## B4. Gweinyddu Cyfraddau Treth Incwm Cymru

"Byddwn yn sefydlu systemau rheoli y cytunir arnynt â Llywodraeth y DU ar gyfer gweinyddu Cyfraddau Treth Incwm Cymru ar ôl iddynt gael eu rhoi ar waith ym mis Ebrill 2019, yn arbennig cyhoeddi cytundeb lefel gwasanaeth Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi ac ymrwymo i'r cytundeb hwnnw."

### Cefndir

181. Cyflwynodd Llywodraeth Cymru Gyfraddau Treth Incwm Cymru ar 6 Ebrill 2019. Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn pennu'r cyfraddau bob blwyddyn drwy gynnig cyllidebol, a chyflwynwyd y cyntaf o'r rhain ym mis Ionawr 2019. Pennwyd y cyfraddau cyntaf yng Nghymru yn 10c, gan sicrhau parhad a chysondeb â'r cyfraddau y mae trethdalwyr yn eu talu yn Lloegr a Gogledd Iwerddon. Mae cyfraddau 2019-20 yn helpu i gyflawni'r ymrwymiad o beidio â chynyddu Treth Incwm yn ystod tymor y Cynulliad Cenedlaethol hwn.

182. Mae cytundeb lefel gwasanaeth ar gael ar gyfer rheoli Cyfraddau Treth Incwm Cymru, a chyfrifoldeb Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi yw hwn o hyd. Mae'n cyflwyno'r gofynion, yr amserlenni a'r mesurau perfformiad ar gyfer rhoi Cyfraddau Treth Incwm Cymru ar waith. Bydd hyn yn sicrhau gwasanaeth o safon gyson i drethdalwyr yng Nghymru a bydd yn caniatáu i Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi a Llywodraeth Cymru i fodloni ein cyfrifoldebau penodol yng nghyswllt gweithredu Cyfraddau Treth Incwm Cymru.

### Tystiolaeth a dadansoddiad

183. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda swyddogion Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi, Trysorlys Ei Mawrhydi a Llywodraeth yr Alban i sicrhau bod polisi Treth Incwm yn gwasanaethu'r holl drethdalwyr mewn ffordd sy'n gydnaws ag egwyddorion y polisi treth.

184. Byddwn yn defnyddio data gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi a'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol i ddatblygu polisi Treth Incwm, pennu cyfraddau a chyllidebu ar gyfer unrhyw amrywiant yn y Dreth Incwm a gesglir o gymharu â'r rhagolygon. Ar sail y rhagolygon presennol gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, disgwylir y bydd pennu Cyfraddau Treth Incwm Cymru yn 10c ar gyfer pob band yn codi £2,089m yn 2019-20, a £2,206m yn 2020-21.

### Y canlyniadau a'r camau nesaf

185. Mae bwrdd prosiect Cyfraddau Treth Incwm Cymru, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru, Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi a Thrysorlys Ei Mawrhydi, yn dal i fod ar waith, a bydd yn parhau felly nes bydd yr holl waith gweithredu wedi'i gwblhau a nes cytunir ar y costau terfynol. Mae'r bwrdd yn parhau i gyfarfod bob mis i adolygu cynnydd. Hefyd, cynhelir byrddau adolygu risg bob mis a chynhelir byrddau rheoli newid er mwyn cytuno ar gostau yn ôl yr angen. Amcangyfrifir bod y costau gweithredu ar hyn o bryd rhwng £7.5m a £9.5m. Amcangyfrifir bod y costau gweithredu yn £319k.

186. Mae gweithgor polisi trethi ar y cyd rhwng Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig yn cael ei sefydlu yn lle Bwrdd Rhaglen Datganoli Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi er mwyn goruchwylio'r broses o gyflwyno trethi datganoledig a Chyfraddau

Treth Incwm Cymru. Bydd y grŵp yn sicrhau bod y materion sy'n bwysig i Gymru yn cael y sylw priodol.

187. Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi er mwyn parhau i roi Cyfraddau Treth Incwm Cymru ar waith yn llwyddiannus, a byddwn yn sicrhau bod yr ymrwymiadau a gyflwynir yn y cytundeb lefel gwasanaeth yn cael eu cyflawni.

# C. Ymgysylltu, cyfathrebu a meithrin gallu

## C1. Dylunio trethi Cymru

"Rydym yn anelu at ddull gweithredu sy'n seiliedig ar arferion gorau ar gyfer ein pwerau trethu, er enghraifft, ein proses dryloyw, sy'n canolbwyntio ar yr hyn sy'n digwydd o'n hamgylch, o ran llunio polisïau trethi. Yn 2019, byddwn yn adeiladu ar hyn er mwyn gwella sut mae trethi Cymru'n cael eu dylunio a'u rhoi ar waith, gan gyfuno polisïau a gweithredu, a'r cysylltiad rhwng polisi trethi a pholisi nad yw'n ymwneud â threthi, hyd y gellir. Mae Awdurdod Cyllid Cymru mewn sefyllfa dda i gefnogi hyn, a bydd yn ymhelaethu ar ei rôl yn ei gynllun corfforaethol 2019-22."

### Cefndir

188. Fel y nodir yn y Fframwaith Polisi Trethi[35], mae gan Gymru y cyfle i gynnwys dinasyddion a threthdalwyr mewn penderfyniadau ynghylch lefelau a graddfa codi refeniw, ochr yn ochr â phenderfyniadau ynghylch gwario drwy gyfrwng trafodaethau ac ymgysylltu'n ehangach.

189. Bydd trethi Cymru yn cael eu datblygu drwy gydweithrediad a chyfranogiad. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddilyn dull gweithredu tryloyw yng nghyswllt y broses o lunio polisi trethi, o ran y trethi sydd wedi'u datganoli'n barod a threthi newydd posibl. Cydnabyddir fod y tryloywder hwn yn hanfodol er mwyn cryfhau ymddiriedaeth a hyder mewn datganoli cyllidol.

190. Mae Llywodraeth Cymru ac Awdurdod Cyllid Cymru yn gweithio mewn partneriaeth gyfartal yng nghyswllt datblygu polisi a threfniadau gweithredu ar gyfer y Dreth Trafodiadau Tir a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi. Yn fwy eang, bydd gan arbenigedd Awdurdod Cyllid Cymru o ran rheoli a chasglu trethi rôl o ran bod yn sail i ddatblygu polisi yng nghyswllt datganoli cyllidol yn ehangach. Roedd Cynllun Corfforaethol 2019-22 Awdurdod Cyllid Cymru yn cynnwys nod ‘Dylunio' penodol, sy'n nodi "Ein nod yw bod yn bartner y gall pobl ymddiried ynddo i gynllunio gwasanaethau cyllid cyflawn sy'n cyflawni amcanion Llywodraeth Cymru, p'un ai a fydd y gwasanaethau hynny'n cael eu darparu gennym ni neu gan eraill."

### Tystiolaeth a dadansoddiad

*Talu am Ofal Cymdeithasol*

191. Ers i'r penderfyniad gael ei wneud yn 2017 i roi blaenoriaeth i waith archwiliol ar fesurau cyllido sy'n ymwneud â threth i gynhyrchu rhagor o adnoddau ar gyfer costau gofal cymdeithasol yn y dyfodol, mae rhaglen waith wedi'i sefydlu ac mae'n cael ei rhoi ar waith o dan nawdd y Grŵp Rhyngweinidogol ar Dalu am Ofal Cymdeithasol. Ffurfiwyd y Grŵp yn ystod haf 2018, a'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yw'r cadeirydd ar hyn o bryd. Mae'r grŵp wedi bod yn ystyried y paramedrau ar gyfer ei ffocws penodol o dan y gofal cymdeithasol y rhoddir blaenoriaeth iddo yn strategaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru, Ffyniant i Bawb. Mae'r Grŵp Rhyngweinidogol wedi cydnabod natur drawsbynciol talu am yr agenda gofal ac mae wedi sicrhau bod pob rhan o'r llywodraeth yn canolbwyntio'n briodol ar fabwysiadu a bwrw ymlaen â'r rhaglen

---

[35] Fframwaith polisi trethi (Mehefin 2017): https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-10/fframwaith-polisi-trethi.pdf

waith. Mae'r Grŵp wedi pwysleisio pwysigrwydd ymgysylltu a chyfathrebu yn strategol er mwyn sicrhau consensws ynghylch gwerth yr agenda ehangach hon. Mae wedi sicrhau bod rhanddeiliaid yn cael gwybod am y cynnydd a'u bod yn gallu uniaethu â graddfa'r her drwy gyflwyno cyfres o ddatganiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol.

192. Mae ystyriaethau datblygu polisi cynnar yn cael eu llunio drwy ddysgu o enghreifftiau rhyngwladol o ddarparu a chyllido gofal cymdeithasol, syniadau fel model yr Athro Holtham ar gyfer Ardoll Gofal Cymdeithasol, a phrofiad Llywodraeth Cymru ei hun o roi Cyfraddau Treth Incwm Cymru ar waith, ac mae Awdurdod Cyllid Cymru wedi cyfrannu'r arbenigedd ar ddylunio trethi.

*Treth ar Dir Gwag*

193. Mae gwaith yn parhau i geisio pwerau ar gyfer Treth ar Dir Gwag. Wrth i'r broses hon fynd rhagddi, rydym wedi dilyn dull gweithredu tryloyw. Mae grŵp cyfeirio sy'n cynnwys rhanddeiliaid allweddol wedi bod yn cwrdd dros y flwyddyn ddiwethaf i gyfrannu at syniadau polisi cynnar ar gyfer y dreth bosibl hon. Er na fydd polisi manwl yn cael ei ddatblygu nes bydd y pwerau angenrheidiol wedi cael eu datganoli, mae'r grŵp wedi helpu i ganfod anghenion tystiolaeth a chwestiynau polisi allweddol, ac mae wedi cyfrannu at ddatblygu manyleb gwaith ymchwil i helpu i lenwi rhai bylchau o ran y dystiolaeth. Bydd yr ymgysylltu gwerthfawr hwn yn parhau i fod yn sail i ddatblygu polisi wrth i'r gwaith fynd rhagddo ar ôl datganoli pwerau.

194. Cyfrannu at amcanion polisi ehangach fyddai diben Treth ar Dir Gwag, nid codi refeniw. Yn ogystal ag ymgysylltu â rhanddeiliaid y tu allan i'r llywodraeth, rydym yn gweithio gyda'n gilydd ar draws y llywodraeth i sicrhau bod y polisi treth hwn yn bodloni'r amcanion polisi ehangach ar gyfer tai, adfywio a'r economi, gan weithio gyda'r system gynllunio ehangach ac ochr yn ochr ag ymyriadau eraill y llywodraeth. Mae Awdurdod Cyllid Cymru wedi bod yn cyfrannu arbenigedd o ran casglu a rheoli trethi i helpu i sefydlu'r ystyriaethau dylunio sy'n angenrheidiol o'r cychwyn cyntaf wrth ddatblygu polisi.

*Trethi ar Blastigion Untro*

195. Ym mis Ebrill 2019, arweiniodd Llywodraeth Cymru - yn ogystal â WRAP Cymru a Thrysorlys Ei Mawrhydi - gyfres o ddigwyddiadau ymgysylltu ledled Cymru i annog rhanddeiliaid i ymateb i ymgynghoriadau yn y DU ar dreth ar ddeunydd pacio plastig, cyfrifoldeb estynedig cynhyrchwyr ar gyfer deunydd pacio a chynllun dychwelyd ernes. Byddwn yn parhau gyda'r ymgysylltu agored hwn ar gyfer rownd arall yr ymgynghori technegol a ddisgwylir yn 2020. Ym mis Gorffennaf 2019, yng nghynhadledd dreth flynyddol Llywodraeth Cymru, cyfrannodd rhanddeiliaid masnach, gweithgynhyrchu a chyrff anllywodraethol at weithdy a oedd yn casglu syniadau er mwyn rhoi sylw i ddefnyddio cwpanau plastig untro yng Nghymru.

*Treth ar Dwristiaeth*

196. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r sector twristiaeth a gyda llywodraeth leol i ddeall effeithiau posibl Treth ar Dwristiaeth leol, gan gynnwys y pryderon a godwyd gan y sector twristiaeth. Mae'r materion sy'n cael eu hystyried yn cynnwys y cysylltiad â Threth ar Werth ar lety twristiaeth, a sut effaith fyddai trethi ar dwristiaeth yn lleol yn ei chael ar bwysau rheoleiddio a threthi lleol eraill.

*Toll Teithwyr Awyr*

197. Mae Llywodraeth Cymru wedi chwarae rôl allweddol o ran ymgysylltu â'r sector busnes ar rinweddau datganoli Toll Teithwyr Awyr, gan gynnwys Cyngor Datblygu'r Economi, sy'n cynnwys uwch gynrychiolwyr o fusnesau, undebau llafur a'r trydydd sector o bob cwr o Gymru. Arweiniodd hyn at y Cyngor yn cyflwyno llythyr i sylw ymchwiliad y Pwyllgor Materion Cymreig ynghylch datganoli Toll Teithwyr Awyr i Gymru, yn erfyn ar Lywodraeth y DU i adolygu ei safbwynt presennol ar hyn a gwneud cynnydd ystyrlon tuag at ddatganoli pŵer.

**Y canlyniadau a'r camau nesaf**

198. Wrth ddatblygu ei ddull gweithredu ar gyfer trethi presennol a rhai newydd, bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod y dyluniad yn ystyried sut bydd y dreth yn cael ei rhoi ar waith. Wrth wneud hynny, bydd yn parhau i ymgysylltu'n eang â rhanddeiliaid yng nghyswllt polisi trethi yng Nghymru. Hyd yma, mae hyn wedi galluogi Llywodraeth Cymru i ymateb yn gyflym i faterion a godwyd yng nghyswllt rhoi trethi datganoledig ar waith, fel y Dreth Gwarediadau Tirlenwi.

199. Wrth fwrw ymlaen â datblygu polisïau yng nghyswllt opsiynau i ariannu a darparu gofal cymdeithasol yn y dyfodol, mae rhaglen waith y Grŵp Rhyngweinidogol wedi nodi bod ystyriaethau ymarferol sy'n ymwneud â chasglu, gweinyddu, dosbarthu a gweithredu anghenion yn hanfodol i werthusiad cyffredinol unrhyw gynnig. Mae Awdurdod Cyllid Cymru yn bartner allweddol yn cefnogi'r broses o ddatblygu gwybodaeth a gallu yn y maes hwn, ac mae'n gweithio gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau bod unrhyw syniadau newydd ynghylch treth ar gyfer cynhyrchu arian yn cael eu hasesu'n briodol. Pan fydd cynigion polisi wedi'u datblygu'n llawn, bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio profi'r rhain â Thrysorlys ei Mawrhydi a Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi cyn ymgynghori'n fwy eang ar ganlyniad gwaith y Grŵp Rhyngweinidogol.

200. Drwy ddefnyddio'r hyn sydd wedi'i ddysgu o'r dull gweithredu llwyddiannus a ddefnyddiwyd i roi gwaith Cyfraddau Treth Incwm Cymru ar waith, mae gwaith yn bwrw ymlaen ar fapio rhanddeiliad. Bydd yr ymarfer hwn yn helpu i ganfod a chael gwybodaeth am amrywiaeth y rhanddeiliaid sydd â diddordeb yn yr agenda hon, a natur eu diddordeb a'u hanghenion penodol, er mwyn gallu dylunio a darparu gwasanaethau cyfathrebu ac ymgysylltu yn briodol yn y dyfodol.

201. Bydd y dull tryloyw o ddatblygu polisi trethi ac ymgysylltu'n ehangach yn parhau i gefnogi Llywodraeth Cymru i baratoi'r achos dros ddatganoli cyllidol arall. Wrth i ni wneud cynnydd yng nghyswllt trafodaethau am ddatganoli neu sefydlu trethi eraill yng Nghymru, bydd ymgysylltu yn sicrhau bod trefniadau gweithredu a gweinyddol yn gyson â'n hegwyddorion y dylai trethi fod yn glir, yn sefydlog ac yn gyson.

## C2. Ymgysylltu â'r cyhoedd

"Byddwn yn ehangu'r gynulleidfa er mwyn ymgysylltu ar faterion trethu, gan hyrwyddo achos cadarnhaol dros drethu drwy dynnu sylw at y cysylltiad rhwng trethi a'r gwariant ar wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

i. Ymgysylltu â rhanddeiliaid a chyfathrebu â nhw er mwyn gwella dealltwriaeth o'n dull gweithredu yng nghyswllt trethu yng Nghymru, ac er mwyn ein galluogi ni i ddatblygu polisi trethi drwy gydweithio a chymryd rhan.
ii. Datblygu naratif yng nghyswllt trethi a gwariant, sy'n taro tant â rhanddeiliaid a dinasyddion yn ehangach, er mwyn i ni allu meithrin gwybodaeth ac ymwybyddiaeth o drethi Cymru ledled y wlad drwy hyn."

**Cefndir**

202. Ym mis Ebrill 2018, cyflwynodd Llywodraeth Cymru y Dreth Trafodiadau Tir a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi a dechreuodd Awdurdod Cyllid Cymru gasglu a rheoli'r trethi. Cyn hynny, cynhaliwyd rhaglen gynhwysfawr o ymgysylltu a chyfathrebu, er mwyn cael llwyfan i randdeiliaid allweddol a darpar gwsmeriaid Awdurdod Cyllid Cymru gael bod yn rhan o'r gwaith o ddatblygu polisi trethi, gan gynnwys ymgynghoriadau cyhoeddus ar bob un o'r trethi ac ar y trefniadau casglu a rheoli.

203. Ar ôl cyflwyno'r Dreth Trafodiadau Tir a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi, dechreuodd Trysorlys Cymru ac Awdurdod Cyllid Cymru gydweithio ar ymgysylltu â rhanddeiliaid a chyfathrebu, wrth i'r pwyslais symud tuag at yr ochr weithredol o gasglu a rheoli. Mae cysondeb ac eglurder y neges wedi bod yn ganolbwynt i'r gwaith partneriaeth hwn, ac mae wedi sicrhau bod y naratif cyffredinol ynghylch trethi yng Nghymru yn gydnaws ac yn cael ei ehangu drwy weithgareddau ar wahân ac ar y cyd.

204. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae Awdurdod Cyllid Cymru wedi canolbwyntio ar weithio gyda chyfreithwyr a throsgludiaethwyr yng Nghymru a Lloegr, i'w cefnogi i ffeilio a thalu Treth Trafodiadau Tir. Mae digwyddiadau wedi cael eu cynnal drwy gydol y flwyddyn, gan gynnwys Fforymau Treth yng Nghonwy, Caerdydd, Casnewydd, Bangor ac Aberystwyth, gyda dros 100 o bobl yn mynychu. Mae'r rhain wedi codi ymwybyddiaeth o wasanaethau ac wedi darparu hyfforddiant technegol i gyfreithwyr a throsgludiaethwyr ledled Cymru. Mae Awdurdod Cyllid Cymru wedi cyflwyno naw gweminar, sydd wedi denu dros 700 o danysgrifwyr, ac wedi darparu hyfforddiant ar sut mae ffeilio cyfradd uwch y Dreth Trafodiadau Tir. Er mwyn ehangu'r cyrhaeddiad, mae Awdurdod Cyllid Cymru wedi datblygu a rhannu fideos ar y cyfryngau cymdeithasol ynghylch y Gyfradd Uwch. Hefyd, mae gwybodaeth ddefnyddiol, fel diweddariadau i ganllawiau, wedi cael eu rhannu'n rheolaidd ar sianeli cyfryngau cymdeithasol Awdurdod Cyllid Cymru.

205. Mae cysylltiadau â rhanddeiliaid wedi'u datblygu â nifer o ganghennau lleol Cymdeithas y Cyfreithwyr yng Nghymru, ac mae hyfforddiant wedi'i ddarparu yn eu digwyddiadau yng Nghaerfyrddin, Caerdydd, Caer ac Abertawe. Er mwyn cefnogi hyn, mae Awdurdod Cyllid Cymru wedi rhannu gwybodaeth yn y Law Society Gazette ac mewn cyhoeddiadau eraill. Mae Awdurdod Cyllid Cymru yn bwriadu parhau â'r rhaglen hyfforddi hon drwy nifer o sianeli, a bydd ei ddata a'r ymgysylltiad â defnyddwyr yn sail i hyn. Bydd gweithgareddau cyfathrebu yn cefnogi'r gwaith hwn, drwy ddefnyddio gwahanol sianeli i helpu cyfreithwyr a throsgludiaethwyr i ffeilio'r Dreth Trafodiadau Tir ar yr adeg iawn. Bydd gweithgareddau yn parhau i ganolbwyntio ar weithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill.

206. Roedd cyflwyno Cyfraddau Treth Incwm Cymru, y cytunwyd arnynt â Llywodraeth y DU fel rhan o fframwaith cyllidol Llywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2016, yn rhan o'r cefndir ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid. Roedd datganoli Treth Incwm yn rhannol yn nodi'r pwynt pan fyddai datganoli cyllidol yn cael effaith ar y gynulleidfa fwyaf - 1.34m o drethdalwyr yn byw yng Nghymru. Yn 2016, roedd maniffesto Llafur Cymru yn ymrwymo i beidio â chynyddu Treth Incwm yn ystod tymor nesaf y Cynulliad Cenedlaethol (Mai 2016 - Mai 2021).

207. Mae partneriaid a rhanddeiliaid yn cydnabod yn eang fod cyfathrebu ynghylch datganoli Treth Incwm yn rhannol yn her sylweddol, yn arbennig yng nghanol cyd-destun cymhleth a newidiol datganoli cyllidol. Mae datganoli wedi arwain at newid i drethiant ar lefel leol a chenedlaethol yn ddiweddar, gyda'r newid i gyfrifoldebau cyllidol dros ardrethi annomestig, sefydlu awdurdod casglu trethi newydd i Gymru a dwy dreth ddatganoledig. Ond, nid oedd cyflwyno Cyfraddau Treth Incwm Cymru yn golygu unrhyw newid i drethdalwyr yng Nghymru, ac ni chafwyd unrhyw ‘alwad i weithredu' i'w ddefnyddio fel neges. Byddai Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn parhau i gasglu Cyfraddau Treth Incwm Cymru ac ni fyddai'r cyfraddau na'r bandiau yn newid.

208. Byddai ymgysylltu a chydweithredu cadarn â Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi a Llywodraeth y DU yn hanfodol i sicrhau bod Cyfraddau Treth Incwm Cymru yn trosglwyddo'n ddidrafferth. Hefyd, roedd yn bwysig cyfleu mai Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi a fyddai'n casglu Cyfraddau Treth Incwm Cymru, nid Awdurdod Cyllid Cymru. I'r diben hwn, mae gweithgareddau cyfathrebu ac ymgysylltu yn ystod y flwyddyn ar gyfer pob un o'r trethi wedi cael eu cadw ar wahân ac yn benodol, ond mae naratif cyffredinol treth yn cefnogi gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru wedi bod yn cael ei rannu.

**Tystiolaeth a dadansoddiad**

209. Gall trethiant fod yn bwnc anodd i ymgysylltu arno. Mae Llywodraeth Cymru wedi edrych ar sut mae gwledydd eraill yn mynd i'r afael â'r her o godi ymwybyddiaeth ac annog ymgysylltu â dinasyddion ar drethiant. Mae wedi defnyddio hyn i ddatblygu dull gweithredu sy'n tynnu sylw at y cysylltiadau rhwng refeniw sy'n cael ei godi gan drethi a gwariant ar wasanaethau cyhoeddus.

210. Comisiynwyd arolwg drwy Beaufort Research Limited er mwyn deall lefelau ymwybyddiaeth sylfaenol, cyn cynnal gweithgareddau cyfathrebu. Roedd yr arolwg a gynhaliwyd ym mis Mehefin 2018 yn dangos y byddai dros saith allan o ddeg o ymatebwyr Arolwg Omnibws Cymru (72 y cant) yn disgwyl y byddai'r holl arian neu'r rhan fwyaf o arian sy'n cael ei godi gan drethi yng Nghymru yn mynd tuag at wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru[36]. Roedd hyn yn cefnogi'r cysyniad o naratif yn cysylltu trethi a gwariant ar wasanaethau cyhoeddus, y byddai modd eu rhannu â Llywodraeth Cymru, llywodraeth leol ac Awdurdod Cyllid Cymru.

211. Roedd Arolwg Beaufort Research yn gyfle i fesur lefelau sylfaenol ymwybyddiaeth o gyflwyno Cyfraddau Treth Incwm Cymru. Dywedodd tua chwarter yr ymatebwyr (24 y cant) i Arolwg Omnibws Cymru eu bod yn ymwybodol y byddai Llywodraeth Cymru yn gallu pennu cyfraddau Treth Incwm gwahanol yng Nghymru o fis Ebrill 2019.

---

[36] *Dealltwriaeth y Cyhoedd o Ddatganoli Trethi: adroddiad sylfaenol*: https://llyw.cymru/dealltwriaeth-y-cyhoedd-o-ddatganoli-trethi-adroddiad-sylfaenol

212. Yn ogystal â data'r arolwg, roedd Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi a Llywodraeth yr Alban wedi rhannu'r hyn roeddent wedi'i ddysgu wrth gyfathrebu ynghylch cyflwyno Cyfraddau Treth Incwm yr Alban yn 2016. Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi oedd yn gyfrifol am reoli pob agwedd ar gyfathrebu ar gyfer cyflwyno Cyfraddau Treth Incwm yr Alban, fel rhan o'r prosiect datganoli cyffredinol.

213. Roedd sicrhau'r effaith fwyaf am y gost isaf yn amcan pwysig wrth gyfathrebu ynghylch Cyfraddau Treth Incwm Cymru. Nid oedd gofyn i drethdalwyr gymryd unrhyw gamau penodol, a oedd yn golygu na fyddai ymgyrchoedd cyfathrebu drud yn synhwyrol, a gallai fygwth amcan tymor hir dysgu ymddiriedaeth a chreu achos cadarnhaol dros drethiant. Yn hytrach, cytunwyd ar ddull gweithredu ar y cyd â Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi: byddai Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn canolbwyntio ar gyfathrebu â chwsmeriaid drwy ei sianeli ei hun, a oedd wedi'u sefydlu (er enghraifft, defnyddio bwletinau, taflenni ffeithiau a chyhoeddiadau a oedd eisoes yn bodoli, ac ymgysylltu mewn fforymau a grwpiau i randdeiliaid), a byddai Llywodraeth Cymru yn defnyddio Cyfraddau Treth Incwm Cymru i hyrwyddo naratif lefel uchel ynghylch treth a gwariant yng Nghymru, gan sicrhau bod y neges yn gydnaws â datganoli cyllidol a'r strategaeth dreth yng Nghymru.

214. Elfen bwysig o'r cydweithio hwn oedd sicrhau cytundeb â Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi i gynnwys taflen gan Lywodraeth Cymru yn y llythyr hysbysu a fyddai'n cael ei anfon at bob trethdalwr fel rhan o'r broses adnabod. Roedd defnyddio llythyr a oedd eisoes yn cael ei anfon gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn gyfle gwerth am arian rhagorol, ac roedd yn golygu bod neges Llywodraeth Cymru yn cyrraedd 2m o drethdalwyr yng Nghymru. Dyma'r tro cyntaf i Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi gytuno i gynnwys deunydd marchnata gan sefydliad arall y llywodraeth, felly mae hyn yn adlewyrchu'r gwaith partneriaeth cadarnhaol rhwng y ddau sefydliad.

215. Profwyd y negeseuon ar y daflen yn allanol â grwpiau defnyddwyr yn ystod y cam cyn cynhyrchu. Roedd y safbwyntiau a fynegwyd yn ystod y broses hon yn taflu goleuni pwysig o ran ystyr ac effaith y neges, a pharatowyd sawl fersiwn o'r daflen er mwyn adlewyrchu hyn.

216. Rhwng Hydref 2018 ac Ebrill 2019, cynhaliodd Llywodraeth Cymru bedair ymgyrch ar y cyfryngau cymdeithasol, gan gynnwys un ymgyrch gyfathrebu dau-gam a gomisiynwyd gan Working Word PR a thair ymgyrch ‘dim cost' a ddatblygwyd gan dîm cyfathrebu Trysorlys Cymru. Rhwng y cyfnodau ymgyrchu, roedd gweithgareddau cyfathrebu yn parhau ar sianeli Twitter Trysorlys Cymru / Welsh Treasury drwy gyfrwng ymgysylltu â chynnwys perthnasol a diddorol er mwyn cynnal momentwm. Roedd yr holl weithgareddau ar y cyfryngau cymdeithasol yn cael ei wneud drwy sianeli Llywodraeth Cymru ac yn cael eu hategu drwy sianeli rhanddeiliaid a phartneriaid. Roedd y gweithgareddau ychwanegol yn cynnwys:

- Postio llythyrau hysbysu a thaflenni ym mis Tachwedd;
- Sesiynau briffio i Aelodau'r Cynulliad Cenedlaethol, y Pwyllgor Cyllid a rhanddeiliaid pwysig eraill;
- Cyflwyniadau mewn cynadleddau a digwyddiadau;
- Gweithgareddau ar y cyfryngau o gwmpas y diwrnod cyflwyno, gyda'r Gweinidog Cyllid yn ymweld â disgyblion Blwyddyn 6 mewn ysgol gynradd.

217. Roedd y gweithgaredd hwn yn plethu â'r negeseuon i gwsmeriaid a anfonwyd drwy sianeli Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi a drwy ymgysylltu â grwpiau rhanddeiliaid cwsmeriaid.

218. Yn unol â'r hyn a ddysgwyd o brofiad yr Alban, trefnwyd yr ymgyrch gyfathrebu gyntaf yr un pryd â Chyllideb ddrafft yr hydref yn 2018, pan gyhoeddwyd cyfraddau Cymru. Roedd ymgyrchoedd dilynol yn canolbwyntio ar bostio llythyr hysbysu Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi, ac roedd y rhain yn para hyd at y gwanwyn 2019.

219. Paratowyd amrywiaeth o asedau digidol yn ystod y cyfnod ymgyrchu. Roedd y rhain yn cynnwys ffeithluniau, cardiau dyfynnu, fideos ac astudiaethau achos. Yn ogystal â'r negeseuon yn cysylltu treth â gwariant, roedd negeseuon ffeithiol yn cael eu cynnwys ar adegau allweddol yn yr amserlen, ar sail y prawf gyda defnyddwyr allanol. Datblygwyd amserlenni cyfryngau cymdeithasol i gydlynu'r broses o gyhoeddi cynnwys ar sianeli Llywodraeth Cymru, Trysorlys Cymru a Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi. Roedd ymgysylltu uniongyrchol â rhanddeiliaid a phartneriaid, a oedd yn cael gwybod y diweddaraf am yr amserlen ac a oedd yn gallu rhaeadru gwybodaeth yn unol â hynny, yn cefnogi'r ymdrechion cyfathrebu drwy gydol y cyfnod ymgyrchu. Bu llawer o gydweithio â Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi ar lefel ymgysylltu, oherwydd roedd ei ymgysylltiad yn mynd y tu hwnt i Gymru yn unig. Felly roedd modd targedu trethdalwyr Cymru yn Lloegr ac egluro'r sefyllfa i'r rhai a oedd yn agos at y ffin.

220. Amcan arall y gweithgareddau cyfathrebu ar gyfer Cyfraddau Treth Incwm Cymru oedd hyrwyddo gwasanaeth iaith Gymraeg Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi a dangos rhagoriaeth wrth gyfathrebu yn y Gymraeg. Mae bodloni gofynion cyfathrebu siaradwyr Cymraeg yn flaenoriaeth uchel i Drysorlys Cymru. Roedd cynnwys naill ai'n Gymraeg yn wreiddiol neu'n cael ei ddehongli'n greadigol er mwyn ennyn diddordeb siaradwyr Cymraeg. Dewiswyd astudiaethau achos yn ofalus, er mwyn iddynt daro tant â siaradwyr Cymraeg a Saesneg fel ei gilydd, a bu tîm cyfathrebu Trysorlys Cymru yn gweithio'n agos â Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn cefnogi ac yn ehangu ei weithgareddau Cymraeg.

221. Yn ôl gwerthusiad o weithgareddau Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi, gwelwyd cynnydd o 377 o ddefnyddwyr ar gyfer ei wasanaethau Cymraeg. Mae perfformiad yr astudiaethau achos Cymraeg yn nodedig hefyd, gydag un yn cael ei wylio 3.5K yn fwy na'r fideo Saesneg.

222. Drwy werthuso pob ymgyrch fach yn ystod y cyfnod ymgyrchu, roeddem yn gallu pwyso a mesur a dysgu ar ôl pob cam. Roedd hyn yn cynnwys adnoddau ar gyfer ennyn diddordeb dylanwadwyr ar sianeli cyfryngau cymdeithasol rhwng cam cyntaf ac ail gam yr ymgyrch cysylltiadau cyhoeddus, a oedd yn dangos bod rhai cynulleidfaoedd yn ymgysylltu mwy, er enghraifft Aelodau'r Cynulliad Cenedlaethol. Roedd yn sail ar gyfer amseru'r gyfres o astudiaethau achos dwyieithog, a ddatblygwyd i ddangos effaith y rhai sy'n gweithio mewn gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Yn ôl gwerthusiad o'r ymgyrch, roedd yr astudiaethau achos hyn yn arwyddocaol wrth newid y farn am ymgysylltu o 12 y cant cadarnhaol i 79 y cant cadarnhaol rhwng Mawrth ac Ebrill 2019 - ychydig cyn cyflwyno'r newidiadau [37].

## Y canlyniadau a'r camau nesaf

223. Un o amcanion pwysig yr ymgyrch gyfathrebu ar y cyd oedd codi ymwybyddiaeth o'r ffaith y byddai Llywodraeth Cymru yn gallu pennu gwahanol gyfraddau Treth Incwm o

[37] Roedd 27 y cant o safbwyntiau negyddol ynghylch yr ymgyrch yn ystod cam cyntaf y gweithgareddau (4-18 Mawrth) o'i gymharu â 12 y cant o safbwyntiau cadarnhaol a 62 y cant o safbwyntiau niwtral. Yn ystod yr ail gam (9-26 Ebrill) roedd newid sylweddol yn y safbwyntiau, gyda 79 y cant yn gadarnhaol, 21 y cant yn niwtral a 0 y cant yn negyddol.

6 Ebrill 2019 ymlaen. Mesurwyd hyn yn ôl canlyniad yr arolwg sylfaenol ym mis Mehefin 2018, gydag arolygon dilynol ym mis Mawrth 2019 a mis Mehefin 2019[38]. Bydd canfyddiadau'r arolygon mwy diweddar yn cael eu cyhoeddi yn gynnar yn 2020.

224. Ceir tystiolaeth o'r gwaith o werthuso'r holl weithgareddau cyfathrebu fod cyrhaeddiad y gwaith cyfathrebu wedi bod yn eang ar draws y sianeli cyfryngau cymdeithasol, ac wedi rhagori ar y disgwyliadau. Roedd perfformiad ar dudalen Facebook Llywodraeth Cymru yn arbennig - roedd wedi rhagori ar y targedau 162 y cant. Cafwyd mwy o sylwadau a phobl yn cysylltu yn sgil negeseuon ar Facebook na Twitter, gyda rhai pobl yn manteisio ar y cyfle i fynegi pryderon ynghylch cyllid. Ar y llwyfan hwn y cafwyd y nifer fwyaf o gwestiynau ynghylch trethi a gwariant hefyd, ac atebwyd pob un ohonynt.

225. Canlyniad pwysig oedd y cydweithio amlwg rhwng sefydliadau, rhanddeiliaid a phartneriaid, gan arwain at gynyddu cyrhaeddiad ac effaith yr holl gyfathrebu, ac yn arbennig yr ymgyrchoedd ‘dim cost'. Ffurfiwyd ffyrdd newydd o weithio gyda Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi a'r Cynulliad Cenedlaethol, sydd wedi arwain y ffordd ar gyfer rhagor o gydweithio ers hynny.

226. Yn ystod y cyfnod o saith mis o weithgareddau cyfathrebu (rhwng Hydref 2018 ac Ebrill 2019), cynyddodd nifer y dilynwyr ar sianeli Twitter Welsh Treasury a Thrysorlys Cymru 23 y cant ac 19 y cant yn y drefn honno. Nid oes llawer o wahaniaeth rhwng y cynnydd ar y sianeli Cymraeg a Saesneg, diolch i'r pwyslais parhaus y mae Trysorlys Cymru yn ei roi ar gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg.

227. Yn yr adroddiad *Datganoli Cyllidol yng Nghymru: trethi datganoledig a Chyfraddau Treth Incwm Cymru* (Rhagfyr 2018), canfu Swyddfa Archwilio Cymru fod Llywodraeth Cymru a Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn cydweithio'n dda wrth gyfathrebu'n effeithiol â'r cyhoedd ynghylch Cyfraddau Treth Incwm Cymru. Roeddent hefyd yn dweud bod y gweithgareddau cyfathrebu ac ymgysylltu yn "glir ac yn gymesur" ac yn "gydbwysedd priodol rhwng gweithgareddau a chost".

228. Mae'r camau nesaf ar gyfer cyfathrebu ac ymgysylltu yn canolbwyntio ar edrych ar naratif treth a gwariant, fel y cyflëir ym mhrif ddigwyddiadau cyllidol Llywodraeth Cymru, yn arbennig cyllideb ddrafft yr hydref. Mae deall y ffordd orau i ddangos yr effaith y mae arian sy'n cael ei wario yng Nghymru yn ei chael ar bobl yng Nghymru yn greiddiol wrth hyrwyddo achos cadarnhaol dros drethi. Mae pwyso a mesur a dysgu o gyfathrebu Cyfraddau Treth Incwm Cymru wedi bod yn allweddol wrth i ni ddatblygu ein dull gweithredu:

- Byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar gynhyrchion digidol sy'n cael eu cynhyrchu'n ‘fewnol';
- Byddwn yn parhau i gefnogi cyfathrebu drwy ymgysylltu'n strategol â phartneriaid a rhanddeiliaid i raeadru ac ategu ein negeseuon.

229. Byddwn yn defnyddio prosesau mapio a dadansoddi rhanddeiliaid er mwyn deall yr ymdrechion ymgysylltu yn well wrth edrych yn fanwl ar drethi newydd. Byddwn yn ceisio sicrhau'r effaith fwyaf bosibl drwy gyfathrebu a sicrhau tryloywder drwy gydweithio ac ymgysylltu.

---

[38] Cwestiwn Beaufort Research Ltd: A ydych chi'n ymwybodol o'r ffaith y bydd Llywodraeth Cymru yn gallu gosod cyfraddau treth incwm gwahanol yng Nghymru o 6 Ebrill 2019? *Dealltwriaeth y Cyhoedd o Ddatganoli Trethi: adroddiad sylfaenol*:
https://llyw.cymru/dealltwriaeth-y-cyhoedd-o-ddatganoli-trethi-adroddiad-sylfaenol

## C3. Meithrin gallu yng nghyswllt treth yng Nghymru

"Byddwn yn datblygu cynllun tymor hir i feithrin gallu a chapasiti yng Nghymru yng nghyswllt polisi a gweinyddu trethi ar draws y sectorau cyhoeddus a phreifat, gan ganolbwyntio ar gysylltiadau a thrafodaethau sy'n seiliedig ar wybodaeth."

### Cefndir

230. Wrth i ni ddatblygu dull o weithredu mesurau trethu yng Nghymru, rydym eisiau cael ymgysylltiad eang â rhanddeiliaid yn gynnar yn y broses o greu polisi trethi. Mae'r rhain yn cynnwys trethdalwyr, arbenigwyr a chynrychiolwyr y diwydiant. Bydd hyn yn arwain at bolisi trethi mwy cadarn a haws i ddeall.

### Tystiolaeth a dadansoddiad

*Rhagolygon treth*

231. Cynhyrchodd Llywodraeth Cymru ei rhagolygon treth ei hun ar gyfer Cyllidebau 2018-19 a 2019-20. Fe graffodd Ysgol Busnes Bangor yn annibynnol ar y rhagolygon hyn, gydag adroddiadau'n cael eu cyhoeddi ochr yn ochr â Chyllidebau drafft a rhai terfynol.

*Dadansoddi Cyllid Cymru (WFA)*

232. Rydym yn darparu cyllid i gefnogi gwaith Dadansoddi Cyllid Cymru sydd wedi'i leoli ym Mhrifysgol Caerdydd. Ers Cyllideb Ddrafft ddiwethaf Llywodraeth Cymru, mae Dadansoddi Cyllid Cymru wedi cyhoeddi pum adroddiad ar wahanol agweddau o gyllid cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys dadansoddi refeniw pob sector cyhoeddus yng Nghymru yn ei adroddiad *Government Expenditure and Revenue Wales 2019* [39]. Mae Dadansoddi Cyllid Cymru hefyd wedi cyhoeddi pedwar o bapurau briffio yn dadansoddi digwyddiadau cyllidol Llywodraeth Cymru a'r DU yn ogystal â diweddariad o ddadansoddiad sail Treth Incwm Cymru. Mae Dadansoddi Cyllid Cymru wedi cynnal pum digwyddiad cyhoeddus ac wedi cyflwyno ei ymchwil i amrywiol gynulleidfaoedd, yn cynnwys cynadleddau pleidiau gwleidyddol, cynrychiolwyr awdurdodau lleol a phwyllgorau'r Cynulliad Cenedlaethol.

*Awdurdod Cyllid Cymru*

233. Yn ystod 2018-19, mae Awdurdod Cyllid Cymru wedi gweithio gyda chyfreithwyr a throsgludiaethwyr yng Nghymru a Lloegr i'w cefnogi i ffeilio a thalu'r Dreth Trafodiadau Tir (ceir rhagor o wybodaeth yn adran C2 Ymgysylltu â'r cyhoedd, paragraff 192).

### Y canlyniadau a'r camau nesaf

*Rhagolygon treth*

234. Bydd y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (OBR) yn rhoi rhagolygon treth i Gymru ar gyfer blynyddoedd yn y dyfodol. Bydd y trefniadau newydd hyn yn rhoi rhagolygon refeniw trethi i Gyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2020-21 a'r tu hwnt. Bydd y trefniant

[39] https://www.cardiff.ac.uk/__data/assets/pdf_file/0004/1540498/Government-Expenditure-and-Revenue-Wales-2019.pdf

newydd hwn yn cynhyrchu rhagolygon o safon uchel, a fydd yn rhoi sylfaen gadarn i elfen gyllido Cyllideb Llywodraeth Cymru.

235. Mae'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol wedi dod yn fwy amlwg yng Nghymru drwy ymgysylltu'n fwy sylweddol gyda sefydliadau ac unigolion â diddordeb, yn cynnwys Pwyllgorau Cyllid y Cynulliad Cenedlaethol, a bydd yn parhau i wneud hynny.

236. Bydd Awdurdod Cyllid Cymru yn parhau â'i raglen o hyfforddi drwy nifer o sianeli a bydd yn cael ei hysbysu drwy gyfrwng ymgysylltu â'r defnyddwyr a data Awdurdod Cyllid Cymru.

## C4. Ymateb i newidiadau yng Nghyllideb Llywodraeth y DU

"Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth y DU a Chynulliad Cenedlaethol Cymru i sicrhau bod polisi trethi yn y DU, a phenderfyniadau treth ynghylch yr hyn sy'n cyfateb i drethi datganoledig, yn ddealladwy ac yn cael eu rheoli'n effeithiol yng Nghymru."

**Cefndir**

237. Fel arfer mae gan Lywodraeth y DU Gyllideb o leiaf unwaith y flwyddyn. Mae'r gyllideb yn cynnwys Mesur Cyllid, sy'n gosod cyfraddau ar y trethi hynny sy'n cael eu gosod yn flynyddol a'r rhai sy'n newid. Yn ogystal, mae'r Mesur Cyllid yn gwneud newidiadau i'r ddeddfwriaeth ar gyfer trethi sydd eisoes yn bodoli, neu fel eithriad, yn cyflwyno trethi newydd.

238. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae newidiadau sylweddol wedi cael eu gwneud i fersiynau'r trethi datganoledig yn y DU, ond dim ers mis Ebrill 2018 pan ddaeth y trethi datganoledig ar waith yng Nghymru. Mae newidiadau o'r fath yn cynnwys cyflwyno cyfraddau uwch ar gyfer anheddau preswyl ychwanegol a gyflwynwyd ym mis Ebrill 2016 (ar ôl y cyhoeddiad yn Natganiad yr Hydref 2015), a'r rhyddhad i brynwyr tro cyntaf a gyflwynwyd yng Nghyllideb Hydref 2017.

239. Mae canlyniadau o ran newidiadau yng Nghyllideb y DU sy'n cynyddu neu'n lleihau Treth Dir y Dreth Stamp neu ymdrech y Dreth Dirlenwi yn cael effaith ar addasiad y grant bloc. Os bydd trethi'r DU yn gwneud gwell ymdrech, yna bydd yr addasiad grant bloc yn cynyddu a'r arian fydd ar gael i Lywodraeth Cymru yn lleihau. Os bydd trethi'r DU yn gwneud llai o ymdrech, yna bydd yr addasiad grant bloc yn lleihau a bydd gan Lywodraeth Cymru fwy o adnoddau.

240. Fodd bynnag, efallai y bydd Llywodraeth Cymru yn dymuno ymateb er mwyn gwarchod refeniw Cymru ac felly'r gwariant ar wasanaethau cyhoeddus, neu er mwyn gwneud gostyngiadau treth i drethdalwyr Cymru. Gellir ymateb drwy atgynhyrchu mesurau'r DU yn ofalus neu ddefnyddio mesurau amgen mwy penodol i Gymru, lle byddai hynny'n fwy priodol neu'n diwallu blaenoriaethau Llywodraeth Cymru yn well.

241. Ar hyn o bryd mae gan Ddeddf Trethi Cymru nifer o bwerau i wneud rheoliadau sy'n galluogi gwneud newidiadau i rai agweddau o'r polisi trethi datganoledig. Mae enghreifftiau o Dreth Trafodiadau Tir yn cynnwys pwerau i addasu'r rheolau ynglŷn â chyfraddau uwch, y rheolau partneriaeth a'r pwerau i greu, addasu, neu gael gwared â'r rhyddhad treth. Gall Gweinidogion Cymru hefyd osod cyfraddau treth (a'r bandiau ar gyfer Treth Trafodiadau Tir) drwy reoliadau sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol dros dro.

242. Er gwaetha'r pwerau hyn, fe fydd adegau pan na ellir dod â'r newidiadau angenrheidiol i rym drwy gyfrwng pwerau gwneud rheoliadau yn unig. Er enghraifft, byddai cyflwyno cyfradd Treth Dir y Dreth Stamp uwch i anheddau preswyl ychwanegol yn gofyn i ddeddfwriaeth sylfaenol gael ei chyflwyno (fodd bynnag, cafodd y rheolau, a addaswyd, eu cyflwyno yng ngham 2 pasio Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) drwy'r Cynulliad Cenedlaethol).

243. Yn fwy cyffredinol, mae newidiadau o ran dehongli a defnyddio cyfraith trethi'r DU, boed hynny drwy Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi neu o ganlyniad i benderfyniadau yn y Llysoedd yn gallu cael effaith ar sut mae trethi datganoledig Cymru'n yn cael eu rhoi

ar waith Mae'n bwysig felly glynu'n agos at ddatblygiad trethi'r DU, a bod yr effeithiau ar y trethi datganoledig cyfatebol yn cael eu hystyried yn ofalus, er mwyn i Lywodraeth Cymru allu ymateb yn unol â hynny.

**Tystiolaeth a dadansoddiad**

244. Hyd yma dim ond un gyllideb sydd wedi bod ers i'r trethi datganoledig ddod ar waith ym mis Ebrill 2018 (Cyllideb yr Hydref 2018/Deddf Cyllid 2019). Adolygodd Awdurdod Cyllid Cymru a Thrysorlys Cymru y newidiadau a wnaed i drethi perthnasol y DU a dod i'r casgliad nad oedd angen ymateb i unrhyw newidiadau.

245. Mae Trysorlys Cymru wedi dadansoddi Cyllidebau'r DU dros nifer o flynyddoedd ac wedi cydnabod bod amryw o amgylchiadau lle mae gallu Gweinidogion Cymru i wneud newidiadau i drethi datganoledig yn gyflym yn bwysig. Rhoddwyd ystyriaeth i adegau eraill lle byddai angen gwneud newidiadau cyflym:

i. Rhoi terfyn ar unwaith ar gynllun osgoi er mwyn lleihau'r perygl i'r refeniw;

ii. Yn dilyn gadael yr UE, byddai'n bosibl i gytundebau masnach newydd gynnwys newidiadau dwyochrog a allai gael effaith ar weithredu trethi Cymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn glir ynglŷn â'r ffaith y dylem ni gynnal trafodaethau cynnar ar faterion masnachu, er mwyn sicrhau bod yr holl oblygiadau wrth i'r DU ymrwymo i gytundebau masnach (yn cynnwys yr effaith ar weinyddiaethau datganoledig) yn cael eu hystyried yn ofalus, a bod y gweinyddiaethau datganoledig yn rhan o'r broses o gytuno ar leoliadau lle mae gweithredu wedi'i ddatganoli. Yng nghyd-destun cytundebau masnach newydd, efallai bydd gofyn i Lywodraeth Cymru ymateb yn gyflym i rwymedigaethau mewnol newydd, yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 2006;

iii. Ymateb i newidiadau a wneir yng Nghyllideb y DU a allai arwain at ‘ymdrech trethi' gwell neu waeth, gan effeithio ar yr addasiad grant bloc, yn enwedig mewn perthynas â Threth Dir y Dreth Stamp.

246. Bu cyfarfod rhwng swyddogion Trysorlys Cymru, Trysorlys ei Mawrhydi a swyddogion Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi er mwyn edrych ar lwybrau i greu perthnasoedd cydweithredol mewn perthynas â newidiadau yng Nghyllideb y DU. Roedd y trafodaethau hynny'n rhai buddiol ac yn help i gael sail ar gyfer opsiynau posibl i ddelio â'r angen i wneud newidiadau cyflym i Ddeddfau Trethi Cymru.

247. Mae Awdurdod Cyllid Cymru yn ymgysylltu â chymheiriaid Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi a Revenue Scotland er mwyn trafod materion polisi newydd ynghylch defnyddio trethi datganoledig y DU neu gyfatebol. Mae hynny yn arbennig o bwysig lle mae darpariaethau cyfatebol uniongyrchol mewn trethi cyfatebol. Mae'r ymgysylltu'n gosod sail i ddatblygu polisi Awdurdod Cyllid Cymru ac yn ei galluogi i gefnogi a dylanwadu ar syniadau polisi trethi'r DU.

**Y canlyniadau a'r camau nesaf**

248. Mae cynigion i ymateb i newidiadau yng Nghyllideb y DU wedi cael eu cwmpasu ac mae Trysorlys Cymru'n dechrau rhaglen o weithgarwch ymgysylltu anffurfiol gyda rhanddeiliaid. Bydd yr ymgysylltu'n helpu i ganfod materion â chynigion mae Llywodraeth Cymru yn eu ffafrio o ran sut bydd yn diwallu anghenion wrth ymateb yn

gyflym i newid, a siapio hynny. Yn enwedig pan fo hynny'n cael effaith ar y refeniw sydd ar gael i Lywodraeth Cymru ei wario ar wasanaethau cyhoeddus.

249. Mae perthnasoedd cadarnhaol wedi cael eu datblygu gyda chyrff y trysorlys ac awdurdodau treth eraill yn y DU, gan Awdurdod Cyllid Cymru a Thrysorlys Cymru. Bydd gwaith yn parhau i feithrin a gwella'r perthnasoedd hyn ymhellach. Er enghraifft, mae swyddogion Trysorlys Cymru'n mynychu Gweithgor Deddfwriaeth ar Drethi Datganoledig Llywodraeth yr Alban. Bydd swyddogion Awdurdod Cyllid Cymru'n parhau i ymgysylltu â'u cymheiriaid yn y DU a'r Alban ynghylch y trethi datganoledig er mwyn rhannu'r gwersi a ddysgwyd ac i roi sail i ddatblygu syniadau polisi a syniadau gweithredol.

## C5. Rhannu arferion da yng nghyswllt trethi

"Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth y DU a gweinyddiaethau datganoledig eraill, yn ogystal â phartneriaid rhyngwladol, i rannu arferion da, i gydweithio i roi sylw i heriau a rennir ac i hyrwyddo ein hegwyddorion ar gyfer polisi trethi a'n dull gweithredu strategol o ddatblygu polisi trethi."

### Cefndir

250. Roedd Fframwaith Polisi Trethi Llywodraeth Cymru 2017 yn gosod yr egwyddorion mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo iddynt mewn perthynas â datblygu polisi trethi. Rydym wedi ymrwymo o hyd i'r egwyddorion hyn, sy'n cynnwys dull rhagweithiol a thryloyw o weithredu o ran cydweithio a chymryd rhan.

### Tystiolaeth a dadansoddiad

251. Adlewyrchir nodwedd bwysig o ran yr ymrwymiad hwn yn ein gwaith â Thrysorlys Ei Mawrhydi a Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi, ynghyd â Llywodraeth yr Alban a swyddogion o Wasanaeth Sifil Gogledd Iwerddon, yn ogystal â'n dull gweithredu wrth feithrin perthnasoedd strategol newydd gyda'r gymuned arbenigol ar gyfer treth, busnesau a sefydliadau eraill, a phartneriaid a llywodraethau rhyngwladol. Mae'r broses o ddatblygu polisi trethi wedi parhau i elwa ar arbenigedd y Grŵp Cynghori ar Drethi, a gaiff ei gadeirio gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, a grwpiau cyfeirio a sefydlwyd i gefnogi ein rhaglenni polisi penodol, fel y Grŵp Cyfeirio Treth ar Dir Gwag.

252. Roedd cyflwyno Cyfraddau Treth Incwm Cymru yn llwyddiannus ym mis Ebrill 2019 yn dangos eto sut gall Trysorlys Cymru a Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi weithio mewn partneriaeth i gyflawni nodau cyffredin. Roedd prosiect gweithredu Cyfraddau Treth Incwm Cymru yn rhoi cyfle i rannu arferion da ar gyfathrebu ac ymgysylltu, a oedd yn sail i ddyluniad dull gweithredu Trysorlys Cymru ar gyfer codi ymwybyddiaeth o gyflwyno Cyfraddau Treth Incwm Cymru â dros 2m o gwsmeriaid sy'n drethdalwyr yng Nghymru.

253. Mae rhaglen newydd trethi Cymru - datblygu'r dystiolaeth a'r egwyddorion polisi i fod yn sail i benderfyniadau Gweinidogion yn y dyfodol ynghylch talu am ofal cymdeithasol a mesurau treth newydd posibl yng nghyswllt tir gwag, plastigion untro a thwristiaeth - yn seiliedig ar dystiolaeth o enghreifftiau rhyngwladol yn y meysydd penodol.

254. Cynhaliodd Awdurdod Cyllid Cymru Fforwm Trethi Ynysoedd Prydain ym mis Mai 2019. Mae hyn yn cynnwys uwch swyddogion ac aelodau bwrdd o awdurdodau treth Cymru, yr Alban, Lloegr, Gogledd Iwerddon, Ynys Manaw, Jersey a Guernsey. Mae'n cwrdd ddwywaith y flwyddyn i drafod arferion gorau a rhannu gwybodaeth strategol. Mae gan y fforwm rôl bwysig i'w chwarae o ran galluogi gweithio'n agosach ar lefel weithredol a pholisi ar draws yr awdurdodau treth.

255. Mae datganoli cyllidol wedi arwain at gyfleoedd newydd i gydweithio gyda phartneriaid rhyngwladol, ac rydym wedi gallu manteisio ar hyn. Er enghraifft, fel rhan o'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng llywodraethau Cymru a Gwlad y Basg, rydym yn rhannu gwybodaeth am ddulliau gweithredu yng nghyswllt polisi trethi, ac yn rhannu arferion da ac yn gweithio ar y cyd i roi sylw i heriau cyffredin a chyfleoedd treth. Rydym wedi ymestyn yn ehangach drwy gyfwng gweinyddiaethau a phartneriaid tramor, fel y

Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd, i helpu i gael sail ar gyfer y rhaglen drethi newydd.

**Y canlyniadau a'r camau nesaf**

256. Rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol yn ystod 2019 o ran meithrin partneriaethau newydd i hyrwyddo ein hagenda ar dreth a'n ffyrdd o weithio. Rydym hefyd wedi elwa ar wybodaeth gan Grŵp Cynghori ar Dreth y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, ac wedi bod yn gweithio'n effeithiol gyda Llywodraeth y DU i roi Cyfraddau Treth Incwm Cymru ar waith a chefnogi blaenoriaethau treth newydd. Byddwn yn parhau i ddatblygu ein dull gweithredu o ran rhannu arferion da i helpu i ddatblygu polisi trethi Cymru a'i gallu i reoli trethi.

# Atodiad un: Gwerthuso rhagolygon Treth Trafodiadau Tir a Threth Gwarediadau Tirlenwi

## Cyflwyniad

A1. Paratôdd Llywodraeth Cymru ragolygon refeniw ar gyfer y Dreth Trafodiadau Tir a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi ar gyfer cyllideb derfynol 2018-19, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2017, a chyllideb derfynol 2019-20 a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2018. Sicrhawyd y rhagolygon hyn gan Ysgol Busnes Bangor[40].

A2. Mae gwybodaeth am alldro refeniw sy'n berthnasol i 2018-19 nawr ar gael ar gyfer y Dreth Trafodiadau Tir a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi. Gellir gwerthuso'r rhagolygon ar gyfer 2018-19 drwy ddefnyddio'r wybodaeth hon.

## Yr hyn sy'n cyfyngu ar ragolygon

A3. Mae rhagolygon yn cynnwys amcangyfrif rhywbeth sy'n ansicr: sut bydd refeniw trethi yn newid yn y dyfodol. Felly, nid yw'n annisgwyl i alldro refeniw fod yn wahanol i'r rhagolygon.

A4. Nid yw rhagolygon sy'n wahanol i'r alldro'n cael eu disgrifio fel 'gwallau' yma, yn unol â dull gweithredu'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol. Cyfeirir atynt fel 'gwahaniaethau'. Mae hyn oherwydd eu bod yn anochel i raddau helaeth, wrth ystyried yr wybodaeth sydd ar gael adeg y rhagolwg. Mae hyn yn wahanol i wallau gwirioneddol a all ddigwydd mewn model rhagamcanu. Mae'n bwysig nodi'r gwahaniaeth hwn wrth werthuso rhagolygon.

A5. Mae'r modelau rhagamcanu a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru wedi bod drwy gyfres o brosesau sicrhau ansawdd, ac maen Ysgol Busnes Bangor wedi craffu ar hynny hefyd[41]. Dylai'r broses sicrhau ansawdd leihau'r risg o wallau modelu a sicrhau bod y tybiaethau a'r safbwyntiau a ddefnyddiwyd yn rhesymol ac yn seiliedig ar yr wybodaeth orau a oedd ar gael ar y pryd.

A6. Oherwydd bod disgwyl i ragolygon fod yn wahanol i alldro, mae'n bwysig bod y gwahaniaethau hyn yn cael eu dadansoddi er mwyn tynnu sylw at ansicrwydd penodol neu ragdybiaethau anghywir a ddefnyddiwyd.

---

[40] Gan ddechrau â chyllideb derfynol 2020-21, mae'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn gyfrifol am baratoi rhagolygon annibynnol ar gyfer refeniw treth datganoledig i gyd-fynd a chyllidebau Llywodraeth Cymru, a bydd yn darparu gwerthusiadau ar gyfer y rhagolygon hyn.
Cyflwynwyd Cyfraddau Treth Incwm Cymru ar 6 Ebrill 2019. Bydd Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn cyhoeddi'r alldro ar gyfer blwyddyn gyntaf Cyfraddau Treth Incwm Cymru (2019-2020) yn 2021.
[41] I gael rhagor o fanylion, ewch i:
https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-12/diweddariad-i-adroddiad-terfynol-mis-hydref.pdf

## Treth Trafodiadau Tir

### Crynodeb o'r alldro a'r rhagolygon

A7. £227.8m oedd yr alldro blynyddol ar gyfer y Dreth Trafodiadau Tir yn 2018-19, fel y cyhoeddwyd yng nghyfrifon cyhoeddus Awdurdod Cyllid Cymru[42].

A8. Paratowyd rhagolygon ar gyfer y cyllidebau Drafft a Therfynol bob blwyddyn. Gan mai rhagolygon y gyllideb derfynol - Rhagfyr 2017 a Rhagfyr 2018 - sy'n cael eu defnyddio yn y pen draw i bennu cyllideb Llywodraeth Cymru bob blwyddyn, mae'r rhagolygon hyn wedi'u gwerthuso yma.

A9. Roedd yr alldro £22.2m yn is na rhagolwg Llywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2017 (£250.0m) ac £11.6m yn is na'r rhagolwg ym mis Rhagfyr 2018 (£239.4m). Mae'r cynnydd hwn yng nghywirdeb y rhagolygon i'w ddisgwyl, oherwydd rydym yn gwybod mwy rhan o'r ffordd drwy'r flwyddyn o dan sylw.

A10. Mae'r ddau ragolwg yn cael eu dadansoddi ar wahân yn yr adrannau canlynol.

### Rhagolwg perfformiad Rhagfyr 2017

A11. Mae tabl pump yn dangos bod yr alldro yn is na rhagolwg Rhagfyr 2017 ar gyfer pob un o'r tri math o drafodiadau, ond i raddau gwahanol.

**Tabl pump: Alldro 2018-19 a rhagolwg Rhagfyr 2017**

| Math o drafodiad | Rhag-17 (£m)[43] | Alldro (£m) | Gwahaniaeth rhwng yr alldro a'r rhagolwg (£m) | Gwahaniaeth rhwng yr alldro a'r rhagolwg (%) |
|---|---|---|---|---|
| Preswyl (heb gynnwys preswyl ychwanegol) | 106.9 | 95.4 | -11.5 | -12% |
| Preswyl ychwanegol | 60.2 | 60.0 | -0.2 | 0% |
| Amhreswyl | 82.9 | 72.4 | -10.5 | -15% |
| **Cyfanswm** | 250.0 | 227.8 | -22.2 | -10% |

[42] Ar gael yn: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-07/awdurdod-cyllid-cymru-adroddiad-blynyddol-chyfrifon-2017-2019-cy.pdf

[43] Er mwyn ei gwneud yn bosibl cymharu rhagolwg Rhagfyr 2017 ag alldro 2018-19, gwnaed dau addasiad i'r ffigurau cyhoeddedig. Yn gyntaf, mae'r ad-daliadau i drafodiadau ychwanegol y gyfradd breswyl y disgwylid iddynt ddigwydd mewn blynyddoedd yn y dyfodol wedi'u hepgor, gan nad yw'r alldro ond yn cynnwys yr ad-daliadau a ddigwyddodd yn 2018-19. Mae tynnu ad-daliadau blynyddoedd y dyfodol yn golygu £6.3m o gynnydd yn y rhagolwg. Yn ail, mae'r refeniw ar sail achub y blaen, y tybiwyd y byddai Llywodraeth y DU yn ei drosglwyddo i Lywodraeth Cymru yn 2018-19 wedi'i dynnu. Mae hyn yn golygu gostyngiad o £5.9m yn y rhagolwg. Nid oes cytundeb eto â Llywodraeth y DU ynglŷn â'r dull o ymdrin â refeniw o ganlyniad i achub y blaen. Mae effaith net gyffredinol y newidiadau hyn yn fach iawn, ond mae'n effeithio ar y gymysgedd o refeniw rhwng mathau o drafodiadau. Dim ond ar gyfer rhagolwg Rhagfyr 2017 y defnyddiwyd yr addasiadau hyn, gan i'r rhagolygon dilynol gael eu cynhyrchu ar sail sy'n gyson â'r alldro.

**Dadelfennu'r gwahaniaeth rhwng alldro a rhagolwg Rhagfyr 2017**


A12. Er mwyn dadelfennu'r gwahaniaeth rhwng alldro 2018-9 a rhagolwg Rhagfyr 2017, defnyddir y ddwy elfen ganlynol, sy'n gyson â sut mae'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn gwerthuso ei rhagolygon:

1. Ffactorau economaidd
2. Ffactorau modelu

A13. Y ffactorau economaidd yng nghyswllt Treth Trafodiadau Tir yw rhagolygon twf trafodiadau a phris eiddo. Defnyddir y rhain ar gyfer y modelau i roi cyfrif am newidiadau a ddisgwylir yn y farchnad eiddo. Defnyddiodd Llywodraeth Cymru ragolygon y DU y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ar gyfer y ddau ffactor hyn.

A14. Mae'r ffactorau modelu yn cynnwys holl elfennau eraill y gwahaniaeth rhwng rhagolygon ac alldro. Mae elfennau posibl eraill yn cynnwys: newidiadau i ddosbarthiad pris eiddo o gymharu â'r rhagolwg sylfaenol a ddefnyddiwyd yn y modelau a'r effeithiau ymddygiad ar ôl gwneud newidiadau i gyfradd y dreth[44]. Mae ffigur saith yn dangos dadelfennu'r gwahaniaeth rhwng alldro â'r rhagolwg gan ddefnyddio'r ffactorau hyn ar draws tri phrif fath o drafodiadau.

**Ffigur saith: Dadelfennu rhagolygon 2018-19 Rhagfyr 2017**




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

[44] Byddai newidiadau polisi ar ôl i'r rhagolwg gael ei baratoi yn reswm arall posibl dros wahaniaethau rhwng alldro a rhagolygon. Nid oedd newidiadau o'r fath yn yr achos hwn.

A15. Ar gyfer y prif gyfraddau preswyl, mae ffactorau economaidd yn egluro tri chwarter y gwahaniaeth a'r ffactorau modelu yn egluro'r chwarter arall. Roedd y gwahaniaeth rhwng alldro a'r rhagolygon ar gyfer cyfraddau preswyl ychwanegol yn fychan iawn, felly mae'r ffactorau dadelfennu'n fychan iawn hefyd.

A16. Ar gyfer elfennau amhreswyl, mae'r ffactorau modelu (-18 y cant) yn egluro mwy na chyfanswm y gwahaniaeth. Roedd y ffactor hwn oherwydd y refeniw uchel mewn Treth Dir y Dreth Stamp yng Nghymru yn 2017-18. Barn y rhagolwg oedd tybio y byddai'r lefel uchel hon o refeniw yn parhau yn y dyfodol, yn gyson ag asesiad y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol. Ond, erbyn hyn, mae'n debyg fod y lefel uchel o refeniw amhreswyl yng Nghymru yn 2017-18 yn unigryw yn hytrach na'n newid parhaus mewn refeniw.

A17. Mae risgiau mwy yn y rhagolwg amhreswyl oherwydd bod mwy o ddibyniaeth ar ychydig o drafodiadau masnachol gwerth uchel er mwyn cynhyrchu refeniw. Mae hyn yn golygu bod refeniw o'r ffynhonnell hon yn anwadal iawn ac yn fwy tueddol o wynebu anghywirdebau o ran rhagolygon. Bydd hyn yn parhau i fod yn risg barhaus ar gyfer rhagolygon refeniw y Dreth Trafodiadau Tir yn y dyfodol.

**Rhagolwg perfformiad Rhagfyr 2018**

A18. Mae tabl chwech yn dangos bod yr alldro bump y cant yn is na'r rhagolwg ym mis Rhagfyr 2018. Roedd y gwahaniaethau yn bennaf yn y rhagolygon amhreswyl a phreswyl ychwanegol.

**Tabl chwech: Alldro 2018-19 a rhagolwg Rhagfyr 2018**

| Math o drafodiad | Rhag-18 (£m) | Alldro (£m) | Gwahaniaeth rhwng yr alldro a'r rhagolwg (£m) | Gwahaniaeth rhwng yr alldro a'r rhagolwg (%) |
|---|---|---|---|---|
| Preswyl (heb gynnwys preswyl ychwanegol) | 96.8 | 95.4 | -1.4 | -1% |
| Preswyl ychwanegol | 65.5 | 60.0 | -5.5 | -9% |
| Amhreswyl | 77.1 | 72.4 | -4.7 | -7% |
| **Cyfanswm** | 239.4 | 227.8 | -11.6 | -5% |

A19. Paratowyd rhagolwg 2018-19 Rhagfyr 2018 yn ystod y flwyddyn. Yn ystod y cyfnod hwnnw, mae'r data am refeniw treth yn ystod y flwyddyn yn bwysig iawn o ran rhagweld y sefyllfa ar gyfer y flwyddyn lawn. Roedd hyn yn gwella perfformiad o ran y rhagolwg ar y cyfan, ond nid dyma'r achos ar gyfer pob math o drafodiadau.


A20. Roedd y rhagolygon ar gyfer eiddo preswyl ychwanegol yn llai cywir ym mis Rhagfyr 2017 (-0.3 y cant) nag ym mis Rhagfyr 2018 (-9.1 y cant). Roedd hyn yn bennaf o ganlyniad i'r ffordd yr oedd refeniw yn ystod y flwyddyn wedi'i ddehongli. Roedd y dyfarniad ar refeniw yn ystod y flwyddyn ar gyfer trafodiadau eiddo preswyl ychwanegol yn seiliedig ar ychydig iawn o ddata hanesyddol, gan mai dim ond ym mis Mawrth 2016 y cyflwynwyd yr elfen hon i Dreth Dir y Dreth Stamp. Oherwydd

cyfnod cyfyngedig y data ac effeithiau achub y blaen yn ystod y cyfnod, roedd yn anodd barnu patrwm tymhorol y mathau hyn o refeniw.

A21. Mae ffigur wyth yn dangos sut roedd y refeniw misol ar gyfer y math hwn o drafodiad yn 2018-19 wedi cyrraedd uchafbwynt tua chanol y flwyddyn ariannol ac yn weddol isel tuag at y diwedd. Nid oedd y gostyngiad hwn tuag at ddiwedd y flwyddyn wedi'i ragweld yn llawn yn rhagolwg Rhagfyr 2018, ac roedd hyn wedi arwain at anghywirdeb yn y rhagolwg sydd i'w weld yn nhabl chwech.

A22. Nid yw'n glir eto a yw'r llwybr misol sydd i'w weld yn ffigur wyth yn adlewyrchu patrwm tymhorol sefydlog ar gyfer trafodiadau eiddo preswyl ychwanegol, neu a yw hefyd yn adlewyrchu dirywiad strwythurol neu fwy cyffredinol yn y math hwn o weithgaredd tuag at ddiwedd 2018-19.

**Ffigur wyth: Refeniw cyfraddau eiddo preswyl ychwanegol, fesul mis 2018–19**




Ffynhonnell: Awdurdod Cyllid Cymru, Llywodraeth Cymru

## Sut mae hyn yn cymharu â rhagolygon eraill?

A23. Mae'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol wedi paratoi rhagolygon ar gyfer Treth Trafodiadau Tir a Threth Dir y Dreth Stamp dros yr un cyfnod ag y mae Llywodraeth Cymru wedi paratoi ei rhagolygon ei hun, ond nid ar yr un dyddiadau.


A24. Roedd alldro Treth Trafodiadau Tir 2018-19 yn is nag unrhyw rai o ragolygon y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (gweler ffigur naw). Roedd y gwahaniaeth yn amrywio o 15.6 y cant i 2.6 y cant dros y cyfnod rhwng Tachwedd 2017[45] a March 2019. Mae

[45] Roedd rhagolwg y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ym mis Tachwedd 2017 yn defnyddio’r cyfraddau treth a oedd wedi’u cyhoeddi ar y pryd gan Lywodraeth Cymru. Cafodd y cyfraddau preswyl eu diwygio gan

hyn yn debyg i berfformiad Llywodraeth Cymru o ran graddfa a chyfeiriad, yn ystod yr un cyfnod.

A25. Roedd yr alldro ar gyfer Treth Dir y Dreth Stamp 8.9 y cant yn is na rhagolwg Tachwedd 2017 y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol. Dyma'r cyfnod sy'n cymharu orau â rhagolwg Treth Trafodiadau Tir Rhagfyr 2017 Llywodraeth Cymru ac roedd perfformiad y rhagolwg yn debyg iawn. Mae cywirdeb rhagolygon y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol o Dreth Dir y Dreth Stamp wedi gwella dros amser hefyd, wrth i fwy o wybodaeth am flwyddyn y rhagolwg ddod ar gael.

**Ffigur naw: Alldro Treth Trafodiadau Tir a Threth Dir y Dreth Stamp y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn ôl y gwahaniaeth yn y rhagolwg, 2018-19**




Ffynhonnell: Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol a Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (alldro amodol)

A26. Yn yr Alban, roedd alldro 2018-19 ar gyfer Treth Trafodiadau Tir ac Adeiladau (a ddaeth yn lle Treth Dir y Dreth Stamp) chwech y cant yn is na rhagolwg Rhagfyr 2017 y Scottish Fiscal Commission[46].

## Casgliadau

A27. Roedd alldro'r refeniw Treth Trafodiadau Tir yn 2018-19 yn is na'r rhagolygon a gyhoeddwyd yn ystod Rhagfyr 2017 a Rhagfyr 2018, er bod y gwahaniaeth yn llai yn

Lywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2017 ac arweiniodd hynny at leihau'r refeniw. Felly mae newidiadau i bolisi yn egluro'r gwahaniaeth rhwng alldro a rhagolwg yn rhannol yn yr achos hwn.

[46] Nid yw hyn yn cynnwys newidiadau polisi i Dreth Trafodiadau Tir ac Adeiladau a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2018 ac a ddaeth i rym tuag at ddiwedd mis Ionawr 2019. Effaith y newidiadau hyn oedd cynyddu refeniw rhywfaint yn 2018-19. I gael rhagor o fanylion, ewch i: https://www.revenue.scot/news/news/scottish-budget-sets-out-proposed-changes-devolved-taxes

y rhagolwg diweddaraf. Roedd arwydd a maint cymharol y gwahaniaeth yn gyson â rhagolygon trethi trafodiadau eiddo eraill yn y DU a baratowyd gan y Scottish Fiscal Commission a'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol un neu ddwy flynedd ymlaen llaw.

## Treth Gwarediadau Tirlenwi


### Crynodeb o'r Alldro a'r Rhagolwg

A28. £44.4m oedd alldro 2018-19 o'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi, fel sy'n cael ei ddangos yng nghyfrifon blynyddol Awdurdod Cyllid Cymru[47].

A29. Mae hyn yn uwch na rhagolwg Rhagfyr 2017 Llywodraeth Cymru, sef £26m. Roedd rhagolwg Rhagfyr 2018 yn llawer nes at y ffigur alldro terfynol (gweler ffigur deg) diolch i'r ffaith fod Awdurdod Cyllid Cymru wedi cyhoeddi data alldro yn ystod y flwyddyn.

A30. Cyn cyhoeddi'r data alldro, nid oedd data gweinyddol ar gael ar faint o dreth dirlenwi oedd yn cael ei chasglu yng Nghymru. Yn wahanol i Dreth Trafodiadau Tir, lle mae modd dadgyfuno data Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi ar Dreth Dir y Dreth Stamp cyn datganoli'r dreth, nid oedd modd dadgyfuno data Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi ar dderbyniadau treth dirlenwi.

**Ffigur deg: Rhagolygon ac alldro Treth Gwarediadau Tirlenwi ar gyfer 2018-19**




Ffynhonnell: Awdurdod Cyllid Cymru, Llywodraeth Cymru

### Rhagolwg perfformiad Rhagfyr 2017

[47] Ar gael yn: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-07/awdurdod-cyllid-cymru-adroddiad-blynyddol-chyfrifon-2017-2019-cy.pdf

A31. Gan ddilyn yr elfennau dadelfennu a ddefnyddir ar gyfer y Dreth Trafodiadau Tir a gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, mae'r gwahaniaethau rhwng rhagolygon ac alldro wedi'u dosbarthu'n ddau:

1. Ffactorau Economaidd
2. Ffactorau Modelu[48]

A32. Mae'r ffactorau economaidd yn gyfyngedig ar gyfer y Dreth Gwarediadau Tirlenwi. Mae hyn oherwydd bod prisiau gwastraff fesul tunnell yn cael eu pennu ymlaen llaw ac yn cynyddu yn unol â'r Mynegai Prisiau Manwerthu.

A33. Mae ffactorau modelu yn cynnwys unrhyw newidiadau i'r fethodoleg, data newydd sydd ar gael am wastraff, newidiadau i'r rhagdybiaethau ynghylch seilwaith gwastraff a dehongli refeniw yn ystod y flwyddyn. Y prif elfennau ansicr yw cyfanswm cyfaint y gwastraff a rhaniad y gwastraff rhwng cyfraddau safonol ac is (gallai'r ddau gael eu nodi'n ffactorau modelu).

A34. Paratowyd y rhagolwg ar gyfer cyllideb Rhagfyr 2017, sef £26m, cyn i unrhyw ddata am y Dreth Gwarediadau Tirlenwi fod ar gael. Roedd y rhagolwg hwn yn seiliedig ar ddata tirlenwi gan weithredwyr safleoedd a gasglwyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru a data gwastraff trefol gan awdurdodau lleol.

A35. Mae'r rhan fwyaf o'r gwahaniaeth rhwng rhagolwg cyllideb 2017 a'r alldro terfynol oherwydd dosbarthiad gwastraff.

A36. Roedd cyfanswm y tunelli o wastraff y rhagwelwyd fyddai'n cael ei dirlenwi yn 2018-19 o fewn pump y cant i gyfanswm y data alldro, heb gynnwys rhyddhad a disgowntiau. Ond, roedd cyfanswm y gwastraff a oedd yn cael ei ystyried ar y gyfradd safonol yn uwch na'r hyn a ragwelwyd, ac roedd cyfanswm y gwastraff a oedd yn cael ei ystyried ar y gyfradd is yn is.

A37. Mae'r gwahaniaeth mawr rhwng y cyfraddau treth safonol (£88.95 tunnell) ac is (£2.80 tunnell) ar gyfer gwastraff yn golygu bod rhaniad y gwastraff rhwng y cyfraddau yn cael effaith fawr iawn ar swm y dreth a gesglir.

A38. Mae'r data am wastraff gan weithredwyr safleoedd i'w defnyddio yn y model yn cael eu torri i lawr yn nifer o gategorïau. Dyrannwyd y rhain i ddechrau i'r cyfraddau treth safonol ac is yn y model rhagamcanu ar sail y dehongliad o ddisgrifiadau'r categorïau gwastraff. Nid oes cysylltiad uniongyrchol rhwng categorïau gwastraff a'r cyfraddau treth. Wrth i Awdurdod Cyllid Cymru gyhoeddi data alldro, daeth yn amlwg nad oedd y dyraniadau a ddefnyddiwyd yn cyd-fynd â'r ffordd yr oedd cyfraddau treth yn cael eu rhoi ar waith. Mae cyfran uwch o wastraff sy'n cael ei anfon i safleoedd tirlenwi yn cael ei ystyried yn wastraff cyfradd safonol na'r hyn a amcangyfrifwyd yn wreiddiol, wrth i Awdurdod Cyllid Cymru weinyddu'r dreth. Mae rhagamcanion dilynol wedi ystyried y rhaniad amlwg rhwng y cyfraddau safonol ac is yn y data alldro am refeniw.

A39. I raddau llai, mae materion gweithredol hefyd yn egluro rhywfaint o'r gwahaniaeth rhwng alldro a'r rhagolygon. Defnyddiwyd cynlluniau gwastraff awdurdod lleol ar gyfer y rhagolygon. Fodd bynnag, nid oedd gwastraff awdurdod lleol wedi lleihau cymaint â'r disgwyl. Mae hyn o ganlyniad i atal trwydded gweithredwr gwastraff dros dro, a

[48] Mae'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol hefyd yn cynnwys ffactorau polisi, ond nid oedd y polisi tirlenwi yn newid rhwng y rhagolygon, felly nid yw wedi cael effaith.

oedd yn prosesu gwastraff gweddilliol yn danwydd sy'n deillio o sbwriel i'w allforio, a gwastraff gweddilliol uwch gan yr awdurdodau hynny a oedd wedi ymrwymo i gontractau â chwmnïau Troi Gwastraff yn Ynni. Arweiniodd y materion hyn at fwy o wastraff cyfradd safonol yn cael ei anfon i safleoedd tirlenwi na'r hyn a ragwelwyd.

**Rhagolwg perfformiad Rhagfyr 2018**

A40. Roedd rhagolwg Rhagfyr 2018, sef £47m yn cael budd o ddata alldro dau chwarter. Cyfrifwyd proffil chwarterol gan ddefnyddio data cyfartaledd wyth mlynedd Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi ar gyfer treth dirlenwi. Roedd hyn yn awgrymu patrwm tymhorol i'r refeniw yn y DU. Roedd cyfartaledd o 54 y cant o'r refeniw blynyddol yn ddyledus yn y ddau chwarter cyntaf. Defnyddiwyd y patrwm tymhorol hwn yn y DU i greu ffactor uwchraddio, a ddefnyddiwyd gyda dau chwarter cyntaf alldro Treth Gwarediadau Tirlenwi i gael rhagolwg ar gyfer blwyddyn gyfan.

A41. Roedd rhagolwg Rhagfyr 2018 ychydig yn uwch na'r alldro gan fod refeniw yn y 3$^{ydd}$ a'r 4$^{ydd}$ chwarter ychydig yn is na'r hyn fyddai patrwm tymhorol hanesyddol y DU yn ei awgrymu.

**Sut mae hyn yn cymharu â rhagolygon eraill?**

A42. Roedd rhagolwg Tachwedd 2017 y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ar gyfer Treth Gwarediadau Tirlenwi 2018-19 yn £23m yn seiliedig ar amcangyfrif o gyfran Cymru o dderbyniadau Treth Dirlenwi'r DU, sef 3.8 y cant. Roedd hyn £3m yn is na rhagolygon Llywodraeth Cymru a £21m yn is na'r alldro. Diffyg data gweinyddol wedi'u dadgyfuno oedd y rheswm dros y gwahaniaeth mawr hwn rhwng alldro a rhagolygon, fel oedd yn wir gyda rhagolygon Llywodraeth Cymru.

A43. Roedd Llywodraeth yr Alban yn wynebu'r un her gyda'u rhagolygon cyntaf o Dreth Dirlenwi yr Alban gan nad oedd modd dadgyfuno data Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi ar dderbyniadau treth dirlenwi cyn datganoli'r dreth [49]. Felly, roedd rhagolygon Llywodraeth yr Alban ym mis Rhagfyr 2014 ar gyfer Treth Dirlenwi yr Alban yn 2015-16 20 y cant yn is na'r alldro.

A44. Roedd rhagolygon Rhagfyr 2017 y Scottish Fiscal Commission ar gyfer Treth Dirlenwi yr Alban yn 2018-19 hefyd yn is na'r alldro (25 y cant yn is na'r alldro), hyd yn oed ar ôl i wybodaeth am yr alldro fod ar gael. Oedi gyda'r capasiti llosgi yn dod ar-lein oedd yn gyfrifol am y rhan fwyaf o'r gwahaniaeth hwn. Nid yw rhagolygon Cymru yn debygol o wynebu problemau tebyg oherwydd mae'r rhan fwyaf o'r gwastraff trefol yn cael ei ddargyfeirio oddi wrth safleoedd tirlenwi yn barod, ac mae modd delio â'r gwastraff hwn o fewn y capasiti llosgi presennol.

**Casgliadau**

A45. Roedd rhagolwg cyllideb Rhagfyr 2017 wedi rhoi amcangyfrif llawer rhy isel ynghylch swm y Dreth Gwarediadau Tirlenwi. Nid yw'n debygol y bydd graddfa'r gwahaniaeth yn y rhagolygon yn cael ei hailadrodd nawr fod gwybodaeth am alldro refeniw ar gael gan Awdurdod Cyllid Cymru. Mae'r fethodoleg wedi'i diweddaru i ystyried data alldro. Hefyd, dilynir dull mwy gofalus o asesu cynlluniau gwastraff awdurdodau lleol, gan

[49] Ar 1 Ebrill 2017, ysgwyddodd y Scottish Fiscal Commission gyfrifoldeb dros baratoi rhagolygon treth ar gyfer yr Alban.

adael swm gweddilliol o wastraff yn y rhagolygon unwaith y bydd wedi ymrwymo i gontract Troi Gwastraff yn Ynni.

## Y camau nesaf ar gyfer rhagolygon y Dreth Trafodiadau Tir a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi

A46. Mae'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol wedi paratoi rhagolygon annibynnol ar gyfer refeniw Treth Trafodiadau Tir a Threth Gwarediadau Tirlenwi ar gyfer Cyllideb ddrafft 2020-21 a bydd yn cynnal y rôl hon ar gyfer cyllidebau'r dyfodol. Ond, bydd gan ddadansoddwyr Llywodraeth Cymru rôl i'w chwarae yn y rhagolygon hyn o hyd. Bydd yr wybodaeth a geir o'r gwerthusiad hwn ac o'r broses o gynnal y rhagolygon yn helpu i fod yn sail i ddyfarniadau rhagolygon a newidiadau modelu yn y dyfodol.

# Atodiad dau: Manylion cyswllt i gael rhagor o wybodaeth

Mae rhagor o wybodaeth am drethi Cymru ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru:

https://llyw.cymru/trethi-cymru
https://gov.wales/welsh-taxes

Gallwch chi gysylltu â ni:

drwy gyfrif Twitter Trysorlys Cymru:

@TrysorlysCymru
@WelshTreasury

neu drwy anfon e-bost:

TrysorlysCymru@llyw.cymru
WelshTreasury@gov.wales